

Ein hadroddiad blynyddol 2019



Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Cynnwys

Am yr adroddiad hwn	2
Rhagair	3
Cyflawni ein rôl	6
Rheoleiddio effeithlon ac effeithiol	6
Datblygu rheoleiddio ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia	7
Ein hadolygiad perfformiad	7
Cipolwg ar 2019	8
Rheoleiddio mewn pedair gwlad	12
Symud ein strategaeth gorfforaethol yn ei blaen	13
Cynorthwyo meddygon i wneud gwaith meddygol da	14
Cryfhau cydweithio gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y gwasanaethau iechyd	23
Cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn	31
Bodloni anghenion y gwasanaethau iechyd ar draws pedair gwlad y DU, sy'n newid	39
Gwella ein perfformiad	42
Buddsoddi yn ein pobl	42
Rhyddid i godi llais	43
Mentrau cyfrifoldeb cymdeithasol	44
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	45
Ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith a'n diwylliant	45
Creu amgylcheddau mwy cynhwysol	46
Gwella ymwybyddiaeth o gynhwysiant	47
Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu a'n gweithgarwch rheoli	48
Adolygiad ariannol 2019	58
Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio 2019	64
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol	71
Cyfrifon 2019	74
Gwybodaeth weinyddol a chyfeirio	108

Am yr adroddiad hwn

Mae'n hymddiriedolwyr yn cyflwyno'r datganiadau ariannol a'r adroddiad hwn ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2019.

Maent yn cadarnhau eu bod wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd i'r cyhoedd wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion; a'u bod wedi ystyried y canllawiau hyn wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau; neu wrth wneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bob amser ein bod wedi gweithredu er budd y cyhoedd; a bod y gweithgareddau fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn a'r cyfrifon hyn yn bodloni'r gofynion o ran budd y cyhoedd yn llawn, a'u bod yn cefnogi ein diben elusennol.

Rhagair

Mae'r misoedd diwethaf wedi dangos gwydnwch a dewrder aruthrol pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd.

Gan wynebu'r bygythiad mwyaf y mae GIG erioed wedi ei wynebu, mae meddygon wedi dangos eu dyfeisgarwch, eu gallu a'u hymroddiad, ar adeg pan fo cymaint yn y fantol.

Mae ein gwaith a wnaethpwyd y llynedd i ddeall profiadau meddygon a chleifion o ofal iechyd yn well, wedi bod yn hanfodol wrth ddylanwadu ar ein hymateb rheoliadol i bandemig COVID-19.



Wrth i'r argyfwng hwn fynnu newid sylfaenol o ran y ffordd y darparir gofal, mae gan yr egwyddorion a gydgynhyrchom ym mis Tachwedd ynghylch ymgynghoriadau o bell arwyddocâd newydd erbyn hyn hefyd.

Mae'r cyfnod eithriadol hwn yn gofyn cryn dipyn gan bob un ohonom. Ond i'r rhai sy'n gweithio ar y rheng flaen mewn amodau gofidus, mae'r pwysau yn arbennig o ddwys.

Hyd yn oed cyn yr oedd COVID-19 wedi datblygu i fod yn brif elfen y llwyth gwaith yn y gwasanaeth iechyd, gwelwyd arwyddion clir a oedd yn ein rhybuddio.

Canfu ein hadroddiad, *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU*¹, bod 12% o feddygon wedi bod yn absennol am gyfnod oherwydd straen², ac adroddodd 32% eu bod yn gweithio mwy na'r oriau a neilltuwyd iddynt yn eu rhestr, bob dydd³.

Ar yr un pryd, gwelir y galw am wasanaethau gofal iechyd yn cynyddu, wrth i'r boblogaeth heneiddio ac wrth i glefydau cymhleth, megis diabetes a dementia, ddod yn fwyfwy cyffredin. Yn y cyfamser, mae'r disgwyliadau o ofal yn parhau i fod yn uchel.

Mae nifer o feddygon yn ymateb i lwythi gwaith sy'n cynyddu a'r pwysau cynyddol trwy adael y proffesiwn. Roedd un o bob pump meddyg wedi lleihau eu horiau gwaith, ac roedd un o bob tri meddyg teulu wedi gwneud hynny⁴.

¹ Seiliwyd yr adroddiad ar ganfyddiadau *Arolwg baromedr* 2019, a oedd yn archwilio profiadau meddygon dros y 12 mis blaenorol.

² t. 22, *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU* 2019.

³ t. 24, *Ibid*.

⁴ t. 6, *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU*: adroddiad y gweithlu 2019

Mae'r pwysau hwn yn cael effaith wirioneddol ar y gofal y bydd cleifion yn ei gael. Roedd 34% o feddygon wedi ei chael hi'n anodd darparu lefel y gofal yr oedd ei hangen ar glaf, o leiaf unwaith yr wythnos⁵.

Os ydym yn mynd i greu'r gweithlu cynaliadwy y mae ei angen ar GIG nawr, rhaid i ni ddelio gyda'r realiti hwn sy'n newid yn gyson, mewn ffordd uniongyrchol.

Fel corff diogelwch cleifion, rhaid i ni wynebu'r rhwystrau sy'n atal gofal da, gan weithio gyda phartneriaid gofal iechyd i'w goresgyn.

Mae hyn yn olygu bod yn rhaid i'n rôl esblygu. Yn hytrach nag ymateb i ddigwyddiadau, rhaid i ni fod yn rhagweithiol.

Y llynedd, cyhoeddodd gyfres o adolygiadau a gomisiynwyd yn annibynnol gennym i nodi'r materion sy'n effeithio ar allu meddygon i ddarparu gofal, ac i nodi datrysiadau ymarferol er mwyn eu goresgyn. Yn ogystal, lansiom ein harolwg cyntaf erioed o arbenigwyr cyswllt ac arbenigedd a meddygon a gyflogir yn lleol.

O'r ymchwil hwn, daeth nifer o feysydd i'r amlwg y mae gofyn rhoi blaenoriaeth iddynt, gan gynnwys diwylliant ac arweinyddiaeth dosturiol, adborth ac ymsefydlu effeithiol, a thegwch a chynhwysiant.

Mae lles a diwylliannau cadarnhaol a chyfiawn yn y gweithle yn hanfodol i feddygon er mwyn iddynt allu darparu gofal o'r ansawdd uchaf i gleifion.

Credwn bod gennym rôl i'w gyflawni wrth hyrwyddo diogelwch cleifion trwy gynorthwyo meddygon, ond ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rhaid i bob rhan o'r gwasanaeth iechyd ddod ynghyd er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen.

Felly ar sail yr adolygiadau a gyhoeddodd, dechreuom gynnal sgysiau gyda phob rhan o'r system, ar draws pob rhan o'r DU, er mwyn creu newid cadarnhaol. Bydd y gwaith pwysig hwn yn parhau dros y flwyddyn i ddod, ar y cyd â'n partneriaid.

Rydym wedi cymryd nifer o fesurau ymarferol hefyd o'n hochr ni er mwyn datblygu'r agenda hon.

Er enghraifft, cyflwynom hyfforddiant Ffactorau Dynol i'n holl benderfynwyr addasrwydd i wneud gwaith meddygol ac archwilwyr achos, felly deallir gweithredoedd meddygon yn well yng nghydestun straen ar y system iechyd.


Llwyddom i gynyddu'r lefel gyfranogi yn ein *Gweithdai Croeso i arfer yn y DU* ar gyfer meddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol, gymaint â 37%.

⁵ t. 95, *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU 2019*.

A dechreuom weithio'n galed ar y dasg o gynnwys Cymdeithion Meddygol (CMion) a Chymdeithion Anesthesia (CAion) yn ein gweithgarwch rheoleiddio. Bydd hyn yn caniatáu i CMion a CAion i gyfrannu cymaint ag y bo modd i'r gweithlu ac i ddiogelwch cleifion fel rhan o dimau amlddisgyblaethol sy'n cynnwys proffesiynau gofal iechyd rheoledig eraill.

Rydym wedi gwneud cychwyn cadarn yn 2019. Ond mae llawer mwy i'w wneud.

Yn 2020, byddwn yn canolbwyntio ar ddwyn holl rannau'r system iechyd ynghyd, gan weithio i hyrwyddo amgylcheddau lle y gall meddygon ddarparu'r gofal gorau ag y bo modd i gleifion.



Charlie Massey

Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Cyflawni ein rôl

Ni yw rheolydd annibynnol meddygon yn y DU.

Ein rôl yw:

- diogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd
- hyrwyddo a chynnal safonau proffesiynol i feddygon
- goruchwyllo addysg a hyfforddiant meddygol yn y DU
- gweithredu pan fydd diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon mewn perygl.

Rheoleiddio effeithlon ac effeithiol

Mae rheoleiddio effeithlon ac effeithiol wrth wraidd ein holl waith.

- [Rydym yn rheoli cofrestr feddygol y DU](#) – Rydym yn archwilio manylion a chymwysterau pob meddyg cyn y gallant ymuno â'r gofrestr. A byddwn yn holi ysgolion meddygol neu gyflogwyr blaenorol er mwyn darganfod a oes ganddynt unrhyw bryderon am allu y meddyg i wneud gwaith meddygol diogel.
- [Rydym yn gosod y safonau ar gyfer meddygon](#) – Mae'n safonau yn diffinio'r hyn sy'n gwneud meddyg da trwy bennu'r gwerthoedd proffesiynol, y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan bob meddyg sy'n gweithio yn y DU. Pan fyddwn yn datblygu ein safonau a'n harweiniad, byddwn yn ymgynghori gydag ystod eang o bobl, gan gynnwys cleifion, meddygon, cyflogwyr ac addysgwyr.
- [Rydym yn goruchwyllo pob cam mewn addysg a hyfforddiant meddygol](#) – Rydym yn sicrhau bod meddygon yn cael yr addysg a'r hyfforddiant y mae ei angen arnynt er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfaedd, gan bennu'r canlyniadau y mae angen i raddedigion eu sicrhau a chymeradwyo cwricwla ar gyfer addysg ôl-raddedig. Rydym yn pennu safonau addysgol ar draws y DU, ac yn monitro amgylcheddau hyfforddiant er mwyn galluogi dysgu diogel ac effeithiol.
- [Rydym yn helpu i gynnal a gwella safonau trwy gyfrwng ailddilysu](#) – Mae'n bwysig bod pob meddyg trwyddedig yn y DU yn parhau i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae ailddilysu yn rhan sylfaenol o lywodraethu clinigol ar gyfer meddygon. Mae'n cynnig sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod meddygon yn y DU yn rhan o system a lywodraethir, sy'n archwilio eu haddasrwydd i wneud gwaith meddygol yn rheolaidd ac sy'n cynorthwyo eu datblygiad a'u gwelliant parhaus. Yn ogystal, mae'n cynorthwyo gweithgarwch i adnabod a rheoli pryderon yn gynnar.
- [Rydym yn ymchwilio i bryderon sy'n peryglu cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon, ac yn gweithredu yn eu cylch](#) – Pan fynegir pryder i ni, byddwn yn asesu a yw'n bodloni ein trothwy er mwyn ymchwilio iddo. Os ydyw, byddwn yn ymchwilio, ac ar ddiwedd yr ymchwiliad, byddwn yn penderfynu pa gamau y mae angen i ni eu cymryd, gan gynnwys a ddylem gau'r achos, rhoi cyngor neu rybudd i'r meddyg, neu gytuno gyda'r meddyg y byddant yn cyfyngu eu gwaith, yn ailhyfforddi neu'n gweithio dan oruchwyliaeth. Mewn rhai sefyllfaoedd, byddwn yn cyfeirio'r achos at y [Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol \(MPTS\)](#) am wrandawriad.

Datblygu rheoleiddio ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) y byddem yn rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia.

Rydym yn datblygu dull, cost ac amserlen arfaethedig er mwyn rheoleiddio'r proffesiynau cymdeithion meddygol. Yn ogystal, rydym yn archwilio pa ddeddfwriaeth a pholisïau y bydd eu hangen arnom er mwyn symud ymlaen. Ym mis Mawrth 2020, cyflwynom adroddiad cwmpasu am y mater hwn i DHSC.

Ei'n hadolygiad perfformiad


Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn cynnal asesiad blynyddol o'n perfformiad fel rheolydd. Cadarnhaodd ei asesiad diweddaraf ein bod wedi llwyddo i fodloni'r 24 safon ar gyfer rheoleiddio da yn ystod 2018/19. Mae'r rhain yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â thegwch, tryloywder, diogelu'r cyhoedd ac amseroldeb.

Cipolwg ar 2019

Mae'r ffigurau hyn yn gywir ar 31 Rhagfyr 2019.

Trowch at Archwiliwr Data i ddysgu mwy am weithlu gofal iechyd y DU.

Y gofrestr




Rheoli cofrestr feddygol y DU



Gosod y safonau ar gyfer meddygon




Atebodd ein tîm Safonau **dros 600** o ymholiadau gan feddygon, gan eu helpu i ddelio â'r sialensiau moesegol y maent yn eu hwynebu.



3,692 mynychodd meddygon ein sesiynau Croeso i Arfer yn y DU.

Cynhaliodd ein Cynghorwyr Cyswllt Cyflogwyr **dros 1,400** o gyfarfodydd cyswllt cyflogwr gyda swyddogion cyfrifol.

Helpu i godi safonau trwy gyfrwng ailddilysu



Goruchwyllo addysg a hyfforddiant meddygon

Dros 75,000

cwblhaodd hyfforddwyr a hyfforddeion ein harolygon hyfforddi cenedlaethol.

Dros 6,400

cwblhaodd meddygon ein harolwg meddygon SAS a LE.



Ymunodd Prifysgol Buckingham ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Canol Sir Gaerhifryn â'n rhestr o sefydliadau cymeradwy.



Ym maes hyfforddiant arbenigol, cymeradwyom **56** o ddatganiadau diben a **10** o gwricwla llawn yn 2019 yn erbyn ein safonau Rhagoriaeth trwy Ddyluniad – sy'n golygu ein bod wedi cymeradwyo **96** o ddatganiadau diben a **31** o gwricwla llawn erbyn hyn.

Cymeradwyom fframwaith er mwyn galluogi trefniant o ran cymwysterau wedi'i reoli gan CMC mewn 5 maes arfer a fabwysiadwyd yn gynnar

Cynhaliom 21 o ymweliadau sicrhau ansawdd, gan ganfod:



9 maes arfer da



17 maes lle y bodlonir ein safonau, ond lle y nodom gwelliannau y byddai modd eu gwneud




6 maes yr oedd angen eu gwella

10 cyfeiriwyd deg mater at ein proses fonitro well.

13 datryswyd materion monitro gwell yn 2019.

Gwasanaethau cwsmeriaid

Atebodd ein Canolfan Gyswilt **178,823** o alwadau ac ymatebodd i **116,205** o negeseuon e-bost a llythyrau



Feddygon

229,461

roedd galwadau a negeseuon e-bost gan feddygon.

Y cyhoedd ac eraill


64,516

roedd galwadau a negeseuon e-bost gan y cyhoedd ac eraill

Cynorthwyodd ein Gwasanaeth Cyswilt Cleifion **392** o gleifion, perthnasau, neu aelodau'r cyhoedd yr oeddent wedi mynegi pryderon am feddyg **96%** o'r rhai a holwyd wedi barnu bod eu profiad o'r gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.



Gweithredu ynghylch pryderon



Canlyniadau penderfyniadau archwilwyr achos



- Cwblhawyd heb unrhyw gamau pellach: 719
- Cyfeiriwyd at MPT: 347
- Rhoddwyd rhybudd: 85
- Y meddyg yn cytuno i ymgymeriadau: 76
- Cwblhawyd gyda chyngor: 52

Canlyniadau ymchwiliadau amodol




- Yn mynd rhagddynt o hyd: 55
- Symudwyd ymlaen i ymchwiliadau: 143
- Caewyd: 404
- Cyfeiriwyd: 0

Canlyniadau tribiwnlysoedd addasrwydd i wneud gwaith meddygol MPTS

Dileu	55
Atal dros dro	120
Amodau	14
Ymgymeriadau	0
Dim Amhariad- Rhybudd	17
Amhariad – Dim camau pellach	4
Dim Amhariad	44
Dileu Gwirfoddol	3
Cyfanswm	257

Rheoleiddio mewn pedair gwlad

Mae gennym bresenoldeb penodedig ym mhedair gwlad y DU, gyda swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn Lloegr yn Llundain ac ym Manceinion.



Symud ein strategaeth gorfforaethol yn ei blaen

Ein pedwar nod strategol ar gyfer 2018–20

01

Cynorthwyo meddygon i wneud gwaith meddygol da

Byddwn yn defnyddio ein prosesau, ein data a'n gwybodaeth er mwyn paratoi meddygon yn well a'u cynorthwyo yn well i ddarparu gofal o ansawdd uchel, gan atal niwed i gleifion a meddygon.

02

Cryfhau ein gweithgarwch cydweithio gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y gwasanaethau iechyd

Byddwn yn cryfhau y gweithgarwch cydweithio gyda'n partneriaid ar draws y systemau gofal iechyd er mwyn lleihau risg niwed i gleifion ac i feddygon, lleihau unrhyw faich ddianghenraid a darparu ymyriadau rheoliadol mwy cymesur ac sydd wedi'u targedu yn fwy.

03

Cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn

Byddwn yn cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn a byddwn yn siarad ac yn gweithredu er budd diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.

04

Bodloni anghenion y gwasanaethau iechyd sy'n newid ar draws pedair gwlad y DU

Byddwn yn rheolydd hyblyg ac ystwyth, gan ddefnyddio ein data i ragweld ac ymateb yn well i'r tirlun gwleidyddol a gwasanaethau iechyd sy'n newid ac i gyd-destunau lleol.

Cynorthwyo meddygon i wneud gwaith meddygol da

Hyrwyddo amgylcheddau gwaith gwell a mwy cefnogol i feddygon a myfyrwyr meddygol

Mae'r effaith sylweddol y mae'r pwysau yn y system yn ei chael ar arfer meddygon, ar eu lles ac ar eu gallu i ddarparu gofal diogel i gleifion, yn hysbys.

Mae lles a diwylliannau cadarnhaol a chyfiawn mewn gweithleoedd yn hanfodol er mwyn i feddygon ddarparu gofal o'r ansawdd gorau i gleifion, ac er mwyn diogelu diogelwch cleifion yn fwy cyffredinol. Mae'n amlwg hefyd bod sicrhau newid cadarnhaol mewn perthynas â'r ffactorau hyn yn gofyn am gydweithrediad a buddsoddiad gan yr holl randdeiliaid yn systemau gofal iechyd y DU.

Dyma brif ganfyddiadau *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau*, rhaglen waith sylweddol a gychwynnom yn 2018 er mwyn deall mwy am y sialensiau y mae meddygon a myfyrwyr meddygol yn eu hwynebu yn ystod eu gyrfaedd.

Fel rhan o'r rhaglen, yn 2019, cyhoeddodd dri adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar arfer meddygol pob dydd, a buom yn gweithio ar feithrin deialog gyda phartneriaid yn sector gofal iechyd y DU er mwyn sicrhau newid cadarnhaol, i feddygon a chleifion.

Cyflawni newid gyda'n gilydd

Rhoddodd yr adroddiadau a gyhoeddodd, a ddisgrifir ymhellach isod, ddirnadaeth arwyddocaol i ni o'r sialensiau allweddol y mae meddygon sy'n gweithio yn systemau gofal iechyd y DU yn eu hwynebu wrth ddarparu gofal diogel i gleifion.

Pwynt pwysig i'w gofio yw eu bod wedi cynnig cyfle i ni ysgogi trafodaethau am amgylcheddau gwaith ac iechyd a lles meddygon gyda'n partneriaid ar draws y DU, gan gynnwys rheolyddion proffesiynol eraill, gan greu momentwm ar gyfer gweithredu.

Er bod pob adolygiad wedi nodi argymhellion penodol i ni ac i sefydliadau ar draws systemau gofal iechyd DU, mae'n glir bod themâu cyffredin ar draws y tri.

Mae'n gwaith ar *Croeso i arfer yn y DU*⁶, *Ymddygiad proffesiynol a diogelwch cleifion*⁷ a chyrhaeddiad gwahaniaethol eisoes yn targedu rhai o'r meysydd hyn.

Ond yr unig ffordd o sicrhau bod y newid y mae cleifion, meddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ei haeddu yn digwydd yw trwy gyfrwng ymdrechion pellach ar draws y system, a thrwy ymrwymadau clir gan yr holl randdeiliaid perthnasol yn sector gofal iechyd y DU.

⁶ Gweler tudalen 19.

⁷ Gweler tudalen 18.

Felly, ar ddiwedd 2019, dechreuom weithio gyda phartneriaid ar draws pedair cenedl y DU i ddatblygu'r arfer da sy'n bodoli eisoes ac i gynorthwyo wrth weithredu argymhellion yr adroddiadau, gyda chymorth pawb. Bydd yr agwedd hon ar ein rhaglen waith, sy'n ceisio meithrin deialog rhwng partneriaid rheoleiddio a rhanddeiliaid eraill ar draws gwahanol systemau iechyd y DU, yn parhau yn 2020, a byddwn yn adrodd amdano yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf.

Isod, rydym yn disgrifio prif ganfyddiadau'r adolygiadau a gyhoeddodd yn 2019.

Gofalu am feddygon, Gofalu am gleifion: Sut i drawsnewid amgylcheddau gofal iechyd y DU er mwyn cynorthwyo meddygon a myfyrwyr meddygol i ofalu am gleifion – cadeiriwyd gan Fonesig Denise Coia ac Athro Michael West⁸

Roedd yr adolygiad hwn wedi gwneud wyth argymhelliad er mwyn cynorthwyo lles myfyrwyr meddygol a meddygon, ac er mwyn galluogi gofal da a diogel i gleifion. Gyda'i gilydd, nod yr argymhellion hyn yw rhoi sylw i dri phrif angen y bydd meddygon yn eu hwynebu yn y gweithle:

- ymreolaeth/rheolaeth – yr angen i gael rhywfaint o reolaeth dros eich bywyd gwaith
- perthyn – yr angen i deimlo'n rhan o dîm cefnogol, effeithiol a chysylltiedig
- cymhwysedd – teimlo eich bod yn cael eich galluogi yn eich rôl a'ch bod yn gallu cyflawni canlyniadau clir, megis gofal o ansawdd uchel.

Amlygodd amrediad o enghreifftiau ymarferol ar draws y DU, lle y mae cyflogwyr a thimau clinigol eisoes yn gweithredu datrysiadau lleol er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n effeithio ar iechyd a lles meddygon.

Croesawyd yr adroddiad gan y proffesiwn a chan sefydliadau allweddol, wrth i ni nifer gyfeirio ato fel cyhoeddiad 'o bwys'. Fe'i lawrlwythwyd dros 3,000 gwaith a gwyliwyd fideo a oedd yn cynnwys ein Cadeirydd, Bonesig Clare Marx, yn trafod yr adroddiad, dros 45,000 gwaith.

A yw hi'n deg cyfeirio? Lleihau anghyfartaledd mewn pryderon addasrwydd i wneud gwaith meddygol a adroddir i CMC – cadeiriwyd gan Dr Doyin Atewologun a Roger Kline⁹

Daeth yr ymchwil hwn i'r casgliad bod ffactorau lluosog y ceir cyswllt cymhleth rhyngddynt yn peri i rai grwpiau o feddygon gael eu cyfeirio atom yn fwy nag eraill. Nododd argymhellion mewn pedwar prif faes er mwyn helpu i roi sylw i'r materion hyn:

- gwella'r cymorth i feddygon sy'n newydd i'r DU neu i GIG neu y mae eu rôl yn debygol o'u hynysu

⁸ Mae Bonesig Denise Coia yn Seiciatrydd Clinigol ac yn arweinydd ym maes iechyd meddwl. Trist nodi y bu farw ym mis Ebrill 2020. Mae Athro Michael West yn Athro Gwaith a Seicoleg Sefydliadol yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Caerhirfryn.

⁹ Mae Dr Doyin Atewologun yn Seicolegydd Galwedigaethol Siartredig a Chofrestredig. Mae Roger Kline yn Gymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol Middlesex.

- rhoi sylw i faterion systemig y gallent effeithio ar berfformiad proffesiynol meddygon a sut y dylid eu hystyried wrth asesu arfer
- sicrhau bod arweinyddiaeth gadarnhaol a chynhwysol, ac sy'n ymgysylltu, yn fwy cyson ar draws GIG
- datblygu mecanwaith ar draws y DU i weithredu ar yr argymhellion ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Dynladdiad trwy esgeulustod gros a lladdiad beius mewn arfer meddygol – cadeiriwyd gan Leslie Hamilton¹⁰

Bu'r adolygiad hwn yn archwilio'r broses gyfan yn dilyn marwolaeth annisgwyl claf, gan gynnwys: ymchwiliadau lleol, ymchwiliadau gan grwner, procuradur ffisgal neu siryf, unrhyw ymchwiliad troseddol a'n prosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.

Roedd yr adroddiad yn galw am fwy o gysondeb wrth ymateb i farwolaeth annisgwyl. Yn arbennig, roedd yn pwysleisio bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i roi cymorth i deuluoedd cleifion, a'u cynnwys, cyn, yn ystod ac yn dilyn ymchwiliad i farwolaeth annisgwyl.

Nododd argymhellion hefyd i ni ac i amrediad o sefydliadau er mwyn creu diwylliant cyfiawn ym maes gofal iechyd, lle y mae meddygon yn teimlo fel pe baent yn cael eu galluogi a'u cynorthwyo i weithredu ar sail eu pryderon. Ac roedd yn cydnabod bod ein prosesau yn cael eu cyfyngu gan ddeddfwriaeth anhyblyg ac sydd wedi dyddio, gan alw ar lywodraeth y DU i ddiwygio'r Ddeddf Feddygol er mwyn rhoi mwy o ddisgresiwn i ni ynghylch pa achosion y mae gofyn ymchwilio iddynt. Rydym yn parhau i amlygu pwysigrwydd newidiadau deddfwriaethol i ASau, gan geisio eu cefnogaeth.

Law yn llaw â'r adolygiadau hyn, gwnaethom y canlynol hefyd:

- comisiynu Dr Suzanne Shale, meddyg ymgynghorol ac ymchwilydd moeseg meddygol, i archwilio profiadau ymarferol meddygon sy'n cyflawni rolau arwain uwch. Roedd *Sut y mae meddygon sy'n cyflawni rolau arwain uwch yn sefydlu ac yn cynnal diwylliant cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y claf* wedi helpu i wella ein dealltwriaeth o brofiadau a sialensiau dydd i ddydd arweinwyr uwch, fel y gallwn gynorthwyo meddygon yn well i lwyddo yn y rolau hyn. Mae arweinyddiaeth dda a diwylliannau cadarnhaol yn hanfodol i ofal iechyd a diogelwch cleifion.
- lansio arolwg newydd [meddygon arbenigol ac arbenigol cyswllt \(SAS\) a meddygon a gyflogir yn lleol \(LE\)](#)¹¹, gan ein helpu i ddeall mwy am brofiadau'r meddygon hyn, fel y gallwn eu cynorthwyo yn y rolau hyn
- comisiynu gwaith ymchwil annibynnol pellach er mwyn deall sut y gellir cynorthwyo meddygon mewn ffordd fwy effeithiol yn ystod y cyfnod ymsefydlu neu pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod estynedig.

¹⁰ Mae Leslie Hamilton yn llawfeddyg cardiaidd sydd â diddordeb mewn agweddau meddygol-gyfreithiol ar waith meddygol.

¹¹Gweler tudalennau 36 a 37 am ragor ynghylch canfyddiadau'r arolwg hwn.

Gwella'r cymorth i feddygon fynegi pryderon a gweithredu yn eu cylch

Yn ein cynhadledd ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Bonesig Clare Marx ein rhaglen hyfforddiant beilot newydd, Ymddygiad proffesiynol a diogelwch cleifion (PBPS).

Mae'r rhaglen yn cynnwys dwy ran. Yn gyntaf, cydweithio gyda sefydliadau i rannu arfer da wrth greu amgylchedd gwaith lle y gall ymddygiad proffesiynol cadarnhaol, moesgarwch a pharch ffynnu. Yn ail, cyflwyno gweithdy sy'n cynorthwyo meddygon i nodi ymddygiad amhroffesiynol, myfyrio am gyfrifoldebau personol a meithrin sgiliau er mwyn helpu i roi sylw i ymddygiad y mae ganddo y potensial i achosi niwed. Yn ystod y cyfnod peilot, mae'n tîm Allgymorth wedi ymgysylltu â 39 o sefydliadau am eu rhaglen newid diwylliant ac mae wedi cyflwyno 19 o weithdai PBPS hanner diwrnod.

Caiff y gwerthusiad ei gwblhau yn 2020 ond mae'r ymatebion cychwynnol wedi dangos bod y meddygon sy'n mynychu'r cwrs o'r farn ei fod yn werthfawr a'u bod yn fwy hyderus yn eu gallu i herio ymddygiad amhroffesiynol.

'Rydw i'n teimlo fy mod wedi cael fy ngrymuso yn fwy i ddelio mewn ffordd effeithiol ag ymddygiad amhroffesiynol. Rydw i wedi dod yn fwy ymwybodol o'm hymddygiad i, o ymddygiad cydweithwyr ac o ddisgwyliadau sefydliadol.'

Meddyg ymgynghorol

'Teimlaf yn fwy hyderus i herio/uwchgyfeirio ymddygiad amhriodol gan gydweithwyr, ac i fyfyrion yn well am fy ymddygiad fy hun.'

Meddyg dan hyfforddiant

Byddwn yn parhau i weithio gyda meddygon a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y rhaglen hon yn ysgogi gwelliannau go iawn mewn gofal ar gyfer cleifion.

Yn ogystal â hyn, ym mis Hydref 2019, rhyddhaom adnodd newydd yn ein canolfan foesegol, er mwyn helpu meddygon i godi eu llais. Mae'r adnoddau'n cynnwys cyngor ymarferol, ffynonellau cymorth a phecynnau cymorth er mwyn helpu meddygon i godi eu llais mewn ffordd effeithiol, gan fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu pan fyddant yn mynegi pryderon.

Er mwyn creu cyngor perthnasol ac addas, aethom ati i gynnwys meddygon o bob cwr o'r DU, ein cymrodyr ymchwil, Gwarcheidwad Rhyddid i Godi Llais cenedlaethol Lloegr (Henrietta Hughes), yn ogystal â chyflogwyr.

Rhwng mis Hydref a mis Tachwedd, roedd dros 4,500 o bobl wedi defnyddio'r adnoddau hyn.


Fel rhan o'n hymrwymiad i annog diwylliant o godi llais yn y sector gofal iechyd, yng Ngogledd Iwerddon, rydym yn cynorthwyo'r Sefydliad Datblygu Adnoddau Dynol fel rhan o is-grŵp Bod yn Agored ffrwd waith Dyletswydd Gonestrwydd. Ac yn yr Alban, mae'n tîm Safonau yn parhau i weithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban a bydd

yn sicrhau bod ein canolfan foesegol yn cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r cam o greu swydd Swyddog Cenedlaethol Chwythu'r Chwiban ar ôl iddi gael ei sefydlu.

Cynyddu cyfranogiad yn ein gweithdai Croeso i arfer yn y DU

Yn 2019, mynychodd 3,695 o feddygon a oedd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol ein gweithdai ymsefydlu am ddim, *Croeso i arfer yn y DU* (WtUKP) – cynnydd o 37% o'i gymharu â'r niferoedd a fynychodd yn 2018.

Presenoldeb mewn Gweithdai Croeso i Arfer yn y DU (2013–2019)



Amlygir yr effaith y mae'r gweithdai hyn yn ei chael ar arfer meddygon yng ngwerthusiad annibynnol WtUKP¹² Prifysgol Newcastle. Yn syth ar ôl mynychu'r gweithdai, adroddodd meddygon am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth lawer gwell o faterion moesegol allweddol a sut i ddefnyddio ein harweiniad er mwyn darparu gofal diogel. A llwyddwyd i gynnal nifer o'r gwelliannau tymor byr hyn ar ôl tri mis. Adroddodd bron i ddau o bob tri meddyg (62%) eu bod wedi gwneud newidiadau i'w harfer o ganlyniad i'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn WtUKP.

Mae meddygon sy'n mynychu'r gweithdai yn dweud wrthym yn gyson eu bod o'r farn eu bod yn ddefnyddiol iawn ac y byddai eu harfer yn newid o ganlyniad. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i gysylltu gydag eraill hefyd sydd yn yr un sefyllfa, ac i drafod sialensiau cyffredin, ar y diwrnod neu ar ôl y gweithdai.

¹² Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019



93% y byddai eu harfer yn newid o ganlyniad i'r wybodaeth a gawsant yn ystod y sesiwn.

95% bod y sesiwn hon wedi helpu i wella eu hargraff o CMC.

98% bod y sesiwn wedi gwella eu gwybodaeth am CMC a'i rôl a'i safonau.

97% yn argymhell y sesiwn i gydweithiwr.

Yn ystod 2019, llwyddom i sicrhau cymorth gan sefydliadau ar draws y DU hefyd, er mwyn sicrhau bod y gweithdai yn rhan annatod o'u prosesau ymsefydlu. Bydd hyn yn helpu i ehangu'r rhaglen ymhellach. A bydd yn cynyddu'r siawns y bydd y meddygon hyn yn cael gyrfa lwyddiannus yn y DU o'r cychwyn cyntaf, gan wneud gwaith meddygol da ar gyfer cleifion a'r cyhoedd.

Darparu hyfforddiant am ffactorau dynol i staff addasrwydd i wneud gwaith meddygol

Rydym yn ymwybodol o'r ffaith y gall ffactorau systemig a nodweddion penodol arferion ac amgylcheddau gwaith gyflawni rôl wrth arwain at fethiannau yn y gofal ar gyfer cleifion.

Am y rheswm hwn, buddsoddom mewn darparu hyfforddiant Ffactorau Dynol i benderfynwyr, archwilwyr achos ac arbenigwyr clinigol sy'n ymwneud â'r prosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.

Mae Ffactorau Dynol yn wyddor cymdeithasol sy'n astudio ac sy'n ceisio optimeiddio'r rhyngweithio rhwng pobl, technoleg a'r amgylchedd yn y gwaith. Mae'n offeryn safonol ar gyfer ymchwilio i ddiogelwch a sicrhau gwelliant mewn sawl diwydiant megis hedfan sifil, pŵer niwclear a chynllunio milwrol, sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng risg uchel a dibynadwyedd uchel.

Yn 2019, buom yn gweithio mewn partneriaeth gydag Academi Diogelwch Cleifion Prifysgol Rhydychen er mwyn darparu hyfforddiant penodol am y mater hwn i staff yn ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol, gan geisio sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chyd-destun a systemau wastad yn cael eu hystyried yn llawn wrth werthuso perfformiad meddyg. Mynychodd 129 o staff yr hyfforddiant rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019.

Mae'r fenter hyfforddiant yn helpu i sicrhau cysondeb o ran y ffordd y byddwn yn ymchwilio ar ôl i bethau fynd o le, gan gynnig y sicrwydd i feddygon yr ystyrir eu gweithredoedd yn erbyn cefndir unrhyw fethiannau yn y system mewn ffordd glir. Ynghyd â'r cyfrifoldeb, rhaid i gyfadrannau a cholegau brenhinol roi hyfforddiant Ffactorau Dynol sylfaenol i feddygon dan

hyfforddiant, a bydd hyn yn helpu i ymwreiddio dealltwriaeth well ar draws y system iechyd o sut y mae amgylcheddau yn cyfrannu at ddigwyddiadau diogelwch cleifion.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda swyddogion cyfrifol hefyd, er mwyn sicrhau y caiff dull tebyg ei weithredu'n gyson yn lleol hefyd, pan fyddant yn delio gyda phryderon ynghylch ymddygiad a pherfformiad meddygon, cyn y caiff y materion hynny eu cyfeirio atom ni.

Gweithio gyda phartneriaid cyflawni i ddatblygu'r Asesiad Trwyddedu Meddygol

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA).

Mae asesu mewn ysgolion meddygol yn y DU yn amrywio o ysgol i ysgol ar hyn o bryd, ac yn ei dro, mae'n wahanol i arholiad PLAB (Bwrdd Asesu Ieithyddol Proffesiynol) yr ydym yn ei osod ar gyfer meddygon nad ydynt yn ddinasyddion o'r DU, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir ac y maent wedi sicrhau eu prif gymhwyster y tu allan i'r DU.

Nod MLA yw datblygu arfer effeithiol cydnabyddedig ym maes asesu, er mwyn cynnig sicrwydd ychwanegol bod pob meddyg sydd newydd sicrhau eu trwydded yn bodloni'r safonau arfer yn y DU. Mae'r asesiad newydd yn cynnwys dwy ran: prawf gwybodaeth gymhwysol (AKT) ac asesiad sgiliau proffesiynol clinigol (CPSA).

Ym mis Mehefin 2019, cytunodd ein Cyngor ar set o egwyddorion ar gyfer cynllunio a chyflwyno AKT. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau i ganiatáu i ysgolion meddygol ddewis pryd y byddant yn cyflwyno'r AKT, mewn ffordd a fydd yn addas i'w cylch asesu a'u cwricwla.

Yn dilyn hyn, parhaom i gydweithio'n agos gyda chydweithwyr o ysgolion meddygol y DU a gyda'u cynrychiolwyr yn y Cyngor Ysgolion Meddygol i ddatblygu'r asesiad ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys sgysiau manwl gyda staff ysgolion meddygol ynghylch y goblygiadau ymarferol ac o ran logisteg i ysgolion wrth iddynt ddarparu AKT a CPSA. Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed am gynlluniau ysgolion mewn perthynas ag AKT, gan mai asesiad ar sgrin fydd hwn a ddarparir i ysgolion meddygol, y byddant yn ei ddarparu i'w myfyrwyr wedyn.

Ym mis Medi 2019, cyhoeddom y map cynnwys ar gyfer MLA, sy'n nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad y bydd MLA yn ei brofi ar draws ei holl elfennau. Datblygwyd hwn gyda mewnbwn gan gynrychiolwyr ysgolion meddygol, colegau brenhinol a'r Rhaglen Sylfaen ar draws y DU. Byddwn yn diweddarau'r map gydag amser er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn arfer meddygol, ac rydym wedi gofyn i ddefnyddwyr ddweud wrthym sut y gallwn ei ddatblygu yn y dyfodol. Bu cyhoeddi'r map cynnwys yn gam allweddol wrth ein helpu ni a'n partneriaid i ddechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno MLA.

Cytunodd ein Cyngor gyflwyno MLA fesul cam hefyd, trwy gael blwyddyn beilot a ddilynir gan ei weithredu'n llawn. Meddygon sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU ac nad ydynt yn ddinasyddion AEE neu y Swistir¹³, sy'n sefyll ein harholiadau PLAB ar hyn o bryd, fydd y rhai

¹³ Yn unol â thrafodaethau ynghylch ymadawiad y DU o UE.

cyntaf y bydd angen iddynt basio'r MLA. Bydd y gofyniad yn berthnasol i fyfyrwyr o'r DU wedi hyn hefyd. Gan ddibynnu ar drafodaethau rhwng llywodraeth y DU ac UE yng ngoleuni Brexit, efallai y gofynnir i feddygon y maent yn ddinasyddion AEE neu'r Swistir i basio MLA hefyd yn y pen draw.

Cynorthwyo myfyrwyr meddygol i ddod yn ymarferwyr myfyriol

Yn 2019, gweithiom gyda'r Cyngor Ysgolion Meddygol i baratoi *Yr ymarferwr myfyriol – canllaw i fyfyrwyr meddygol* ar y cyd.

Defnyddiom safbwyntiau myfyrwyr meddygol, meddygon ac addysgwyr meddygol i esbonio pam bod cyflawni rôl ymarferwr myfyriol yn bwysig. Ar ôl datblygu arweiniad ehangach yn flaenorol ynghylch myfyrio, roedd hi'n amlwg y byddai darparu offerynnau ymarferol yn gynnwys yn ystod gyrfa meddygon yn eu helpu i feithrin y sgiliau i fyfyrio mewn ffordd effeithiol, gyda'r holl fanteision a fydd yn deillio o hynny yn ystod pob cam o'u gwaith meddygol.

A lansiom ddeunyddiau dysgu er mwyn dangos i fyfyrwyr sut y gallant ddod yn ymarferwr myfyriol yn eu bywyd dyddiol fel myfyriwr a thu hwnt. Seiliom yr adnoddau defnyddiol hyn ar themâu a nodwyd gennym wrth ymgysylltu gyda myfyrwyr, gan gynnwys:

- sut i gael trafodaeth fyfyriol effeithiol
- sut i'w chofnodi mewn portffolio arfarnu/dysgu
- sut y gall myfyrio helpu lles
- sut y gall myfyrio fel tîm wella gofal ar draws sefydliadau.

Roedd y deunyddiau dysgu yn cynnwys fideo o achos clinigol a dwy enghraifft wahanol o ryngweithio, a oedd yn dangos sut i gael trafodaeth fyfyriol effeithiol. Mae'r adborth gan fyfyrwyr meddygol a meddygon wedi bod yn gadarnhaol.

'Roeddwn yn hoff o'r sefyllfaoedd cyferbyniol yn arbennig, ac roeddwn yn teimlo eu bod yn dangos mewn ffordd dda sut i gael y meddyg i fyfyrio mewn ffordd effeithiol.'

Mae'n harweiniad i feddygon a myfyrwyr meddygol yn nodi'r gwerthoedd proffesiynol, y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt yn y DU. Rydym yn gwrandao ar safbwyntiau meddygon, myfyrwyr a'r cyhoedd wrth ddatblygu ein harweiniad, er mwyn sicrhau ei fod yn llawn gwybodaeth ac yn bodloni anghenion cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gallwch ddarllen mwy am ymgynghoriadau sy'n ymwneud â'n harweiniad o dudalen 33.

Cynorthwyo dysgwyr anabl mewn addysg a hyfforddiant meddygol

Ym mis Mai 2019, cyhoeddom *Croesawu a gwerthfawrogi* – cyngor newydd i addysgwyr ynghylch sut i gynorthwyo dysgwyr anabl a'r rhai y mae ganddynt gyflyrau iechyd hirdymor. Mae sicrhau bod y proffesiwn meddygol yn gynhwysol yn hanfodol, ac yn aml, gall

meddygon sydd â phroblemau iechyd neu anabledd gynnig dirnadaeth o'u profiadau nhw, sy'n gallu gwella gwasanaethau i gleifion.

Mae'r arweiniad hwn i ysgolion meddygol ac addysgwyr ôl-raddedig yn datblygu ein harweiniad blaenorol, *Pyrth i'r proffesiynau*.

Mae *Croesawu a gwerthfawrogi* yn cynnwys camau ymarferol i addysgwyr er mwyn helpu dysgwyr anabl i wireddu eu potensial llawn, megis:

- neilltuo cysylltiadau penodol i ddysgwyr
- cytuno ar drefniadau cyfrinachedd
- creu cynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau y gall dysgwyr fodloni galwadau eu cyrsiau neu eu hyfforddiant.

Mae'n cynnwys crynodeb o ddeddfwriaeth berthnasol hefyd, ynghyd â chynghor ynghylch sut y gall addysgwyr wneud addasiadau rhesymol er mwyn cynorthwyo myfyrwyr a hyfforddeion yn ystod eu cyfnod mewn ysgol feddygol, ar leoliadau clinigol ac mewn lleoliadau gwaith.

Er mwyn datblygu'r arweiniad, gweithiom gyda grŵp llywio a oedd yn cynnwys addysgwyr meddygol, hyfforddwyr a dysgwyr anabl, a chynhaliom nifer o gyfarfodydd bord gron er mwyn datblygu arweiniad ymarferol a pherthnasol.

Myfyrwyr BMA, 'Rydym yn falch ein bod wedi cynorthwyo datblygiad arweiniad #ablemedics newydd CMC. Byddwn yn cynorthwyo aelodau sy'n astudio dan yr arweiniad hwn, gan barhau i geisio sicrhau hyfforddiant mwy hygyrch i bawb.'

Ym mis Gorffennaf, rhyddhaom ein cyfres gyntaf o bodlediadau am y mater hwn, *Able medics*. Mae'n cynnwys meddygon anabl sy'n sôn am eu profiadau o addysg ac arfer meddygol, yn ogystal â'r addysgwyr sy'n eu cynorthwyo. Mawr obeithiwn y bydd hwn, ynghyd â'n harweiniad diwygiedig, yn arwain at hyfforddeion a myfyrwyr anabl yn cael profiad mwy hygyrch a chefnogol o addysg a hyfforddiant meddygol, fel y gallant gael gyrfaedd boddhaus a pharhaol.

Mae Croesawu a gwerthfawrogi yn un o nifer o'r ymrwymïadau a wnaethom yn ein hadroddiad i lywodraethau y DU ym mis Mawrth 2017, *Addasu ar gyfer y Dyfodol: cynllun er mwyn gwella hyblygrwydd hyfforddiant meddygol ôl-raddedig yn y DU*.

Cryfhau cydweithio gyda'n partneriaid rheoliadol ar draws y gwasanaethau iechyd

Cynorthwyo meddygon gyda chynghor ychwanegol ynghylch ymgynghoriadau a phresgripsiynu o bell

Mae ymgynghoriadau a phresgripsiynu o bell – boed hynny dros y ffôn, trwy gyswllt fideo neu ar-lein – wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae'n cynnig nifer o fanteision.

Yn ddiweddar, mae pandemig COVID-19 wedi trawsnewid y ffordd yr ydym oll yn gweithio, wrth i nifer o feddygon ddarparu gofal trwy gyfrwng ymgynghoriadau o bell am y tro cyntaf. Er y bu hyn yn angenrheidiol ac yn fuddiol, efallai nad yw'r ffordd hon o ddarparu gofal wastad yn briodol neu'n ddiogel mewn rhai amgylchiadau. Yn flaenorol, rydym wedi dod ar draws enghreifftiau o arfer gwael lle y caiff diogelwch cleifion ei beryglu. Felly, rydym wedi gweithio gyda sefydliadau iechyd eraill, meddygon a chleifion i amlygu'r risgiau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig gyda'r gwasanaethau hyn.

Yn ystod y pandemig, rydym wedi darparu gwybodaeth wedi'i theilwra hefyd i feddygon sy'n newid i gynnig ymgynghoriadau o bell yn ein canolfan foesegol.

Ym mis Tachwedd 2019, gyda 12 o reolyddion a sefydliadau iechyd eraill, cydgynhyrchom set o egwyddorion ar lefel uchel. Mae'r deg egwyddor yn amlinellu arfer da i'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriadau o bell ac sy'n presgripsiynu meddyginiaeth ar-lein. Fe'u cynlluniwyd i helpu i ddiogelu diogelwch a lles cleifion, yn ogystal ag alinio arweiniad ar draws gwahanol broffesiynau.

Ers i ni gyhoeddi'r egwyddorion, fe'u croesawyd – pan ofynnwyd am adborth, canfu 74% bod y wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol a byddai 48% yn newid eu harfer o ganlyniad.

Mae'r tirlun gofal iechyd yn esblygu'n gyflym. Ers i ni ddiweddarau ein cynghor i feddygon am y mater hwn y tro diwethaf, mae darpariaeth ymgynghoriadau a phresgripsiynu o bell ar draws GIG a'r sector annibynnol wedi ehangu'n sylweddol. Mae'r pandemig wedi galfaneiddio momentwm ar gyfer diwygio modelau darparu gwasanaethau er mwyn coleddu technoleg newydd. Rydym yn dymuno sicrhau bod ein harweiniad yn dal i fyny gyda chyflymder y newidiadau. Yn 2019, lansiom alwad am dystiolaeth am ein harweiniad ynghylch ymgynghoriadau a phresgripsiynu o bell, *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau*.

Gofynnwm i sefydliadau ac unigolion gydag arbenigedd perthnasol i rannu eu profiadau, eu safbwyntiau, eu data a'u dirnadaeth o ymgynghoriadau a phresgripsiynu o bell dros y ffôn, trwy gyswllt fideo neu ar-lein.

Mae ymatebion o'r alwad am dystiolaeth, ynghyd â gwybodaeth arall yr ydym yn ei dal, gan gynnwys effaith y pandemig, yn cael eu dadansoddi. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu a ddylem wneud newidiadau i'n harweiniad, ac os felly, a oes angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Law yn llaw â'r gwaith hwn, defnyddiom adborth o sesiwn bord gron gyda chleifion hefyd, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2019, er mwyn siapio a chyfrannu at gyngor ynghylch diogelwch ar gyfer cleifion sy'n manteisio ar ofal iechyd ar-lein. Cydgynhyrchwyd y cyngor gyda rheolyddion eraill ac fe'i lansiwyd ym mis Mawrth 2020.

Rydym wedi parhau i fynychu fforymau traws-reoliadol er mwyn gwella diogelwch ym maes presgripsiynu ar-lein ac ystyried sut i roi sylw i fylchau mewn trosolwg rheoliadol. Yn ogystal, rydym yn rhannu gwybodaeth gyda rheolyddion eraill er mwyn rhoi sylw i bryderon penodol ynghylch addasrwydd gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n presgripsiynu ar-lein, i wneud gwaith meddygol.

Gweithio gyda rheolyddion eraill er mwyn rhoi sylw i risgiau i ddiogelwch cleifion yn gynharach

Mae gennym gyfrifoldeb hanfodol, gyda phartneriaid cenedlaethol, i rannu ein dirnadaeth a'n gwybodaeth a'n gwaith unigryw gyda rheolyddion proffesiynol eraill er mwyn helpu i atal problemau gyda diogelwch y cyhoedd.

Y ffordd fwyaf effeithiol i nodi risgiau a mynd i'r afael â nhw yn gynnar yw trwy gyfathrebu, cydweithio a chydlynu – ar draws y system ac ar draws CMC.

Defnyddio gwybodaeth ar gyfer ymyrraeth traws-system ar y cyd gyda phartneriaid rheoliadol

Yn 2019, ysgogwyd y Protocol Pryderon sy'n dod i'r Amlwg a ddatblygom gyda phartneriaid rheoliadol yn Lloegr bum gwaith er mwyn atal problemau difrifol rhag codi. Gydag wyth rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol arall, rhoddod sylw i bryderon ynghylch:

- offer llawfeddygol diffygiol
- cynllun gwael rotâu
- presgripsiynu trwy fferyllfa ar-lein
- prosesau rheoli meddyginiaeth.

Mae'r protocol yn cryfhau ein trefniadau presennol ac yn annog diwylliant agored, lle y gellir rhannu pryderon ynghylch risgiau i gleifion yn gynnar, a lle y gellir cydlynu unrhyw gamau angenrheidiol ymhlith sefydliadau perthnasol.

Er bod y protocol yn berthnasol yn Lloegr yn unig ar hyn o bryd, fel rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu rheolaidd gyda rheolyddion proffesiynol, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a'r Alban i weld sut y gallai fod yn berthnasol yno:

- Yn yr Alban, gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, cychwynnom drafodaeth gyda rheolyddion system am y ffordd y gallai'r protocol weithio yng nghyd-destun yr Alban trwy gyfrwng y Grŵp Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Iechyd a Gofal. Yn dilyn hyn, mae Healthcare Improvement Scotland wedi sefydlu gweithgor, yr ydym yn rhan ohono, i symud y mater yn ei flaen.

- Yng Nghymru, rydym yn cael dau gyfarfod rheolaidd gyda chyrrff gofal iechyd amrywiol i rannu gwybodaeth am risgiau i ddiogelwch a gofal cleifion. Mae Concordat Cymru yn cynnwys rheolyddion ac arolygiaethau, sy'n rhannu gwybodaeth ar lefel uchel. Ac mae uwchgynhadledd chwemisol HIW – a gaiff ei chynnull gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – yn dwyn ynghyd arolygiaethau a sefydliadau diogelwch cleifion yn benodol i rannu gwybodaeth am ddarparwyr.

Gweithio gyda'r sector annibynnol i wella diogelwch cleifion

Mae gan bob claf yr hawl i ddisgwyl cael gofal diogel ac o ansawdd uchel o fewn GIG a'r sector annibynnol. Yn 2019, buom yn ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol gyda'r Rhwydwaith Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol er mwyn rhannu gwybodaeth, fel y gallwn sicrhau bod safonau uchel o ran gofal yn cael eu cynnal yn y sector¹⁴. Fel rhan o'r cydweithio hwn, ym mis Hydref, cefnogom y rhwydwaith trwy helpu i hyrwyddo ei fframwaith llywodraethu newydd, dan arweiniad Syr Bruce Keogh. Bydd y fframwaith yn cyflawni rôl hollbwysig wrth warantu cysondeb a gofal diogel i gleifion ar draws y sector annibynnol.

Law yn llaw â hyn, mae'n cynghorwyr allgymorth yn parhau i ymgysylltu gyda swyddogion cyfrifol ar draws y sector annibynnol yn fwy cyffredinol yn rheolaidd. Mae'r linell gyfathrebu uniongyrchol hon yn caniatáu i ni rannu dirnadaeth ar draws ehangder systemau gofal iechyd y DU, gan gynorthwyo swyddogion cyfrifol i roi sylw i bryderon wrth iddynt godi.

Defnyddio dirnadaeth er mwyn dwyn ffocws i'n gwaith

Yn fewnol, cyfarfu ein Fforwm Gwybodaeth am Ddiogelwch Cleifion chwe gwaith yn 2019 i drafod risgiau sy'n dod i'r amlwg a risgiau parhaus i ddiogelwch cleifion, arfer meddygol ac addysg.

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, bydd aelodau'r fforwm yn ystyried risgiau, pa gamau yr ydym wedi'u cymryd eisoes ac a oes unrhyw beth pellach y gallem ei wneud i ddiogelu cleifion. Yn ogystal, maent yn adolygu'r ddirnadaeth yr ydym yn ei chael o'n gwaith i nodi tueddiadau, materion a meysydd sy'n berthnasol i ddiogelwch cleifion ac arfer meddygol, y bydd gofyn cynnal camau pellach yn eu cylch efallai. Gallai hyn arwain atom yn cyfeirio'r wybodaeth at reolydd arall, neu fe allai arwain atom yn gweithredu trwy gyfrwng ymyrraeth weithredol, rheoliadol neu bolisi.

Gweithio gyda rheolyddion yn y DU a rheolyddion Ewropeaidd

Yn 2019, cynhaliom a chadeiriom gyfarfodydd chwarterol Cynghrair Rheolyddion Iechyd y DU ar Ewrop (AURE), sy'n dwyn ynghyd y naw rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Mae cydweithio ar draws rheolyddion yn hanfodol er mwyn ymateb i ddatblygiadau Ewropeaidd, datblygu safbwyntiau cyffredin ac ymateb ar y cyd i gynigion ac ymgynghoriadau UE. Roedd ein gwaith yn 2019 yn canolbwyntio ar gysoni ein cynllunio ar gyfer gadael UE, ac ar ddylanwadau ar ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU y bwriedir iddi

¹⁴ Mae'r sector annibynnol yn darparu gofal i gleifion GIG a chleifion a ariannir yn breifat yn y DU.

leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda gadael UE gymaint ag y bo modd, ar y cyd¹⁵.

Law yn llaw â hyn, parhaom i arwain ein dau rwydwaith Ewropeaidd o reolyddion er mwyn hyrwyddo a diogelu diogelwch cleifion ar draws Ewrop. Cadeiriom dau o gyfarfodydd y Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Awdurdodau Cymwys (ENMCA), a fynychwyd gan reolyddion meddygol ar draws Ewrop a hefyd, gan y Comisiwn Ewropeaidd. Cynhyrchom dri rhifyn o gylchlythyr Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn Croesi Ffiniau (HPCB) a chynhaliom gynhadledd a fynychwyd gan dros 120 o gynrychiolwyr rheolyddion proffesiynol gofal iechyd, cyrff proffesiynol, a llywodraethau cenedlaethol Ewropeaidd.

Rhannu dirnadaeth ynghylch profiadau meddygon a'r sialensiau y maent yn eu hwynebu

Yn 2019, cynhyrchom ein hadroddiad Gweithlu cyntaf er mwyn helpu ein partneriaid i roi sylw i'r bylchau yn y gweithlu ar draws y DU.

Roedd yr adroddiad yn dangos bod cofrestr feddygol y DU yn parhau i dyfu, wrth i nifer o feddygon rhyngwladol ymuno â'n gweithlu. Nododd hefyd bod rhai arwyddion o systemau gofal iechyd yn ymateb i anghenion y gweithlu, gan gynnwys mwy o feddygon yn hyfforddi ym maes gwaith meddygon teulu a meysydd arbenigol eraill lle y gwelir bylchau.

Fodd bynnag, amlygodd ein data bod yn rhaid i wasanaethau iechyd flaenoriaethu strategaethau er mwyn cadw meddygon sydd wedi hyfforddi yn y DU a'r rhai nad ydynt wedi hyfforddi yn y DU, yn wyneb y pwysau ar y system.

Rydym yn gweithio gyda GIG, rheolyddion system a llywodraethau i sicrhau bod gennym y gweithlu cywir yn y lle iawn, sy'n meddu ar y sgiliau iawn a'r cymorth iawn. Ers y cyhoeddwyd *Cynllun Hirdymor GIG* ar gyfer Lloegr ym mis Ionawr 2019, buom yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu *Cynllun Pobl interim GIG*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin.

Oherwydd y gwelir pwysau ar y gweithlu ar draws y proffesiwn meddygol, rydym wedi ymgymryd â'r rôl o arwain y gweithgor rheoliadol ar y cyd ar gyfer rheolyddion proffesiynol ynghylch polisi gweithlu er mwyn darganfod cyfleoedd i gydweithio ac alinio pan fo modd.

Yn ystod yr Haf 2019, diweddarom ein maniffesto ar gyfer y gweithlu, sef dogfen sy'n nodi'r hyn y gallwn ni ac eraill ei wneud i gynorthwyo'r gweithlu yn y bedair gwlad. Yn ogystal, rydym wedi bod yn cefnogi'r mentrau canlynol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon:

- datblygu camau i gyflawni Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2026 yng Ngogledd Iwerddon
- gweithio gyda'r Llywodraeth yn yr Alban i gwblhau cynllun gweithlu integredig.
- cynorthwyo datblygiad strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn, rydym yn gwneud popeth y gallwn fel rheolydd i sicrhau bod llwybrau

¹⁵ Gweler tudalen 41 hefyd am ragor o wybodaeth am ein gwaith er mwyn paratoi ar gyfer Brexit.

cofrestru mor hygyrch ag y bo modd, a chynyddu'r capasiti ar gyfer arholiadau PLAB a gweithdai Croeso i arfer yn y DU.

Ond mae angen i bawb sy'n ymwneud â gofal iechyd yn y DU gymryd camau pellach. Mae cyhoeddi data fel hwn a'r data a welir yn *Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU* yn un ffordd y gallwn roi sylw amlwg i'r materion hyn.

Yn ein nawfed rhifyn o'r olaf, cynhwysom ddata newydd a dirnadaeth ynghylch tueddiadau mewn addysg feddygol, lles meddygon a rôl arweinyddiaeth gadarn a chefnogol ar ddiwylliannau yn y gweithle. Am y tro cyntaf, cynhwysom benodau penodedig am y materion penodol y mae Meddygon Teulu yn eu hwynebu, yn ogystal ag effaith pwysau ar y system ar ofal cleifion.

Roedd yr adroddiad yn manteisio ar ganfyddiadau arolygon a gynhaliwyd ymhlith meddygon sy'n gweithio yn y DU ar draws meysydd arbenigol amrywiol, gan gynnwys data o'n harolygon hyfforddiant cenedlaethol.

Roedd ein canfyddiadau'n cyfeirio at newidiadau yn y ffordd y mae meddygon yn ystyried eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a datblygiad eu gyrfa. Roeddent yn dangos bod meddygon yn gwneud dewisiadau bwriadol i reoli eu gyrfaedd a'u lles yn wyneb pwysau cynyddol yn y gweithle.

Yn yr adroddiad, amlygom amrediad o ddatrysiadau er mwyn helpu i roi sylw i'n canfyddiadau, gan gynnwys dewisiadau gyrfa a hyfforddiant mwy hyblyg, dull gweithredu cydgysylltiedig tuag at reoleiddio, a gwella lles a diwylliannau yn y gweithle. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd y DU yn cydweithio er mwyn symud y rhain yn eu blaen.

Mae nifer o'n canfyddiadau yn cyd-fynd â'r themâu a'r argymhellion yn y tri adroddiad annibynnol arall a gyhoeddodd yn 2019 hefyd, fel rhan o'n rhaglen waith *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau*¹⁶. Dechreuom weithio i gyflawni'r argymhellion hyn gyda phartneriaid allweddol ar draws pedair gwlad y DU yn 2020.

Law yn llaw â hyn, mae'n harolygon hyfforddiant cenedlaethol, a gynhelir ar draws y DU bob blwyddyn, yn caniatáu i ni glywed yn uniongyrchol gan dros 75,000 o hyfforddeion a hyfforddwyr ynghylch ansawdd hyfforddiant yn y DU. Yn 2019, gwelsom rai arwyddion cadarnhaol, gan gynnwys y ffaith bod tri chwarter o hyfforddeion yn barnu bod ansawdd eu hyfforddiant yn dda iawn neu'n dda. Fodd bynnag, amlygodd y canfyddiadau amrediad o faterion sy'n effeithio ar les meddygon hefyd, y gallent effeithio ar ofal cleifion yn y pen draw. Mae'r canlyniadau hyn o'r arolygon yn werthfawr iawn wrth roi gwybodaeth a thystiolaeth i ni ynghylch ble y gwelir ein meysydd arfer gorau, yn ogystal â meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau. Rydym yn parhau i weithio gyda deoniaid ôl-raddedig a chyflogwyr er mwyn rhoi sylw i unrhyw bryderon neu faterion lleol a godir yn yr arolygon hyn.

Croesawyd yr adroddiadau hyn gan ein partneriaid rheoliadol a'n rhanddeiliaid strategol.

¹⁶<link to SAPUP piece>

Mae ein gwaith ymchwil, ynghyd â'r adolygiadau annibynnol yr ydym yn eu comisiynu, yn ein helpu ni ac eraill i sicrhau bod ein polisiau a'n penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf. Gallwch weld yr holl adroddiadau ymchwil a'r papurau dirnadaeth a gyhoeddwyd ar ein gwefan.

Cryfhau ein cysylltiadau lleol trwy ein timau Allgymorth

Yn 2019, ailstrwythurom ein swyddogaeth Allgymorth, fel y gallem gydweithio'n agosach gyda meddygon, cleifion ac economïau gofal iechyd lleol, a'u cynorthwyo nhw yn y ffordd orau ag y bo modd.

Mae'n timau Allgymorth yn rhan annatod o'n sefydliad, ac maent yn cyflawni rôl gwerthfawr wrth gynorthwyo systemau gofal iechyd y DU. Pwynt hollbwysig yw y byddant yn ein helpu i ddatblygu'r argymhellion o raglen *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau*. Darllenwch fwy am y gwaith pwysig hwn o dudalen 15.

Mae cynghorwyr allgymorth yn gweithio gyda meddygon, darparwyr gofal iechyd, addysgwyr a rheolyddion eraill er mwyn:

- gwella dealltwriaeth o'n rôl
- hyrwyddo a chynorthwyo rhagoriaeth ym maes addysg, hyfforddiant ac arfer meddygol
- dysgu am yr amgylcheddau y mae meddygon yn gweithio ynddynt, gan helpu i nodi a rhoi sylw i'r risgiau i gleifion a meddygon cyn y bydd niwed yn digwydd
- gweithio gyda swyddogion cyfrifol i roi sylw i bryderon ynghylch meddygon a chynorthwyo rheolwyr gyda phryderon ar lefel leol
- cynorthwyo datblygiad parhaus systemau llywodraethu clinigol lleol, gan sicrhau bod ailddilysu yn parhau.

Dan y model newydd, trefnir ein gwaith allgymorth yn Lloegr mewn rhanbarthau, law yn llaw â swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn Lloegr, mae hyn yn golygu ein bod yn cyd-fynd gyda'r cyfeiriad y mae GIG yn ei ddilyn, wrth symud at systemau gofal mwy integredig a rhanbartholi GIG Lloegr ac NHS Improvement.

Yn ogystal, rydym wedi integreiddio ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwr yn ein swyddfeydd cenedlaethol yr oeddent eisoes yn sefydledig, gan geisio cryfhau'r perthnasoedd presennol gyda rhanddeiliaid trwy ddarparu profiad o un pen i'r llall yn y gwledydd datganoledig.

Bydd y strwythur newydd hwn yn ein helpu:

- i gael dealltwriaeth well o faterion a blaenoriaethau lleol
- i feithrin perthnasoedd mwy cadarn fyth gyda phartneriaid rheoliadol a rhanddeiliaid ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- i ddefnyddio ein sefyllfa unigryw, ein data a'n dirnadaeth yn gyflym ac mewn ffordd effeithiol er mwyn parhau i ddiogelu cleifion, gan leihau'r angen i ni ymyrryd ar ôl i

bethau fynd o le.

Cynnal dull rheoliadol cyfartal ac effeithiol ar draws y DU

Yn 2019, cynhaliom chwe chyfarfod o Fforwm Cynghori y DU yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan ymgysylltu gyda 44 o wahanol randdeiliaid.

Mae ein fforymau cynghori yn ein helpu i sicrhau bod ein dull rheoliadol yn ystyried anghenion a gwahaniaethau systemau gofal iechyd y gwledydd hyn. Mae'r fforymau yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau diddordeb allweddol a phartneriaid cyflawni. Maent yn cynnig plattform i ni rannu datblygiadau polisi, blaenoriaethau a sialensiau, ac maent yn gyfle i randdeiliaid gyfrannu at ein gwaith a dylanwadu arno.

Roedd y prif feysydd a drafodwyd yn 2019 fel a ganlyn:

- themâu allweddol o'n rhaglen Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau
- rheoleiddio sylfaenol: atal niwed a chynorthwyo proffesiynoldeb
- y gweithlu meddygol: ansawdd a diogelwch
- systemau a sicrwydd ar y cyd.

Rydym yn ystyried sut y gallwn weithredu'r un egwyddorion o weithio'n lleol yn rhanbarthau Lloegr.

Darllenwch fwy am y gwaith a wnawn trwy ein fforymau cynghori.

Sefydlu Uned Perthnasoedd Strategol newydd a chryfhau ein gwaith materion cyhoeddus

Er mwyn datblygu'r model yn ein swyddfeydd cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sefydlom Uned Perthnasoedd Strategol, sy'n gyfrifol am wella'r ffordd yr ydym yn gweithio gydag eraill yn yr amgylchedd gwleidyddol a gofal iechyd.

Mae'r uned yn gweithio gyda thimau ar draws CMC i gydlynw ein perthnasoedd gyda phartneriaid rheoliadol a rhanddeiliaid strategol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cydlynwddion, cyrff iechyd cenedlaethol, cyflogwyr, cyrff addysg a cholegau, sefydliadau amddiffyn meddygol a grwpiau cleifion cenedlaethol.

Mae cryfhau ein partneriaethau gyda rhanddeiliaid eraill yn systemau gofal iechyd y DU yn ein helpu i gyflawni'r amcanion a bennom yn ein strategaeth gorfforaethol. Ac yn y pen draw, bydd yn ein galluogi ni, ar y cyd, i greu a chynnal amgylcheddau lle y caiff meddygon eu cynorthwyo'n llawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Mae'r uned newydd yn cydweithio'n agos gyda'n tîm Materion Cyhoeddus, sy'n gyfrifol am gynnal a datblygu ein perthynas gyda Llywodraeth y DU. Diolch i waith y tîm hwn, yn ystod

Etholiad Cyffredinol 2019, gwnaethom ymdrech bendant i ddylanwadu ar fanifestos y bedair blaid fwyaf a gynrychiolir yn San Steffan. Gweithiom gydag ysgrifenyddwyr manifestos y pleidiau ar fentrau penodol yr ydym wedi siarad o'u plaid ers amser hir, er enghraifft diwygio CESR/CEGPR¹⁷.

Yn ogystal, cydlynom llythyr agored, a lofnodwyd gan Brif Weithredwyr yr wyth rheolydd meddygol proffesiynol ar draws y DU, a oedd wedi'i gyfeirio at arweinwyr y bedair prif blaid. Roedd y llythyr yn nodi, yn fras, yr achos dros ddiwygio rheoleiddio meddygol, ac roedd yn gofyn i'r lywodraeth nesaf ymrwymo i ddiwygio rheoleiddio meddygol proffesiynol mewn ffordd gynhwysfawr. Hon oedd y tro cyntaf yr oedd llythyr agored a oedd yn cynnwys ein holl gyd reolyddion wedi cael ei baratoi. O ganlyniad i'r ymdrech hon, llwyddom i sicrhau ymrwymadau i ddiwygio mewn dau o'r pedwar manifestos.

¹⁷ Gweler tudalen 42 am ragor o wybodaeth am y gwelliannau yr ydym wedi eu gwneud i broses CESR/CEGPR wrth i ni aros am newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

Cryfhau ein perthynas gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn Cynorthwyo cleifion sy'n mynegi pryder am feddyg

Gall mynegi pryderon am feddyg fod yn brofiad sy'n peri cryn straen. Rydym wastad yn ceisio nodi'n glir i gleifion yr hyn y gallant ei ddisgwyl yn ystod eu cyswllt gyda ni, gan gynnig rhywfaint o gysur yn ystod cyfnod sy'n gallu bod yn un anodd iawn.

Fel rhan o hyn, ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddom ein dogfen newydd, Siarter ar gyfer cleifion, perthnasau a gofawyr. Mae'n nodi chwech ymrwymiad y gall cleifion, eu perthnasau a'u gofawyr eu disgwyl pan fyddant yn mynegi pryder i ni. Defnyddiom adborth a gawsom gan gleifion fel sail y siarter ac yna, fe'i datblygom ymhellach, gan gynnwys adborth gan gleifion a'u cynrychiolwyr.

Mae un o'r ymrwymadau, 'cyfathrebu mewn ffordd sy'n gweithio i chi', yn cyfeirio at y gwaith hanfodol y mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cleifion (PLS) wedi bod yn ei wneud er 2015.

Yn 2019, cefnogodd tîm PLS 392 o gleifion, perthnasau neu aelodau'r cyhoedd yr oeddent wedi mynegi pryderon am feddyg. Roedd 96% o'r rhai a holwyd yn barnu y bu eu cyfarfod gyda'r gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

'Os mai hwn yw safon cyffredinol eich Gwasanaeth Cyswllt Cleifion, credaf y gall CMC deimlo'n falch iawn. Gweithiwr proffesiynol cyfeillgar, gwybodus a hawdd iawn troi atynt a oedd wedi sôn wrthym am broses gyfan CMC trwy dawelu ein meddyliau gan ei bod hi wedi gwrandao a rheoli ein disgwyliadau, gan sicrhau cydbwysedd gyda chanlyniadau posibl y gŵyn hon ar yr un pryd.'

Yn ogystal â dangos i gleifion yr hyn y gallant ei ddisgwyl gennym, rydym yn awyddus i ddysgu mwy gan gleifion am eu cyswllt gyda ni, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig.

Yn ystod 2019, aethom ati i wella ein cydweithio gyda grwpiau cleifion trwy gyfrwng ein Huned Perthnasoedd Strategol newydd. Cyflwynom ddwy sesiwn bord gron gyda chynrychiolwyr y cyhoedd a chleifion ar draws y DU, gan ofyn am eu mewnbwn gwerthfawr am rai meysydd gwaith y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Roedd y digwyddiadau wedi canolbwyntio ar:

- ein gwaith cyfeirio gwell
- cyngor ynghylch presgripsiynu o bell i gleifion
- ein siarter cleifion
- ein strategaeth gorfforaethol nesaf.

Yn ogystal, mynychodd ein Heiriolwr dros Gleifion newydd, Una Lane, y sesiynau bord gron, gan amlygu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau bod amrywiaeth anghenion cleifion yn

parhau i gael ei hystyried yn ein gwaith.

Gwella ein cymorth ar gyfer tystion

Mae tystion yn cyflawni rôl hanfodol wrth ein helpu i ddiogelu'r cyhoedd. A dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd mesurau i wella ein cymorth ar eu cyfer, gan gynnwys penodi un pwynt cyswllt ar gyfer pob tyst.

Yn 2019, cyflwynom arolwg er mwyn gwella ein dealltwriaeth o brofiadau tystion ymhellach, ac i asesu effeithiolrwydd ein cymorth estynedig. Roedd yr adborth cadarnhaol, yn enwedig wrth ymateb i'n dull gweithredu wrth gyfweld tystion a chymryd eu datganiadau, wedi amlygu'r effaith y mae ein gwelliannau yn ei chael.

Nid dyna ddiwedd ein hymrwymiad i leihau rhywfaint o'r faich sy'n gysylltiedig â bod yn dyst.

Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant pwrpasol i'n staff, gan gynnwys ein tîm cyfreithiol, fel eu bod yn teimlo'n hyderus wrth helpu tystion y gallent fod yn teimlo'n ofidus yn ystod gwrandawriadau.

Yn ogystal, ym mis Chwefror 2019, ar y cyd ag NMC, comisiynom wasanaeth cymorth annibynnol dros y ffôn ar gyfer tystion gan elusen Cymorth i Ddiodefwyr. Mae'r gwasanaeth sydd ar gael ddydd a nos, yn cynnig cymorth emosiynol ychwanegol i dystion a'u teulu neu eu ffrindiau, trwy gydol ymchwiliad. Ers ei gyflwyno, gwelsom gynnydd yn y niferoedd a fanteisiodd ar y gwasanaeth trwy gydol 2019.

A thrwy gyfrwng ein gwaith ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol, rydym wedi dechrau gweld manteision lle aros newydd i dystion, ystafelloedd gwell i dystion a chyfathrebu mwy clir.

Mae tystion yn ganolog i'n gwaith er mwyn cadw cleifion yn ddiogel. Byddwn yn parhau i wrando ar eu profiadau a datblygu ein pobl, ein prosesau a'n gwaith cyfathrebu mewn ffordd briodol. Byddwn yn canolbwyntio nesaf ar wella'r profiad o roi tystiolaeth yn ystod y gwrandawriad.

Cynnwys y cyhoedd a meddygon yn y broses o ddatblygu ein harweiniad

Mae ymgynghoriadau gyda'r cyhoedd, meddygon a rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o'r ffordd yr ydym yn siapio ein polisïau a'n harweiniad.

Ym mis Chwefror 2019, gorffennwyd adolygiad mawr o'n harweiniad craidd, *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad helaeth gyda chleifion, aelodau'r cyhoedd, meddygon, swyddogion cyfrifol a rhanddeiliaid eraill.


Yn yr arweiniad diwygiedig, a gymeradwywyd gan ein Cyngor ym mis Tachwedd 2019, rydym yn annog meddygon i ganolbwyntio ar bwysigrwydd cyfathrebu a sgysiau personoledig. Ac rydym yn amlygu pwysigrwydd meddygon a chleifion yn gwneud penderfyniadau am ofal a

thriniaeth gyda'i gilydd. Rydym wedi cynllunio amrediad o weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu hefyd er mwyn helpu meddygon i weithredu'r arweiniad newydd.

O fis Ebrill i fis Gorffennaf 2019, buom yn ymgynghori am arweiniad newydd hefyd ynghylch adborth gan gleifion ar gyfer y broses ailddilysu. Nod y gwaith hwn yw ei gwneud yn haws i gleifion roi eu hadborth ac i gynyddu gwerth yr adborth ar gyfer dysgu meddygon. Yn ogystal, rydym yn dymuno cynorthwyo ystod ehangach o gleifion i fod yn gallu mynegi eu safbwyntiau am y gofal y maent yn ei gael.

Er mwyn cynorthwyo'r ymgynghoriad, cynhaliom ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr gan ddefnyddio ein holl sianelau – y we, efwletin a mwy – gan ddosbarthu cynnwys a oedd yn ymgysylltu, gan gynnwys blogiau a fideos. O ganlyniad, cawsom bron i 800 o ymatebion at ei gilydd, gan feddygon ac aelodau'r cyhoedd yn bennaf.

Y gwahanol bobl a fu'n ymwneud â'n hymgyngoriad ynghylch Caniatâd



Ers hynny, rydym wedi dadansoddi'r adborth, gan adrodd am ganlyniad yr ymgynghoriad, a bwriadwn gyhoeddi'r arweiniad wedi'i ddiweddarau yn 2020.

Buddsoddi mewn cyfathrebu gyda meddygon a'r cyhoedd

Mae'n rhaglen Trawsnewid Digidol 2020 wedi bod yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn cyfathrebu, yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio gyda'n cwsmeriaid ar-lein – gan sicrhau ein bod yn cynnig profiad gwell i'r cyhoedd ac i feddygon ar draws ein sianelau digidol.

Tôn y llais

Yn ogystal ag ehangu ein sianelau cyfathrebu, trwy gydol 2020, byddwn yn cyflwyno hyfforddiant er mwyn helpu cydweithwyr i gyfathrebu mewn ffordd sy'n fwy clir a thosturiol.

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol er mwyn i'r cyhoedd a meddygon allu deall ac ymgysylltu gyda ni yn hawdd. Boed hynny yn ohebiaeth gennym mewn negeseuon e-bost, yn safonau, neu'n wybodaeth gyfarwyddol, ein nod yw teilwra ein dull i holl anghenion ein

cynulleidfaoedd.

Mewn cyd-destun gofal iechyd dynamig, mae'n hanfodol ein bod yn adolygu ein gwaith cyfathrebu yn rheolaidd, ac yn hyfforddi cydweithwyr ynghylch arfer gorau.

Yn 2019, cychwynnom gyfres o weithdai hyfforddiant ar gyfer timau ar draws y sefydliad, gan eu helpu i sicrhau cymaint o hygyrchedd, eglurder ac empathi ag y bo modd yn eu cyfathrebu.

Mae hyn yn datblygu ein cwrs e-ddysgu sy'n bodoli eisoes ynghylch cyfathrebu effeithiol, yn ogystal â'n cymuned o Hyrwyddwyr Tôn y Llais sy'n darparu cymorth lleol.

Sgwrsio Byw

Rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2019, buom yn peilota Sgwrsio Byw, ffordd newydd a hawdd i bobl gysylltu â'n Canolfan Gyswllt ar-lein. Yn 2019, roedd 7,358 o bobl wedi defnyddio'r gwasanaeth negeseua uniongyrchol amser real hwn a gynigir trwy ein gwefan.

Roedd arolygon a anfonwyd at ddefnyddwyr ar ôl i'r sgysiau orffen wedi datgelu bod 93.3% ohonynt yn fodlon iawn neu'n fodlon gyda'r gwasanaeth.

Bydd y dewis sgwrs ddigidol hwn yn ein helpu i wella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig ar hyn o bryd. Mae'n cynnig rhagor o ddewisiadau i aelodau'r cyhoedd a meddygon i gysylltu â ni, mewn ffordd sy'n addas iddynt. Ac mae o fudd i'r bobl hynny sy'n ei chael hi'n anodd cysylltu â ni dros y ffôn efallai.

Bydd y ddirnadaeth y gallwn ei sicrhau gan Sgwrsio Byw yn ein helpu i wella a theilwra ein gwefan hefyd, fel y gall y cyhoedd, meddygon a rhanddeiliaid eraill ddarganfod yr hyn y mae ei angen arnynt yn gyflymach ac yn haws.

Ac yn y pen draw, dylai darparu'r gwasanaeth ychwanegol hwn leihau nifer y galwadau ffôn – sy'n golygu y gallwn ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon fyth i'r cyhoedd ac i feddygon. Yn dilyn y peilot, rydym wedi bod yn mireinio ac yn gwella'r gwasanaeth ar sail yr hyn a ddysgom, er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol ag y bo modd yn y dyfodol.

Un o'n cymrodyr clinigol yn cymryd yr awenau ar Twitter

Ym mis Awst 2019, roedd Dr Latifa Patel, un o'n cymrodyr clinigol, wedi cymryd yr awenau ar ein sianel Twitter fel rhan o *#TipsForNewDocs*.

Mae'r ymgyrch flynyddol hon ar gyfryngau cymdeithasol yn annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i rannu cyngor gyda meddygon sylfaen sy'n cychwyn.

Ysgogodd y fenter sgwrs gadarnhaol gyda meddygon ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd.

Trwy gydol 2019, parhaom i rannu mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr hefyd trwy ein bwletin e-bost *Newyddion CMC i feddygon*. Rydym yn teilwra'r cynnwys yn benodol er mwyn helpu gwahanol fathau o feddygon, gan gynnwys graddedigion meddygol rhyngwladol, meddygon teulu, arbenigwyr a meddygon dan hyfforddiant.

Codi ymwybyddiaeth o'n harweiniad moesegol

Mae tueddiadau cymdeithasol newydd a datblygiad technoleg wedi cynnig rhai cyfleoedd cyffrous i feddygon. Ond maent wedi golygu bod rhai achosion o ryngweithio gyda chleifion yn fwy sensitif a chymhleth. Rydym wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'n harweiniad er mwyn cynorthwyo meddygon gyda rhai o'r sialensiau hyn sy'n dod i'r amlwg trwy gyfrwng colofn gynghori Clinig Gyrfaoedd Cyfnodolyn Meddygol Prydain (BMJ). Mae'r nodwedd yn cynnwys cyngor annibynnol gan dair ffynhonnell wahanol.

Yn 2019, cyfrannom am faterion a oedd yn cynnwys:

- Yr hyn i'w wneud os bydd claf yn dymuno recordio ymgynghoriad
- Mae claf wedi cwyno amdanaf ar-lein. Beth ddylwn i ei wneud?
- A yw meddygon yn gallu cymeradwyo apiau neu gynhyrchion masnachol
- A ydw i'n gallu defnyddio aelod o'r teulu fel cyfieithydd claf?
- Beth ddylai meddygon ei wneud os bydd claf yn rhoi cymynrodd iddynt yn eu hewyllys
- A ddylai meddygon adrodd i DVLA os bydd claf yn parhau i yrru, gan fynd yn groes i gyngor meddygol

Mae wedi bod yn galonogol gweld defnyddwyr yn ymgysylltu gyda'r cynnwys, gan ystyried yr hyn y mae'r arweiniad yn ei olygu mewn sefyllfaoedd go iawn er enghraifft. Bu'r darn ynghylch recordio cleifion yn hynod o boblogaidd ar gyfryngau cymdeithasol – wrth iddo gael ei hoffi 98 gwaith a'i aildrydar 67 gwaith, a gwnaethpwyd 20 o sylwadau amdano.

Byddwn yn parhau i wneud cyfraniadau yn 2020 er mwyn cynorthwyo meddygon gyda materion sy'n deillio o'r pandemig. Rydym yn teimlo'n hyderus ynghylch arbenigedd meddygon a mawr obeithiwn bod yr arweiniad hwn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd.

Deall mwy am arbenigwyr cyswllt ac arbenigol a meddygon a gyflogir yn lleol

Mae arbenigwyr cyswllt ac arbenigol (SAS) a meddygon a gyflogir yn lleol (LE) yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i wasanaethau iechyd y DU. Mae dros 45,000 o'r meddygon ar y gofrestr yn feddygon SAS neu LE, ac mae nifer y meddygon sy'n dewis cyflawni'r rolau hyn yn cynyddu.

Er mwyn helpu i ehangu ein dealltwriaeth o'u profiadau nhw yn y gweithle, ym mis Mai 2019, lansiom arolwg newydd a oedd yn casglu eu safbwyntiau. Roedd dros 6,400 o feddygon ar draws y DU wedi cymryd rhan.

Dywedodd nifer o'r meddygon a holwyd eu bod yn fodlon gyda'u rôl a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo gan gydweithwyr ac arweinwyr lle y maent yn gweithio. Fodd bynnag, dywedodd canran sylweddol wrthym eu bod yn wynebu sialensiau sy'n ymwneud â'u rôl, gan gynnwys:

- anawsterau wrth fanteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant
- amgylcheddau gwaith anghefnogol, bwlio a thanseilio
- ymwybyddiaeth anghyson o gymorth ac arweiniad penodol ar gyfer SAS a mynediad anghyson i hwn
- teimlo eu bod wedi llwyr ymlâdd oherwydd eu gwaith.

Mae'n hadroddiad am y canfyddiadau cychwynnol yn archwilio'r prif feysydd hyn, gan nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf.

Ceir cyswllt agos rhwng nifer o'r themâu o'r arolwg hwn a'r argymhellion yn *Gofalu am Feddygon sy'n Gofalu am gleifion ac A yw hi'n deg cyfeirio?*, a gomisiynom fel rhan o'n rhaglen waith *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau*¹⁸. Bellach, rydym yn canolbwyntio ar sut y gallwn ddatblygu'r holl waith hwn, gan weithio gyda phartneriaid i lywio newid parhaus, gan wella bywydau gwaith meddygol ar draws pob rôl ac arbenigedd.

Cryfhau ein perthynas gyda myfyrwyr meddygol

Mae helpu i baratoi myfyrwyr meddygol ar gyfer gwaith meddygol trwy sicrhau eu bod yn dysgu'r hyn y mae angen iddynt ei wybod i fod yn feddyg da, yn rhan allweddol o'n gwaith.

Yn 2019, ymgysylltodd ein tîm Allgymorth gyda dros 12,700 o fyfyrwyr a oedd yn astudio meddygaeth ar draws y DU. Darparodd y tîm sesiynau i fyfyrwyr meddygol am amrediad o faterion, gan gynnwys *Arfer meddygol da*, myfyrio, ac iechyd a lles. Mae dogfennau fel *Yr ymarferwr myfyriol – canllaw i fyfyrwyr meddygol* wedi dangos yr arwyddocâd yr ydym yn ei roi ar gynorthwyo gweithlu meddygol y dyfodol gydag arweiniad ymarferol.

Mae gennym amrediad o adnoddau i fyfyrwyr meddygol ar ein gwefan ac rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr am ein gwaith trwy ein e-fwletin, *Newyddion CMC i fyfyrwyr*.

Ym mis Medi 2019, lansiom ein canllaw blynyddol *Croeso i feddygaeth* ar gyfer myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf. Roedd yn cynnwys dolenni i arweiniad a chymorth perthnasol, cyngor ynghylch bywyd mewn ysgol feddygol, a chyngor gan gyd fyfyrwyr.

Gofynnem i fyfyrwyr fynegi eu barn i ni am y canllaw, fel y gallwn barhau i wella'r adnodd a'i deilwra i anghenion myfyrwyr. Mae'r adborth cadarnhaol a gawsom yn dangos gwerth yr adnodd hwn i fyfyrwyr i ni. Ymatebodd 323 o fyfyrwyr i'n galwad am adborth, gan ddweud wrthym eu bod wedi dysgu am arweiniad a phroffesiynoldeb, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael iddynt.

¹⁸ Darllenwch fwy am raglen waith Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau ar dudalen 15.

'Mae CMC yn poeni am fyfyrwyr meddygol o'r cychwyn ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ysgolion meddygol yn hyfforddi meddygon newydd hyd eithaf eu gallu er mwyn cynorthwyo cleifion yn y dyfodol.' Ymatebydd i'r arolwg

Yn ystod yr Haf 2019, cynhaliom ein pedwaredd gystadleuaeth flynyddol ynghylch proffesiynoldeb hefyd, gyda'r Cyngor Ysgolion Meddygol. Gofynnem i fyfyrwyr greu sesiwn addysgu er mwyn helpu eu cymheiriaid i ddeall yr hyn y mae ein harweiniad ar y cyd, *Sicrhau arfer meddygol da*, yn ei ddweud ynghylch codi llais. Cawsom 48 ymgais, bron 20% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd 72 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan, ac roeddent yn cynrychioli'r holl grwpiau blwyddyn a 24 o ysgolion meddygol ar draws pedair gwlad y DU.

Bodloni anghenion y gwasanaethau iechyd ar draws pedair gwlad y DU, sy'n newid

Bodloni'r galw cynyddol am leoedd arholiad ar gyfer meddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol

Mae diogelwch cleifion yn dibynnu ar fodolaeth gweithlu meddygol sy'n ddatblygedig ac sy'n cael adnoddau da, ar draws gwahanol sectorau systemau gofal iechyd y DU, ac o fewn gwahanol arbenigeddau. Ac yn yr un modd â phroffesiynau gofal iechyd eraill, mae hyn yn dibynnu ar fewnlif rheolaidd o feddygon rhyngwladol yn symud i fyw a gweithio yn y DU.

Ein Canolfan Asesu Clinigol newydd

Ym mis Awst 2019, cynhaliodd ein Canolfan Asesu Clinigol newydd ei phrawf Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) cyntaf. Y prawf yw'r prif lwybr i feddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol i ddangos i ni eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu gofal rhagorol i gleifion.

Mae'r galw am yr asesiad wedi tyfu'n gyson. Mae'r ganolfan newydd yn cynnwys dau gylch profi sy'n gallu cynnig lle i 18 ymgeisydd ar y tro – gan ddyblu ein gallu presennol. Mae hyn yn golygu y gallwn brofi tua 11,000 o feddygon bob blwyddyn erbyn hyn, sef dwywaith y nifer yr oeddem yn gallu ymdopi ag ef yn flaenorol.

Mae meddygon sy'n cael yr asesiad yn wynebu cyfres o sefyllfaoedd ymarferol, mewn ystafelloedd ymgynghori a ddyluniwyd yn arbennig, lle y caiff eu gallu i ofalu am gleifion ei brofi a'i fonitro gan arholwyr. Mae'r sefyllfaoedd yn adlewyrchu ymgynghoriadau go iawn, rhai gyda modelau animatronig ac eraill gydag actorion yn chwarae rolau cleifion.

Cyn lansiad swyddogol y ganolfan, cynhaliom ddiwrnod agored y cyfryngau, gan gynnig cyfle prin i'r cyhoedd weld ein gwaith y tu ôl i'r llenni ac i gael dirnadaeth o'r asesiadau trylwyr y mae'n rhaid i feddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol eu pasio er mwyn gweithio yn y DU.



72 o feddygon, yr oeddent wedi cymhwyso mewn gwledydd mor amrywiol â Libia, yr Wcráin ac Ynysoedd y Philipinau, oedd y cyntaf i roi cynnig ar yr asesiad hanner diwrnod trylwyr o'u sgiliau ymarferol yn y ganolfan newydd ym Manceinion.

Rhwng yr adeg honno a diwedd 2019, roedd 4,760 o ymgeiswyr wedi sefyll arholiadau PLAB 2 ar draws 68 sesiwn yn y ganolfan newydd yn 3 Sgwâr Hardman ym Manceinion.

Mae meddygon rhyngwladol yn gwneud cyfraniad pwysig a gwerthfawr i wasanaethau iechyd y DU. Dyma pam ein bod yn dymuno cynnig cymaint o hyblygrwydd ag y gallwn i ymgeiswyr, a helpu meddygon i baratoi ar gyfer gwaith meddygol yn y DU mor gyflym ag y bo modd, gan gadw'r safonau uchel sy'n ofynnol gennym.

Disgwyliwn i'r ganolfan newydd leihau'r amseroedd aros i feddygon sy'n dymuno symud i'r DU, gan helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd sydd eisoes dan bwysau ar draws y bedair gwlad.

	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	Arall ¹⁹	Cyfanswm
DU	138,446	17,554	7,131	5,804	599	169,534
GMRh	58,744	2,346	2,893	431	3,779	68,193
AEE	17,897	1,232	663	579	2,215	22,586
Cyfanswm	215,087	21,132	10,687	6,814	6,593	260,313

Ymestyn ein gwasanaeth ar draws pedair gwlad

Er mwyn bodloni anghenion gwasanaethau iechyd y DU, rydym wedi ymestyn amrediad a lleoliad gwasanaethau eraill yr ydym yn eu cynnig i feddygon rhyngwladol ar draws y DU, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ogystal ag agor ein Canolfan Asesu Clinigol newydd ym Manceinion (gweler uchod), rydym yn cynnig ein prawf Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) 1 ym mhedair gwlad y DU, ar ôl agor drysau ein swyddfa newydd yn Belfast i ymgeiswyr am y tro cyntaf.

Rydym wedi cynyddu argaeledd PLAB 1 o gwmpas y byd hefyd. Bellach, mae'r rhan fwyaf o leoliadau PLAB ar draws y byd yn cynnal PLAB 1 bedair gwaith y flwyddyn, i fyny o ddwy waith y flwyddyn, gan greu dros 1500 o leoedd ychwanegol bob blwyddyn. Bydd ymgeiswyr yn gallu sefyll y prawf ar dir mawr Ewrop hefyd, a byddwn yn cynnal PLAB 1 yn Ffrainc hefyd.

Er mwyn helpu meddygon sydd wedi sicrhau cymhwyster rhyngwladol i addasu i arfer meddygol yn y DU, cynyddom nifer y gweithdai Croeso i Arfer yn y DU yr ydym yn eu cynnig ar draws y bedair gwlad hefyd.²⁰

Trwy gynyddu'r hyblygrwydd a'r cyflymder y gall meddygon rhyngwladol ymuno â chofrestr

¹⁹ Mae 'Arall' yn cynnwys meddygon nad oes gennym gyfeiriad yn y DU ar eu cyfer.

²⁰ Gweler tudalen 19 am ragor o wybodaeth am ein gweithdai Croeso i arfer yn y DU.

feddygol y DU, a'u cynorthwyo i addasu i arfer yn y DU, rydym yn helpu i leddfu'r pwysau ar feddygon ac ar systemau gofal iechyd y DU.

Cyflwyno trefniant o ran cymwysterau wedi'i reoli gan CMC

Ym mis Chwefror 2019, cwblhaom weithgarwch ymgysylltu am fframwaith drafft er mwyn cyflwyno trefniant o ran cymwysterau wedi'i reoli gan CMC, gan glywed gan randdeiliaid ar draws y DU mewn oddeutu 50 o gyfarfodydd a thrwy gyfrwng 175 o gyflwyniadau ysgrifenedig.

Bwriad trefniant o ran cymwysterau wedi'i reoli gan CMC yw gwella diogelwch cleifion trwy alluogi meddygon i hyfforddi mewn un maes gwaith y tu allan i hyfforddiant arbenigol, lle y gwelir angen o ran diogelwch cleifion neu ofyniad sylweddol yn y gwasanaeth. Fe'u cynlluniwyd i helpu'r proffesiwn i addasu i anghenion cleifion yn y dyfodol ac i gynnal safonau cyson ar draws y DU, a bydd yn helpu i sicrhau bod hyfforddiant yn fwy hyblyg.

Cymeradwywyd y fframwaith trefniant o ran cymwysterau gan ein Cyngor ym mis Mehefin 2019, ar yr amod y byddai'n cael ei gyflwyno'n raddol, gan gychwyn gyda nifer fach o fabwysiadwyr cynnar a gyda phwynt adolygu ar ôl iddynt gael eu datblygu.

Cymeradwywyd y meysydd canlynol fel mabwysiadwyr cynnar: seiciatreg cyswllt, niwroradiolog ymyriadol (strôc aciwt), meddyginiaeth poen, llawfeddygaeth gosmetig, a meddygaeth wledig ac mewn mannau anghysbell. Maent yn gyfle i gyflwyno trosolwg rheoliadol mewn meysydd lle y gwelir angen sylweddol.

Byddwn yn gwerthuso effaith y trefniant o ran cymwysterau a neu brosesau cysylltiedig cyn derbyn unrhyw gyflwyniadau pellach.

Paratoi ar gyfer Brexit

Ar 31 Ionawr 2020, gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ac mae bellach mewn cyfnod pontio tan 31 Rhagfyr 2020.

Mae meddygon sy'n wladolion o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn rhan hanfodol o weithlu meddygol y DU. Felly rydym wedi parhau i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau na fydd gadael UE yn peri i feddygon sy'n wladolion AEE benderfynu peidio dod i weithio yn y DU a chyfrannu at GIG.

Fel rhan o hyn, rydym wedi bod yn gweithio i ddylanwadu ar y trafodaethau rhwng y DU ac UE, er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gofrestru gwladolion AEE yn brydlon ac mewn ffordd effeithlon. Rydym yn gweithio gyda swyddogion a'n swyddogion cyfatebol rhyngwladol i sicrhau y caiff diogelwch cleifion ei gydnabod a'i ddiogelu mewn unrhyw gytundebau masnach a lofnodir rhwng y DU a gwledydd eraill yn y dyfodol.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda Chyngor Meddygol Iwerddon. Gyda'n gilydd, rydym yn drafftio memorandwm dealltwriaeth, a fydd yn caniatáu i ni barhau i rannu gwybodaeth ynghylch addasrwydd i wneud gwaith meddygol

a chofrestru gyda'n gilydd hefyd ar ôl y cyfnod pontio. Mae hon yn flaenoriaeth i ni gan ei bod yn ein galluogi i sicrhau bod diogelwch cleifion yn parhau i gael ei ddiogelu ar draws ynys Iwerddon.

Bydd meddygon o AEE yn parhau i geisio cofrestriad yn y DU, felly mae'n rhaid i ni barhau i weithio gyda rheolyddion eraill a gwledydd AEE i ddeall eu cyfundrefnau rheoliadol nhw. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn parhau i gael dylanwad ar ddatblygiadau deddfwriaethol Ewropeaidd.

Cynyddu'r hyblygrwydd a'r cyflymder i feddygon ymuno â'r cofrestrau Arbenigol a Meddygon Teulu

Rydym yn parhau i archwilio dewisiadau er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd a hygyrchedd i feddygon sy'n dymuno sicrhau cofrestriad fel meddyg teulu neu gofrestriad arbenigol. Trwy gydol 2019, buom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn archwilio ein syniadau polisi cychwynnol i wella'r prosesau presennol i wneud cais am Dystysgrif Cymhwysedd ar gyfer Cofrestriad Arbenigol (CESR) neu Dystysgrif Cymhwysedd ar gyfer Cofrestriad fel Meddyg Teulu (CEGPR).

Ym mis Ionawr, cynhaliom weithdai gyda chynrychiolwyr o bob cyfadran a choleg brenhinol meddygol. Nod y gweithdai oedd archwilio ein hystyriaethau polisi cychwynnol ynghylch gwella'r broses CESR/CEGPR bresennol, yn ogystal â sialensiau a rhwystrau wrth geisio sicrhau newid. Trwy gydol mis Mai, ymgysylltom gyda meddygon SAS, swyddogion cyfrifol, meddygon dan hyfforddiant a sefydliadau cyflogwyr hefyd.

Mae'n ddiddorol nodi bod themâu tebyg wedi codi ym mhob un o'r gwahanol ddigwyddiadau gyda rhanddeiliaid, wrth i'r sawl a fynychodd godi'r un sialensiau a'r rhwystrau gyda'r broses bresennol. Roedd y cam ymgysylltu cychwynnol hwn wedi cadarnhau dilysrwydd ein cynigion polisi hefyd, ac wedi amlygu rhai meysydd y mae angen eu harchwilio ymhellach.

Trwy gydol 2020, byddwn yn parhau i archwilio sut y gallwn roi sylw i'r sialensiau y mae rhanddeiliaid wedi eu rhannu gyda ni.

Gwella ein perfformiad

Mae ein gallu i gyflawni ein rôl mewn ffordd effeithiol yn dibynnu ar ein pobl, ein systemau a'n ffyrdd o weithio.

Trwy gydol 2019, parhaom i fuddsoddi mewn ymgorffori ein gwerthoedd – uniondeb, rhagoriaeth, cydweithio, tegwch a thryloywder – ym mhob agwedd ar ein gwaith. O fuddsoddi mewn pobl a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, i ddarganfod datrysiadau mwy cynaliadwy i'n gweithgareddau bob dydd, rydym wedi ymrwymo i wella ein perfformiad.

Buddsoddi yn ein pobl

Ein cryfder mwyaf wrth gyflawni ein gwaith yw ein pobl, sydd wedi ymrwymo i fynd yr ail filltir i ddiogelu cleifion a chynorthwyo meddygon.

Mae ein harolwg staff blynyddol yn cynnig darlun manwl i ni o'r ffordd y mae ein cydweithwyr yn profi gwahanol agweddau ar weithio yn CMC, gan amlygu meysydd lle y gallwn sicrhau gwelliant.

Hyfforddiant a datblygu

- Parhaom i fuddsoddi mewn secondiadau datblygu, sy'n cynnig cyfleoedd i staff ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd mewn maes arall o'r sefydliad. Yn 2019, roedd wyth cydweithiwr wedi cymryd rhan mewn secondiadau datblygu.
- Fel rhan o'n hymdrechion i gynorthwyo arweinwyr a rheolwyr yn eu gwaith, ym mis Ionawr 2019, cyflwynom raglen hyfforddiant newydd a gynlluniwyd i ddatblygu eu sgiliau arwain ymhellach. Mae'r rhaglen yn cynnwys sesiynau wyneb-yn-wyneb, gweminarau ac ymarferion hunanasesu ar-lein, sy'n ceisio helpu staff i ddeall yr ymddygiadau arwain beirniadol sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd a'n nodau, a'u gweithredu.
- Yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu ymreolaeth a grymuso ein staff, lansiom gwricwlwm hyfforddiant grymuso. Mae'r cwrs hwn yn darparu'r sgiliau a'r adnoddau i gydweithwyr mewn rolau gweithredol i fod yn fwy effeithiol wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'u gwaith.
- Cyflwynom raglen o hyfforddiant Ffactorau Dynol²¹ ar gyfer ein harchwilwyr achos addasrwydd i wneud gwaith meddygol, ac roedd yr arbenigwyr meddygol a ddefnyddiwyd yn cynnwys ein prosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.
- Parhaom i ddatblygu ac ehangu'r rhaglen adborth 360 gradd a gyflwynom yn 2018. Nod y rhaglen, a elwir Adborth ar gyfer llwyddiant, yw annog trafodaethau agored rhwng staff a'u rheolwr er mwyn eu helpu i strwythuro eu datblygiad personol, ar sail adborth

²¹ Gweler tudalen 16.

gan gydweithwyr.

Iechyd a Lles

Daeth pwysigrwydd iechyd a lles yn y gwaith yn amlwg yn 2019, trwy ein hadroddiad annibynnol, *Gofalu am feddygon, Gofalu am gleifion*²². Yn ogystal â'n gwaith i gynorthwyo meddygon, rydym wedi datblygu nifer o fentrau i gynorthwyo iechyd a lles ein cydweithwyr. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr lles sy'n hyrwyddo amgylchedd gwaith iach a chadarnhaol mewn ffordd weithredol, a mannau tawel i'r staff gymryd seibiant.

Gweithiom ar ddatblygu gynllun Iechyd a Lles hefyd, gan uno ein holl fentrau cyfredol a nodi ein hymrwymiad i gynorthwyo ein pobl mewn ffordd glir. Ac rydym yn parhau i adolygu a gwella ein darpariaethau lles a chydnerthedd, er mwyn bodloni anghenion ein staff.

Buddsoddwyr mewn Pobl

Ym mis Tachwedd 2019, cydnabu Buddsoddwyr mewn Pobl²³ bod ein gwaith parhaus i ddatblygu a chynorthwyo ein staff wedi ein rhoi ar ben ffordd i sicrhau eu gwobr aur yn 2021. Mae hyn yn datblygu'r achrediad arian a sicrhaom yn 2018.

Gan gydnabod rôl allweddol ein staff wrth gyflawni ein diben, bydd ein strategaeth gorfforaethol nesaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2021 a 2025 yn cynnwys ffocws cryf ar barhau i fuddsoddi yn ein pobl hefyd.

Rhyddid i godi llais

Mae amgylcheddau gwaith diogel a chadarnhaol yn hollbwysig – i bawb sy'n gweithio i ni a gyda ni. Yn 2019, llwyddom i sicrhau cynnydd tuag at sicrhau diwylliant lle y gall pobl godi eu llais, lle y caiff materion y gallent beryglu'r amgylcheddau gwaith hyn eu codi a rhoddir sylw iddynt.

Ers i Lindsey Mallors, Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Archwilio a Sicrwydd, ddod yn Warcheidwad Rhyddid i Godi Llais ar ein cyfer ym mis Mawrth 2019, rydym wedi penodi 16 o Hyrwyddwyr Rhyddid i Godi Llais traws-sefydliadol. Ar y cyd, maent yn cynnig lle diogel a llwybr amgen i gydweithwyr fynegi pryderon. Yn ogystal â helpu i roi sylw i bryderon, mae'r hyrwyddwyr yn meithrin hyder yn ein diwylliant o godi llais trwy rannu cyfathrebu a negeseuon am y themâu sy'n deillio o bryderon a fynegir a sut y rhoddir sylw iddynt.

Trwy gydol mis Hydref, sef Mis Codi Llais, gwnaethom ymdrech arbennig i godi ymwybyddiaeth o godi llais, yng nghwmni sefydliadau gofal iechyd eraill. Fel rhan o hyn, croesawom Dr Henrietta Hughes, Gwarcheidwad Cenedlaethol GIG, i ddod i sôn wrthym am ddiwylliannau GIG, effaith rhwydwaith y gwarcheidwaid a'r mathau o faterion a godir.

²² Gweler tudalen 16.

²³ Mae achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl yn safon cydnabyddedig ar gyfer perfformiad uchel ym myd busnes a rheoli pobl, ac mae'n arwydd adnabyddus o gyflogwr da.

Mae hyrwyddo cyfleoedd i fynegi pryderon mewn ffordd weithredol yn ffordd glir o weithredu ein gwerthoedd ynghylch tryloywder ac uniondeb. Byddwn yn parhau i ddatblygu diwylliant lle y gall cydweithwyr godi eu llais mewn ffordd agored, heb iddynt ofni y bydd eu lles neu eu datblygiad proffesiynol yn dioddef.

Mentrau cyfrifoldeb cymdeithasol

Rydym yn ymdrechu i gyfrannu at gymdeithas a'r amgylchedd trwy wneud penderfyniadau sy'n gyfrifol ar lefel gymdeithasol, ac y maent yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl a'r byd o'n cwmpas. Yn 2019:

- gwellom y cyfleusterau ailgylchu ar draws ein holl swyddfeydd – menter a ysgogwyd gan ein Grŵp Gwyrdd a arweinir gan y staff, sy'n dylanwadu ar ein polisiau cynladwyedd
- sicrhau bod 98% o'r gwastraff a grëwyd wrth lenwi ein Canolfan Asesu Clinigol newydd yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, wrth i 89% ohono gael ei ailgylchu
- cynorthwyom staff i gymryd rhan mewn nifer o fentrau elusennol ac i godi arian, gan gynnwys rhoi cotiau i fenter Wrap Up Greater Manchester ac eitemau hanfodol i Mustard Tree
- gweithiom gyda'r Sefydliad Symudedd Cymdeithasol i annog pobl o gefndiroedd amrywiol i ystyried gyrfa ym maes meddygaeth.

Trwy gydol 2019, bu ein Gweithgor Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn hyrwyddo ac yn ymgorffori ein mentrau cyfrifoldeb cymdeithasol ar draws y sefydliad.

Yn ogystal â'r mentrau hyn, rydym yn falch o'r ffaith ein bod yn gyflogwr y Cyflog Byw. Rydym wedi ymrwymo i dalu cyflogau i'n staff sy'n uwch na'r Cyflog Byw er 2014. Ac yn ein contract cyflenwi safonol, rydym yn nodi bod yn rhaid i'r holl staff a gyflogir gan ein cyflenwyr gael eu talu y cyflog byw fel isafswm.

O fentrau unigol i weithgareddau bob dydd, mae cyfrifoldeb cymdeithasol wrth wraidd ein diwylliant sefydliadol. Ac yn 2020, bydd ein hagenda cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn cyflawni rôl mwy strategol a chryfach fyth ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i gynrychioli, myfyrio am a chynorthwyo amrywiaeth y DU ym mhopeth a wnawn.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) yn hollbwysig er mwyn i ni fod yn rheolydd ac yn gyflogwr effeithiol. Felly rydym yn parhau i fuddsoddi yn y maes pwysig hwn – gan hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl weithgareddau, a chan sicrhau bod pawb yn teimlo'n gysylltiedig, eu bod yn ymgysylltu a'u bod yn gallu gwireddu eu potensial.

Ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith a'n diwylliant

Yn ystod ail blwyddyn ein *Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 2018–20*, rydym wedi datblygu ein gwaith ED&I trwy gyfrwng y mentrau canlynol:

Gwella dealltwriaeth o gydraddoldeb a chynhwysiant yn yr amgylchedd gofal iechyd ehangach

- Fel rhan o'n rhaglen *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau*, cyhoeddom *A yw hi'n deg cyfeirio?*, sef adroddiad annibynnol sy'n archwilio pam y cyfeirir rhai grwpiau o feddygon atom yn amlach neu'n llai aml nag eraill. Rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau, ynghyd â manylion ynghylch sut y byddwn yn ymateb i'r argymhellion, ar dudalennau 16 ac 17.
- Cynhaliom sgysiau gyda swyddogion cyfrifol am ragofalon lleol, er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu clinigol i feddygon yn deg ac yn rhydd rhag tuedd a gwahaniaethu. Bydd hyn yn cynnig y sicrwydd i ni bod y pryderon y bydd swyddogion cyfrifol yn eu codi gyda ni wedi bod trwy broses leol gadarn a theg.
- Ymgysylltom yn agos gyda'r cyfadrannau a'r colegau brenhinol am eu rôl wrth fynd i'r afael â chyrhaeddiad gwahaniaethol, gan sicrhau ymrwymiad gan randdeiliaid ar draws y system addysg i gydweithio ac i weithio mewn ffordd wedi'i chydlyn i ddarparu llwybrau hyfforddiant teg.
- Dechreuom ddatblygu arweiniad a chyfeirio ynghylch credoau personol i ddarparwyr addysg a hyfforddiant meddygol.

Cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth

- Cynhaliodd ein Fforwm Cynghori Strategol ED&I allanol, sy'n darparu cyngor defnyddiol ynghylch cyflawni ein hamcanion ED&I fel rheolydd, ei gyfarfod cyntaf yn 2019.
- Parhaom i ymgysylltu gyda'n Fforwm Meddygon Duon ac o Leiafrifoedd Ethnig (BME) er mwyn ymateb i anghenion meddygon BME.

- Cynorthwyom drafodaethau ynghylch ffurfio a gweithredu Safon Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu GIG.
- Cynorthwyom beilot yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) ynghylch gweithredu llinyn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth newydd fel rhan o'u safonau rheoleiddio da.

Gwelliant parhaus

- Penodom gyflenwr newydd a fydd yn cynnal archwiliad am y ffordd yr ydym yn cadarnhau bod tegwch yn ein gweithgareddau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.
- Cynhaliom archwiliad mewnol am y ffordd yr ydym yn cofnodi ac yn gweithredu ynghylch gofynion cyfathrebu pobl sydd ag anableddau, er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd camau effeithiol i ystyried eu hangenion a'u bodloni.
- Cynhaliom archwiliad mewnol i nodi sut y gallem gryfhau ein rheolaeth o brosesau asesu'r effaith ar gydraddoldeb (EqIA), gan sicrhau bod gennym safonau ansawdd effeithiol, mesuradwy ac wedi'u monitro mewn grym ar gyfer EqIAs.

Creu amgylcheddau mwy cynhwysol

Mae hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth yn cynnwys creu amgylchedd cynhwysol – un lle y mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn gallu cymryd rhan a gwireddu eu potensial.

Yn 2019, cynhaliom ddadansoddiad o'r bwlch er mwyn deall sut y gallwn fod yn sefydliad mwy cynhwysol. A chynhaliom weithdai gyda chydweithwyr i siapio sut y gallem weithredu'r argymhellion o'r dadansoddiad hwn fel rhan o gynllun pum mlynedd a fyddai'n cychwyn yn 2020.

Yn ogystal, gweithiom i wella cynhwysiant trwy gyfrwng y gweithgareddau isod.

Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Ym mis Ionawr 2019, gwnaethom newidiadau i'n bandiau cyflog, er mwyn helpu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ychwanegwyd at hyn gyda newidiadau i'n system gyflogau a weithredom o fis Ebrill 2019. Ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2019 oedd 14% (o'i gymharu â 15% yn 2018). Rydym yn parhau i adolygu ein strategaethau yn y maes hwn, gyda'r nod o leihau'r bwlch ymhellach.

Buddsoddi mewn rhwydweithiau staff

Mae'n rhwydweithiau staff yn dwyn pobl ar draws y sefydliad ynghyd, gan ddarparu fforwm cynorthwyol a chodi proffil profiadau a safbwyntiau unigolion.

- Sefydlodd ddau rwydwaith staff newydd – y rhwydwaith Duon a Lleiafrifoedd Ethnig a'r rhwydwaith Mwslimiaid, sy'n golygu bod gennym chwech o rwydweithiau staff amrywiaeth erbyn hyn.

- Bellach, mae cadeiryddion rhwydwaith yn cyfarfod bob dau fis i gydweithio a mabwysiadu dull croestoriadol i'w gwaith. Mae hyn wedi arwain ar sawl menter ar y cyd i godi ymwybyddiaeth, ee Rhwydwaith LGBTQ+ a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl yn cynnal digwyddiad ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a wynebir yn y gymuned LGBTQ+.
- Trwy gydol y flwyddyn, darparodd ein rhwydweithiau sawl ymgyrch lwyddiannus i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau allweddol, megis Mis Hanes Pobl Dduon, wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, Mis Hanes LGBT a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.
- Yn ogystal, cynhaliodd y rhwydweithiau amrediad o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth – er enghraifft, cynhaliodd ein Rhwydwaith Mwslimiaid Weithdai Ymwybyddiaeth o Hajj, er mwyn helpu cydweithwyr i ddeall pwysigrwydd Hajj i Fwslimiaid, a sut i gynorthwyo staff a chydweithwyr sy'n mynd ar Hajj.

Gwella ymwybyddiaeth o gynhwysiant

Yn ogystal, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau cyffredinol i godi ymwybyddiaeth a chyfathrebu ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr amgylchedd rheoliadol ehangach.

Er enghraifft, yn 2019, bu Dr Michael Brady, y Cynghorydd Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Iechyd LGBT o fewn GIG Lloegr, yn sôn wrth ein staff am ei rôl i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd i unigolion LGBT a gwella'r profiad o fewn GIG.

Yn ogystal, estynnem wahoddiad i dri meddyg anabl drafod y sialensiau y maent yn eu hwynebu wrth astudio a gwneud gwaith meddygol. Fel rhan o hyn, cyflwynodd Dr Robina Shah *Ganolfan Doubleday ar gyfer Profiad Cleifion* Prifysgol Manceinion a'i waith arloesol i gynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn hyfforddiant meddygon.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn y proffesiwn meddygol ac o fewn CMC yn fawr iawn, ac rydym wedi gwneud llawer o gynnydd wrth ymwreiddio cydraddoldeb a chynwysoldeb ym mhopeth a wnawn. Ond mae mwy y gallwn ei wneud yn y maes pwysig iawn hwn, ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r gwaith hanfodol yr ydym eisoes wedi'i wneud.

Ein strwythur, ein trefniadau llywodraethu a'n gweithgarwch rheoli

Y Cyngor a grwpiau llywodraethu eraill

Y Cyngor yw ein corff llywodraethu. Ei rôl yw cynnig cyfeiriad strategol, sicrhau bod y swyddogion gweithredol yn atebol, a gwneud penderfyniadau polisi mawr ar lefel uchel. Mae'n cynnwys 12 aelod o bedair gwlad y DU, y mae chwech ohonynt yn aelodau meddygol a chwech ohonynt yn aelodau lleig.

Rydym yn elusen gofrestredig ac mae aelodau ein Cyngor yn ymddiriedolwyr y sefydliad hefyd.

Fe'u penodir i gyd yn annibynnol gan y Cyfrin Gyngor, trwy gyfrwng proses sy'n dilyn canllawiau yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ynghylch gwneud penodiadau i gyrff rheoliadol gweithwyr proffesiynol gofal iechyd.

Yr ymddiriedolwyr rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Rhagfyr 2019 oedd:

- Mr Steven Burnett, FIA
- Dr Shree Datta, MBBS BSc (Anrh) MRCOG LLM MD *[ymddiswyddodd ar 2 Rhagfyr 2019]*
- Arglwyddes Christine Eames, OBE LLB MPhil
- Athro Anthony Harnden MB ChB MSc FRCGP FRCPCH
- Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Hunt o Kings Heath PC OBE
- Athro Deirdre Kelly, CBE MD FRCP FRCPI FRCPCH DL
- Athro Paul Knight OBE, MBChB, FRCP (Caeredin, Glasgow, Llundain) FRCPI
- Bonesig Suzi Leather, DBE MBE MA BA BPhil CQSW LLD (Anrh) FRCOG (Anrh) FRSH (Anrh) DL
- Dr Michael Marsh *[penodwyd ar 1 Ionawr 2019, ymddiswyddodd ar 31 Mawrth 2019]*
- Bonesig Clare Marx DBE DL FRCS
- Bonesig Denise Platt, DBE BSc Econ
- Miss Amerdeep Somal LLB

Penodwyd Bonesig Clare Marx yn Gadeirydd newydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol gan y

Cyfrin Gyngor, gan olynu Athro Syr Terence Stephenson ym mis Ionawr 2019. Roedd holl aelodau'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn adolygiadau arfarnu yn ystod 2019, a oedd yn cynnwys ystyried unrhyw anghenion dysgu a datblygu ac yn ailystyried gwrthdaro go iawn neu ymddangosiadol rhwng buddiannau er mwyn sicrhau bod modd rheoli unrhyw wrthdaro a nodir.

Yn 2019, mae'r Cyngor wedi parhau i fonitro darpariaeth yn erbyn y cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Cyngor yn 2018, a amlygodd bod Ymddiriedolwyr yn teimlo'n hyderus ynghylch eu cydymffurfiaeth yn rhan fwyaf y meysydd.

Gofynnir i aelodau'r Cyngor ddatgelu unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau hefyd. Cyhoeddir y gofrestr buddiannau, sy'n cynnwys y buddiannau a ddatganwyd gan aelodau'r Cyngor, ar ein gwefan²⁴.

Fel elusen, mae CMC yn ystyried y saith egwyddor a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen (2017), a gall ddangos sut y mae'n defnyddio'r egwyddorion hyn er mwyn tywys ei waith ar sail 'defnyddio neu esbonio'.

Ceir dau eithriad i'r Cod, y byddwn yn eu hesbonio yn hytrach na'u gweithredu. Yn gyntaf, mae'n Cyngor a'n pwyllgorau yn gweithredu heb is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd a benodir yn ffurfiol. Fodd bynnag, gwneir darpariaethau yn y Llawlyfr Llywodraethu i gadeiryddion enwebu dirprwy i gynorthwyo yn ystod absenoldebau. Yn ail, gan bod ein proses benodi yn sefydledig ac yn drylwyr, ac yn cael ei goruchwyllo gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, ni farnir bod pwyllgor enwebiadau yn angenrheidiol.

Y Llawlyfr Llywodraethu yw dogfen lywodraethu y sefydliad. Fe'i adolygwyd yn gynnar yn 2019 er mwyn cynnwys y Cod ymhellach.


Mae gofyn i'r tîm llywodraethu corfforaethol gynorthwyo'r Cyngor i gynnal safonau uchel o ran gweithgarwch llywodraethu, ar sail 'defnyddio neu esbonio', yn unol â'r arfer da a nodir yn y Cod Llywodraethu Elusen. Mae'r tîm hwn hefyd yn darparu hyfforddiant a chynghor i'r sefydliad ynghylch materion llywodraethu. Mae pob pwyllgor yn atebol i'r Cyngor trwy gyfrwng adroddiad ffurfiol, ac mae'r Cyngor a phob pwyllgor yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddatganiad o ddiben, a adolygir bob blwyddyn.

Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn dangos y gwahanol grwpiau llywodraethu sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar y rhain i gyd, er mwyn ei helpu i oruchwyllo ein gwaith ni mewn ffordd effeithiol. Disgrifir rolau a gweithgareddau'r grwpiau hyn ar y tudalennau sy'n dilyn.

Cynhelir busnes y Cyngor mewn ffordd agored a thryloyw, a chyhoeddir yr agenda a'r papurau ar gyfer pob cyfarfod ar ein gwefan²⁵.

²⁴ Gweler www.gmc-uk.org/about/how-we-work/governance/council/council-member-register-of-interests.

²⁵ Gweler www.gmc-uk.org/about/how-we-work/governance/council.



Pwyllgor Risg ac Archwilio

Cadeiriwyd y Pwyllgor Risg ac Archwilio gan Athro Deirdre Kelly yn 2019. Gallwch weld ei adroddiad o dudalen 66.

Aelodau cyfetholedig allanol presennol y Pwyllgor yw Ms Elizabeth Butler a Mr Kenneth Gill. Roedd yr olaf wedi disodli Mr John Morley ym mis Medi 2019.

Pwyllgor Tâl

Cadeirir y Pwyllgor Tâl gan Fonesig Denise Platt. Mae'n cynghori'r Cyngor ynghylch tâl, amodau gwasanaeth a'r polisi treuliau ar gyfer aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd. Yn ogystal, mae'n pennu'r broses benodi ar gyfer y Prif Weithredwr a Chadeirydd MPTS, ynghyd â thâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol/Dirprwy Brif Weithredwr, cyfarwyddwyr, a Chadeirydd MPTS ac aelodau Pwyllgor MPTS. Yn ogystal, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o asesu a mesur perfformiad, ac asesu gweithgarwch recriwtio a chynllunio ar gyfer olyniaeth, yn digwydd o fewn fframwaith priodol ar gyfer y rolau rheoli uwch o fewn ei gylch gwaith. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor bob blwyddyn. Cynhaliwyd cyfarfod olaf y pwyllgor ar 12 Rhagfyr 2019.

Pwyllgor Buddsoddi

Cadeirir y Pwyllgor Buddsoddi gan Fonesig Suzi Leather.

Ei aelodau cyfetholedig allanol yn ystod 2019 oedd Mr Tim Scholefield, Mr Keith MacKay a Mr David Stewart.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am weithredu ac adolygu ein polisi buddsoddi, sicrhau bod y broses o reoli asedau yn cyd-fynd â'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfa, a monitro perfformiad.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio buddsoddiad CMC yn Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI), gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Buddsoddi CMC, a chraffu cynllun busnes GMCSI, gan asesu lefelau posibl risg ac elw buddsoddiad.

Mae'r Pwyllgor yn adrodd am berfformiad buddsoddi i'r Cyngor trwy gyfrwng cylchlythyrau yn dilyn cyfarfodydd, ac mae'n adrodd am berfformiad y portffolio i'r Cyngor bob blwyddyn.

Gwasanaethau Rhyngwladol CMC

Ar 16 Rhagfyr 2016, cytunodd y Cyngor sefydlu Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Cyfyngedig (GMCSI) fel is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr CMC. Prif amcan GMCSI yw cyflwyno ffrydiau refeniw newydd ac felly, lleihau ein dibyniaeth ar ffioedd meddygon.

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn grym er mwyn sicrhau y caiff ein buddiannau eu diogelu ac y rheolir ein perthynas gyda GMCSI mewn ffordd effeithiol.

Er bod y Cyngor yn meddu ar y cyfrifoldeb cyffredinol dros GMCSI, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn ystyried y risgiau i CMC gan weithrediad GMCSI, gan gynnal gweithgarwch mewnol cyson ac archwiliadau ar hap pan fo hynny'n briodol.

Cadeirir Bwrdd GMCSI gan Dr Andrew McCulloch ac mae'n cynnwys (yn ychwanegol i'r Cadeirydd) Mr Paul Buckley, Mr Steven Burnett, Mr Paul Knight a Mr Paul Reynolds.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Pensiwn

Rheolir a gweinyddir cynllun pensiwn staff CMC â buddion wedi'u diffinio gan fwrdd o ymddiriedolwyr yn unol â rheolau a gweithred ymddiriedolaeth y cynllun. Mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau y cedwir asedau'r cynllun pensiwn ar wahân i asedau'r cyflogwr.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am redeg y cynllun yn gywir, gan gynnwys casglu cyfraniadau, buddsoddi asedau a thalu ymrwymadau budd pensiwn a wnaethpwyd gan y cyflogwr.

Mae Athro Jim McKillop yn cadeirio'r Bwrdd. Mae Mr Steven Burnett, Athro Deirdre Kelly a Miss Amerdeep Somal yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan y cyflogwr. Mae Dr Danny Dubois, Mr John Foley, Mr Anthony Egerton a Mr Finlay Scott yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan yr aelodau.

Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) yn gyfrifol am oruchwylio'r broses ddyfarnu yn ystod gwrandawiadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol. Fe'i arweinir gan y Cadeirydd, Bonesig Caroline Swift a'r Rheolwr Gweithredol, Mr Gavin Brown.

Mae Pwyllgor MPTS a'r Grŵp Cyswllt ar y cyd rhwng CMC ac MPTS yn rhan greiddiol o'n fframwaith llywodraethu.

Cadeirir Pwyllgor MPTS gan Fonesig Caroline Swift. Mae'n goruchwylio darpariaeth y gwasanaeth gwrandawiadau i feddygon, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf Feddygol. Cadeirir Grŵp Cyswllt CMC/MPTS gan Gadeirydd y Cyngor. Mae'n goruchwylio'r berthynas waith rhwng MPTS a swyddogaethau CMC, y mae'n

rhyngweithio gydag ef.

Bwrdd Gweithredol

Caiff y Bwrdd Gweithredol ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, Charlie Massey, ac mae'n gweithredu fel fforwm penderfynu er mwyn hyrwyddo gweithgarwch penderfynu gweithredol ar y cyd gan y tîm Rheoli Uwch. Mae'r strwythur yn sicrhau bod y Prif Weithredwr yn rhan o drafodaethau arwyddocaol ynghylch strategaeth, polisi, perfformiad, risg, staffio a rheoli talent.

Fforymau Cyngori y DU

Yn 2013, sefydlom fforymau cyngori yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r fforymau'n cynorthwyo rôl y Cyngor wrth sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori mewn ffordd effeithiol gyda grwpiau diddordeb a bod ein polisiâu yn addas i bob rhan o'r DU.

Mae'r fforymau yn ychwanegol i'n trefniadau presennol er mwyn ymgysylltu, a bwriedir iddynt roi sylfaen strwythuredig i ni er mwyn i ni ymgysylltu am flaenoriaethau ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, a rhannu a thrafod unrhyw safbwyntiau ynghylch datblygu polisi yn gynnar. Mae'r fforymau yn adrodd am eu gwaith i'r Bwrdd Gweithredol ddwywaith y flwyddyn.

Fforwm Cyngori Addysg

Cychwynnodd y Fforwm Cyngori Addysg newydd, sy'n disodli'r Bwrdd cyngori addysg a hyfforddiant (ETAB) a'r Bwrdd cyngori asesu (AAB), ar ei waith ym mis Chwefror 2019. Mae'r fforwm yn ymgysylltu'n eang ac mewn ffordd effeithiol gyda'n grwpiau diddordeb allweddol ynghylch materion addysg, hyfforddiant ac asesu, gan sicrhau ein bod yn gallu datblygu a hyrwyddo dull gweithredu strategol at y gwaith hwn yn y ffordd orau ar draws holl wledydd y DU. Cadeirir y Fforwm gan Athro Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau ac mae'r aelodaeth a wahoddwyd yn adlewyrchu amrediad amrywiol y rhai sydd â diddordeb ac arbenigedd ym maes addysg, hyfforddiant ac asesu meddygol ar draws y DU. Adroddir am waith y Fforwm i'r Prif Weithredwr ac i'r Cyngor trwy adroddiad y Prif Weithredwr.

Presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor, byrddau a phwyllgorau yn ystod 2019²⁶

²⁶ Mae'n cynnwys chwe chyfarfod o'r Cyngor ac un diwrnod cwrdd i ffwrdd strategol. Mae presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd fforwm yn wirfoddol ac yn dilyn gwahoddiad a wneir gan Gadeirydd y Cyngor.

Aelod ac ymddiriedolwr**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd****Mr Steven Burnett**

Cyngor	7/7
Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC	5/5
Fforymau Cyngori y DU – Cymru	2/2
GMCSI	4/4

Dr Shree Datta

Cyngor	3/6
Pwyllgor Tâl	1/2
Pwyllgor Buddsoddi	1/4

Arglwyddes Christine Eames

Cyngor	7/7
Pwyllgor Risg ac Archwilio	6/6
Pwyllgor Tâl	2/2
Fforymau Cyngori y DU – Gogledd Iwerddon	2/2

Athro Anthony Harnden

Cyngor	7/7
Pwyllgor Tâl	2/2
Pwyllgor Buddsoddi	4/4

Arglwydd Philip Hunt

Cyngor	6/7
Pwyllgor Risg ac Archwilio	6/6

Athro Deirdre Kelly

Cyngor	6/7
Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC	5/5
Pwyllgor Risg ac Archwilio	6/6

Athro Paul Knight

Cyngor	7/7
Pwyllgor Risg ac Archwilio	5/6
Fforymau Cyngori y DU – Yr Alban	2/2
GMCSI	4/4

Bonesig Suzi Leather

Cyngor	6/7
Pwyllgor Risg ac Archwilio	4/6
Pwyllgor Buddsoddi	4/4

Mr Michael Marsh²⁷

Cyngor	1/7
Pwyllgor Tâl	1/2

Bonesig Clare Marx

Cyngor	7/7
CMC/MPTS	2/2

²⁷ Ymddiswyddodd ar 31 Mawrth 2019.

Fforymau Cynggori y DU – Yr Alban	2/2
Fforymau Cynggori y DU – Gogledd Iwerddon	1/2
Fforymau Cynggori y DU – Cymru	2/2

Bonesig Denise Platt

Cyngor	7/7
Pwyllgor Buddsoddi	3/4
Pwyllgor Tâl	2/2

Miss Amerdeep Somal

Cyngor	7/7
Pwyllgor Risg ac Archwilio	6/6
Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn CMC	4/5

Aelodau cyfetholedig allanol

Mae aelodau cyfetholedig allanol yn eistedd ar y Pwyllgor Buddsoddi ac ar y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Isod, rhestrir eu presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2019²⁸:

Pwyllgor Buddsoddi

Mr Keith MacKay	4/4
Mr Tim Scholefield	4/4
Mr David Stewart	2/2

Pwyllgor Risg ac Archwilio

Ms Elizabeth Butler	6/6
Mr Kenneth Gill	2/2
Mr John Morley	3/4

GMCSI

Dr Andrew McCulloch	4/4
---------------------	-----

²⁸Mae'r data ynghylch presenoldeb yn adlewyrchu cyfanswm y cyfarfodydd lle'r oedd modd bod yn bresennol ynddynt.

Rheolwyr

Ar ddechrau 2019, roedd ein staff dan reolaeth y Prif Weithredwr, Charlie Massey, a'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Dirprwy Brif Weithredwr, Susan Goldsmith.

Ym mis Medi 2019, gadawodd Ms Susan Goldsmith y sefydliad ar ôl pum mlynedd o wasanaeth.

I gyd-fynd â'i hymadawiad, adolygwyd rolau a chyfrifoldebau ein Tîm Rheoli Uwch, a gwnaethpwyd rhai newidiadau. Fel rhan o hyn:

- Daeth yr adrannau Cynllunio Busnes Corfforaethol a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhan o'n cyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi.
- Ymgwymerodd Ms Una Lane, Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu, â rôl yr Eiriolwr Cleifion a chadeirydd ein Fforwm Cleifion.
- Daeth Mr Paul Reynolds, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol ac Ymgysylltu, yn gadeirydd y Fforwm Cyngori Strategol newydd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'n Bwrdd Cyngori Gwasanaeth Cwsmeriaid.

Ar 31 Rhagfyr 2019, y cyfarwyddwyr oedd:

- Mr Paul Buckley, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi
- Ms Una Lane, Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu
- Athro Colin Melville, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau
- Mr Anthony Omo, Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol
- Mr Paul Reynolds, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol
- Mr Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau

Personél rheoli allweddol – polisi tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn gyfrifol am bennu tâl, buddion ac amodau gwasanaeth y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol/Dirprwy Brif Weithredwr, Cadeirydd MPTS a'r cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor yn pennu pob agwedd ar gyflogau neu honoraria, darpariaeth unrhyw fuddion eraill, ynghyd ag unrhyw amodau cytundebol neu drefniadau eraill ar gyfer y grŵp hwn o staff.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylem ddarparu tâl a gwobrwyon a fydd yn denu ac yn cadw'r staff o ansawdd uchel sy'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cylch gwaith statudol a'n hamcanion strategol.

Wrth bennu'r tâl sylfaenol ar gyfer swyddi unigol, bydd y Pwyllgor yn cael cyngor allanol am rolau o fewn ei gylch gwaith, gan sicrhau bod cyflogau'n cyd-fynd â chyfradd y farchnad sy'n briodol, yn unol ag ystyriaethau ynghylch adnoddau.

Ystyrir dyfarniad cyflog cyfunedig wrth gyfeirio at lefel berfformio y sefydliad, goblygiadau ariannol unrhyw ddyfarniad, y dyfarniad a gytunwyd ar gyfer cyflogeion eraill CMC a thueddiadau ehangach yn y farchnad. Ystyrir elfen anghyfunol amrywiol flynyddol, gan adlewyrchu perfformiad personol, gyda'r un ystyriaethau a weithredir ar gyfer unrhyw ddyfarniad cyfunedig. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn bob blwyddyn.

Fel arfer, bydd staff yng nghylch gwaith y Pwyllgor Tâl yn gymwys i gael y pecyn buddion sydd ar gael i holl gyflogeion CMC yn unol â'r un amodau. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r gallu i dynnu yn ôl, addasu neu newid unrhyw fuddion i staff yn ei gylch gwaith, yn unol ag unrhyw ofynion ymgynghori a chytundebol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried unrhyw fuddion ychwanegol mewn nwyddau (megis taliadau adleoli) fesul achos.

Caiff staff allanol newydd a benodir o fewn cylch gwaith y Pwyllgor eu cofrestru yn ein cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, yn awtomatig. Pan fydd gan gyflogeion drefniadau pensiwn cytunedig sy'n bodoli eisoes, megis aelodaeth o'n cynllun â buddion wedi'u diffinio, byddant yn cadw hwn yn ystod cyfnod eu cyflogaeth, yn unol ag unrhyw newidiadau i'r rheolau y bydd ymddiriedolwyr a'r cyflogwr yn cytuno arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod goblygiadau'r polisi tâl a phenderfyniadau cysylltiedig ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried mewn ffordd briodol. Yn benodol:

- Cefnogir unrhyw wahanrediaidau cyflog gan werthusiad swydd ffurfiol neu gyngor annibynnol o'r farchnad allanol.
- Cefnogir unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl amrywiol gan asesiad gwrthrychol o berfformiad.
- Ni fydd unrhyw addasiad neu newidiadau i drefniadau tâl yn gwahaniaethu mewn ffordd anghyfreithlon.
- Cefnogir penderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag amodau gwasanaeth gan gyngor priodol ynghylch unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Adolygiad ariannol 2019

Paratowyd y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019 yn unol â'r *Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS 102)*.

Cyfanswm ein hincwm a'r gwariant yn 2019

Yn 2019, llwyddom i sicrhau cyfanswm o £114.4 miliwn ar ffurf incwm, a chyfanswm ein gwariant oedd £114.6 miliwn, gan arwain at diffyg bach, cynaliadwy ac a gynlluniwyd. Roedd ein hincwm yn 2019 wedi codi gymaint â £4.5 miliwn o'i gymharu â'n hincwm yn 2018. Gwelwyd nifer y meddygon cofrestredig yn cynyddu yn ystod y flwyddyn a bu'r galw am brofion y Bwrdd Ieithyddol a Phroffesiynol (PLAB) lawer yn uwch na'r disgwyl. Roedd ein hincwm buddsoddi lawer yn uwch yn 2019, yn rhannol oherwydd ein bod wedi cynyddu lefel y cronfeydd a fuddsoddwyd trwy gyfrwng rheolwr cronfa, ac yn rhannol oherwydd perfformiad cadarn buddsoddiadau.

Roedd ein gwariant yn 2019 wedi codi £9.9 miliwn o'i gymharu â swm ein gwariant yn 2018, cynnydd o 9.5%. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i godiad mewn costau rhedeg PLAB a ysgogwyd gan fwy o alw amdanynt, y ffaith yr ehangwyd ein gwaith allgymorth er mwyn rhoi hwb i'r cymorth ar gyfer meddygon a meithrin perthnasoedd gwaith ar draws amgylchedd iechyd y DU, buddsoddiad ychwanegol mewn addysg ac yn natblygiad UKMLA, a'r ffaith y cynhaliwyd mwy o ddiwrnodau gwrandawiaidau MPTS. Mae'r cynnydd yn y galw am brofion PLAB yn creu incwm ychwanegol, sy'n gwrthbwysu'r cynnydd mewn costau.

Yn 2019, gosodom darged effeithlonrwydd o sicrhau arbedion o £1.8 miliwn (2% o gyllidebau cyfarwyddiaeth), yr oeddem yn teimlo ei fod yn darged realistig na fyddai'n cael effaith ar safonau ansawdd. Llwyddom i sicrhau arbedion sylweddol o £1.9 miliwn trwy gyfrwng amrediad o fentrau, gan gynnwys: defnyddio cadeiryddion sy'n meddu ar gymwysterau cyfreithiol yn lle cadeiryddion ac aseswyr cyfreithiol ar wahân yn ystod gwrandawiaidau MPTS; cyflawni'r asesiad o berfformiad proffesiynol meddyg (prawf cymhwysedd) y byddwn yn ei gynnal fel rhan o ymchwiliad addasrwydd i wneud gwaith meddygol, yn fewnol; a gohirio recriwtio i swyddi gwag.

Terfynwyd ein cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio i aelodau newydd ar 1 Gorffennaf 2013, ac fe'i ddisodlwyd gan gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Ar 1 Ebrill 2018, terfynwyd y cynllun â buddion wedi'u diffinio i groniadau yn y dyfodol er mwyn rhoi sylw i gyfuniad y risg ariannol sy'n tyfu oherwydd maint mwy y cynllun; fforddiadwyedd oherwydd y codiadau rhagamcanol mewn cyfraniadau a fyddai'n ofynnol er mwyn cynnal hyfywedd y cynllun; ac er mwyn gwaredu'r annhegwch o'i gymharu gyda sefyllfa aelodau'r cynllun â buddion wedi'u diffinio. Talodd y Cyngor £1.9m i'r cynllun â buddion wedi'u diffinio yn 2019, a chytunodd wneud taliadau pellach o £1.3m o 2020.

Yn ystod 2019, gwariom £12.1 miliwn ar brosiectau mawr er mwyn gwella seilwaith ein systemau gwybodaeth a'n safleoedd, gan gynnwys creu canolfan asesu clinigol newydd i ddelio â'r galw cynyddol am brofion PLAB.

Ni fu gan yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd gofyn eu datgelu dan A162A Deddf Elusennau 2011.

Polisi cronfeydd wrth gefn a busnes gweithredol

Adolygir lefel ein cronfeydd wrth gefn a'n polisi cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, a rhoddir sylw i unrhyw oblygiadau ariannol fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

Mae cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rhydd, cronfeydd wrth gefn a gefnogir gan asedau sefydlog a chronfeydd wrth gefn pensiwn.

Rydym yn dal cronfeydd wrth gefn rhydd:

- i ddarparu cyfalaf gweithio er mwyn cynnal ein gweithgarwch arferol o ddydd i ddydd
- i ddarparu cronfeydd i ddelio ag unrhyw risgiau a fydd yn codi
- i ddarparu cronfeydd i ymateb i fentrau, cyfleoedd a sialensiau newydd sy'n codi
- i ariannu'r cyfnod cyn y teimlir effaith lawn unrhyw newidiadau i lefelau ffioedd.

Cynrychiolir cyfran sylweddol o gyfanswm ein cronfeydd wrth gefn gan asedau sefydlog, nad oes modd eu trosi'n arian ar fyr rybudd yn hawdd, heb i hynny gael effaith niweidiol ar ein gallu i gyflawni ein nodau elusennol a'n rhwymedigaethau statudol. Felly, diystyrir gwerth asedau sefydlog at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn.

Diystyrir gwerth y cronfeydd pensiwn wrth gefn hefyd at ddibenion y polisi cronfeydd wrth gefn. Er bod gweithrediad y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn creu risg ariannol i'r sefydliad, mae modd rheoli unrhyw ddiffyg neu warged yn y cynllun dros y tymor canolig, felly nid yw'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar ein gofynion o ran llif arian yn y tymor byr.

Ni cheir fformwla safonol y gellir ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo lefel ddelfrydol y cronfeydd wrth gefn. Rydym yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennau, gan bennu ystod a dargedir ar sail ein gofynion llif arian ac asesiad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Ein nod yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd ar lefel nad yw'n ormodol, ond nad yw'n peryglu ein solfedd.

Ar sail ein dadansoddiad o lif arian a'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd o tua £25 miliwn i £45 miliwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn anochel y bydd lefel y cronfeydd wrth gefn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu amrywiadau yn lefelau go iawn yr incwm a'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb. Ein polisi yw cynnal cronfeydd wrth gefn rhydd go iawn yn unol â'r lefel a dargedwyd dros y tymor canolig. Os bydd ein cronfeydd wrth gefn go iawn yn amrywio'n sylweddol o'r ystod darged a nodir yn y polisi cronfeydd wrth gefn, byddwn yn rhoi sylw i'r amrywiad fel rhan o'r broses flynyddol o osod y gyllideb, er mwyn sicrhau bod y cronfeydd go iawn yn dychwelyd i lefel foddhaol o fewn cyfnod rhesymol.

Cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2019 oedd £72.6 miliwn, a oedd yn cynnwys cronfeydd wrth gefn rhydd o £44.2 miliwn, ac £19 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a gynrychiolwyd gan asedau sefydlog, a chronfa wrth gefn pensiwn o £9.4 miliwn.

Roedd gwarged y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio o £9.4 miliwn yn cynnwys asedau o £258.1 miliwn a rhwymedigaethau o £248.7 miliwn, a brisiwyd at ddibenion cyfrifyddu dan safon adrodd ariannol FRS 102. Nodir hyn yn fwy manwl yn nodyn 16 y cyfrifon.

Rydym wedi sicrhau arbedion gweithredol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys adleoli 150 rôl o Lundain i Fanceinion, gan leihau maint ôl troed ein heiddo yn Llundain, a chan symleiddio ein gweithdrefnau a'n gwrandawiadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol a chau'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio i groniadau yn y dyfodol. Mae'r arbedion hyn wedi ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i leihau cost rheoleiddio ar feddygon.

Penderfynodd y Cyngor ostwng y ffi gadw flynyddol yn 2018-19 i bob meddyg, a chyflwyno pecyn o ostyngiadau ffioedd ychwanegol i feddygon y maent yn eu blynyddoedd cynnar ar y gofrestr. Yn 2019-20, cododd y Cyngor y ffioedd yn unol â'r Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Amcangyfrifwn y bydd ein cronfeydd wrth gefn rhydd yn lleihau i tua £40.2 miliwn ar ddiwedd 2020, o ganlyniad i effaith barhaus y gostyngiadau i'r ffioedd a'r twf a gynllunnir o ran ein gweithgareddau. Mae hyn yn cyd-fynd â'n nod o gynnal cronfeydd wrth gefn rhydd tua canol ein hystod a dargedir dros y tymor canolig.

Adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, mae feirws COVID-19 yn parhau i ddatblygu, ac fe'i ddynodwyd yn bandemig byd-eang gan Sefydliad Iechyd y Byd. Nid yw effeithiau'r sefyllfa sy'n gwaethygu yn gyflym yn y tymor byr a'r tymor hir yn hysbys.

Rydym yn parhau i gynorthwyo meddygon a chleifion yn ystod y cyfnod heriol hwn, yn unol â chynghor llywodraeth y DU ynghylch y coronafeirws (COVID-19), ac rydym yn darparu nifer o'r gwasanaethau o hyd. Mae'n canolfan gyswllt ar agor o hyd, rydym yn parhau i brosesu ceisiadau cofrestru ac yn cynnal cyrsiau ar-lein i feddygon y mae gwaith meddygol yn y DU yn faes newydd iddynt. Gohiriwyd profion PLAB a thribiwnlysoedd dros dro. Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'n gweithgareddau rheoliadol hefyd, fel y gall meddygon dreulio mwy o amser ar ofal clinigol. Mae hyn yn cynnwys gohirio dyddiadau ailddilysu a'n harolygon hyfforddiant cenedlaethol. Rydym wedi ystyried effaith ariannol bosibl COVID-19 dan amrediad o sefyllfaoedd ac mae'n hamcanestyniadau cychwynnol yn dynodi y bydd gostyngiadau mewn incwm yn cael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau yn ein gwariant. Rydym wedi sefydlu tasglu i ddatblygu cynlluniau manwl er mwyn ailgychwyn gweithgareddau gweithredol yn dilyn COVID-19. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd yn caniatáu i ni fireinio ein hamcanestyniadau ariannol ymhellach.

Daw mwyafrif ein hincwm o'r ffioedd cofrestru a delir gan feddygon. Rhaid i bob meddyg gofrestru gyda ni er mwyn gwneud gwaith meddygol yn y DU, felly mae'n hincwm yn gymharol sicr. Yr eithriad i hyn yw effaith COVID-19 ar farchnadoedd ariannol byd-eang a gwerth ein buddsoddiadau, ond disgwyliwn i'r marchnadoedd adfer gydag amser, felly ein

nod yw rheoli'r risg buddsoddi dros y tymor hwy.

Er gwaethaf yr amgylchiadau presennol, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fod o'r farn bod CMC yn fusnes gweithredol hyd y gellir rhagweld, felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Nid oes unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol ar ein sefydlogrwydd ariannol hyd y gellir rhagweld.

Polisi buddsoddi

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ac adolygu'r polisi buddsoddi cyffredinol, yr amcanion, y parodrwydd i dderbyn risg a'r elw a dargedir. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfa, monitro perfformiad a gweithgarwch adrodd i'r Cyngor, i'r Is-bwyllgor Buddsoddi.

Mae'n polisi buddsoddi yn rhannu ein cronfeydd yn bedwar categori:

- y rhai hynny sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd
- y rhai y byddwn yn eu buddsoddi dan reolaeth efallai
- y rhai y byddwn yn penderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachu efallai ac
- unrhyw falans ariannol sy'n weddill.

Rydym yn dal isafswm o £15 miliwn fel cyfalaf gweithio, at ddibenion llif arian arferol. Caiff hwn ei ddal mewn cyfrifon banc mynediad syth ac mae'n cynnig digon o hyblygrwydd er mwyn gallu osgoi benthycu dros dro a/neu'r angen i fanteisio ar fuddsoddiadau er mwyn delio ag amrywiadau tymor byr mewn incwm a gwariant gweithredol.

Ar ôl ystyried ein gofyniad cyfalaf gweithio, cynyddom lefel y cronfeydd a fuddsoddwyd dan reolaeth o £20 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn, i £50 miliwn erbyn diwedd Mehefin 2019. Adolygir y swm hwn gan y Cyngor bob blwyddyn.

Ein cyfradd adenillion a dargedir ar gronfeydd a fuddsoddwyd dan reolaeth yw chwyddiant (CPI) a 2% dros gyfnod treigl o bum mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymagwedd ofalus tuag at risg. Rydym yn dymuno diogelu rhag chwyddiant; sicrhau incwm cymedrol; ac amrywio ein cronfeydd er mwyn lleihau'r risg o golli cyfalaf a/neu refeniw.

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu buddsoddi moesegol cynhwysfawr tuag at fuddsoddiadau. Credwn y byddai buddsoddi mewn cwmnïau neu sectorau penodol yn gwrthdaro â'n nodau elusennol yn ein barn ni, neu y gallent beri niwed i'n henw da. Nid ydym yn dymuno elwa'n uniongyrchol gan neu ddarparu cyfalaf ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn cyd-fynd â'n nodau elusennol, felly rydym yn gwahardd yn benodol buddsoddiad mewn cwmnïau sy'n sicrhau dros 10% o'u refeniw gan: tybaco, alcohol, gamblo, pornograffi, benthycu ar gyfradd llog uchel, arfau rhyfel a ffrwydrion tir, a chloddio am lo thermol neu

dywodydd olew. Nid ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n destun ymchwiliadau neu y'u canfuwyd yn euog o efadu trethi neu wyngalchu arian dros y dair blynedd ddiwethaf.

Efallai y byddwn yn buddsoddi mewn cwmnïau y mae eu gweithgareddau yn cyd-fynd â'n nodau elusennol neu y mae'n eu cefnogi. Disgwyliwn i gwmnïau y byddwn yn buddsoddi ynddynt ddangos arferion cyflogaeth a llywodraethu corfforaethol cyfrifol, gan fod yn gydwybodol mewn perthynas â materion amgylcheddol a chymdeithasol, a chan ddelio â chwsmeriaid a'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt mewn ffordd deg. Yn ogystal, efallai y byddwn yn defnyddio ein sefyllfa fel buddsoddwr er mwyn dylanwadu ar ac ymgysylltu ag ymddygiad corfforaethol y cwmnïau hynny yr ydym yn buddsoddi ynddynt mewn ffordd weithredol.

Dim ond trwy reolwyr cronfa sy'n dangos y cymwysterau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) cryfaf y byddwn yn buddsoddi. Wrth benodi rheolwyr cronfa, byddwn yn ystyried sut y maent yn cynnwys asesiad o berfformiad cwmnïau ynghylch materion ESG yn eu proses er mwyn dethol stoc.

Ar ddiwedd 2019, barnwyd bod ein cronfeydd dan reolaeth yn werth £54.8 miliwn o'i gymharu â £50 miliwn, sef y swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol. Llwyddom i sicrhau elw o 10.5% yn 2019 o'i gymharu â tharged o 3.3%.

Buddsoddom £0.6 miliwn ar ffurf cyfalaf cyfrannau yng Ngwasanaeth Rhyngwladol CMC Cyfyngedig, is-gwmni masnachol CMC, ar ddiwedd 2016. Barnwyd bod ein buddsoddiad ar ddiwedd 2019 yn werth £0.2 miliwn.

Caiff unrhyw arian parod dros ben na chaiff ei ddal fel cyfalaf gweithio neu ei fuddsoddi, ei ddal mewn cyfrifon cadw tymor canolig a/neu gyfrifon sy'n cynnig llog. Sicrhaom llog o £0.4 miliwn ar ein balansau ariannol, sy'n cyfateb â chyfradd elw flynyddol gyfartalog o 0.89%.

Mae'n cyfrifon yn 2019 yn dangos y swm ariannol sy'n ofynnol ar gyfer cyfalaf gweithio dydd-i-ddydd arferol ar ein mantolen o fewn asedau cyfredol, a dangosir arian parod sy'n cael ei ddal ar gyfer y tymor hwy fel buddsoddiadau.

Gwasanaeth Rhyngwladol CMC Cyfyngedig

Corfforwyd yr is-gwmni masnachol fel cwmni preifat cyfyngedig gan gyfranddaliadau ar 16 Rhagfyr 2016. Mae'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr CMC ac mae'n darparu gwasanaethau masnachol, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddi ac achredu. Un o'i brif amcanion yw cyflwyno ffrydiau refeniw newydd ac felly, lleihau dibyniaeth CMC ar adnoddau ariannol craidd. Bydd yn gwneud hyn trwy roi ei elw yn ôl i CMC at ddibenion cyflawni nodau elusennol CMC.

Buddsoddodd CMC £0.6 miliwn ar ffurf cyfalaf cyfrannau yn GMCSI. Yn 2017 a 2018, roedd GMCSI wedi gwneud colled net o £396,945, ac elw o £21,185 yn 2019, felly ni ddychwelwyd unrhyw elw i CMC ar ffurf rhodd cymorth. Ar ddiwedd 2019, roedd gan GMCSI asedau net o £224,241. Rhagamcanir y bydd GMCSI yn sicrhau elw pellach dros y tymor canolig.

Mae'r cyfrifon a gyflwynir yma yn gyfrifon grŵp cyfunol sy'n cynnwys ein his-gwmni masnachol, GMCSI. Mae'r cyfrifon yn dangos colofnau ar wahân sy'n nodi sefyllfa'r grŵp (CMC a GMCSI gyda'i gilydd) a sefyllfa'r elusen rhiant (CMC). Paratowyd cyfrifon cwmni ar wahân ar gyfer GMCSI.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig* (Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig). Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n cynnig darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'r grŵp a'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau'r grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u gweithredu mewn ffordd gyson
- arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion yn y *SORP Elusennau*
- ffurfio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn unol ag unrhyw achosion o wyro o bwys yn cael eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn esbonio trafodion yr elusen ac sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â *Deddf Elusennau 2011*, *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008*, *Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005*, *Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006* (fel y'u diwygiwyd), Cyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd dan *Ddeddf Meddygol 1983 a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen*. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp ac felly, cymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Trafodion partïon cysylltiedig

Rhaid i bob ymddiriedolwr ac uwch reolwr ddatgelu manylion unrhyw sefydliadau y maen nhw (ac aelodau teuluol agos a phartneriaid busnes) yn cyflawni rôl o awdurdod ynddynt neu y mae ganddynt fudd perthnasol arall ynddynt, ac y gallai eu busnes arwain at sefyllfa lle y byddent yn cael cyswllt ariannol â CMC. Rhaid datgelu manylion unrhyw drafodion go iawn rhwng CMC a phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn hefyd. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi cofrestr buddiannau ar ein gwefan.

Yn ystod 2019, gwnaethpwyd yr holl ddatgeliadau ac nid oedd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder.

Adroddiad y Pwyllgor Risg ac Archwilio 2019

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cyflawni rôl allweddol yn ein strwythur llywodraethu. Mae'r Pwyllgor yn cynnig sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- uniondeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg
- darpariaeth y gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn monitro ein polisïau gwrth-dwyll ac unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ac mae'n adolygu'r trefniadau er mwyn mynegi pryderon, gan gynnwys gwaith y Gwarcheidwad Rhyddid i Godi Llais, rôl a gyflwynwyd i CMC ym mis Mawrth 2019.

Mae'r Pwyllgor yn seilio'i gyngor a'i benderfyniadau ar ganllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a phan fo hynny'n briodol, ar gyngor allanol annibynnol.

Yn ystod 2019, roedd saith aelod ar y Pwyllgor – pump o aelodau'r Cyngor a dau aelod cyfetholedig²⁹. Mae aelodau cyfetholedig, neu annibynnol, yn datblygu gwaith y Pwyllgor trwy ddwyn sgiliau a phrofiad ychwanegol gwerthfawr i'r gwaith craffu a herio annibynnol ynghylch cyllid, risg a llywodraethu. Yn unol ag arfer llywodraethu da, rydym wedi cyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer aelodau annibynnol erbyn hyn, a gynhelir gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Yn dilyn ymadawiad John Morley, aelod allanol, ar ôl iddo gyrraedd diwedd ei gyfnod o wyth mlynedd yn y swydd, ymunodd Kenneth Gill â'r Pwyllgor fel aelod cyfetholedig newydd ym mis Medi.

Yn 2019, cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith a chyflwynodd ddau adroddiad ffurfiol am ei waith a'i ganfyddiadau i'r Cyngor. Yn ogystal, cafodd aelodau'r Pwyllgor y cyfle i ddysgu mwy am feysydd penodol o'r busnes a'u risgiau, a'u craffu, yn ystod chwe sesiwn seminar.

Gweithgareddau allweddol yn ystod 2019

Mae'r Pwyllgor yn parhau i ddefnyddio risg fel sail ei ddull gweithredu mewn perthynas â throsolwg a chraffu. Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng edrych ar risgiau a materion yn y dyfodol, ac adolygiadau ôl-weithredol o waith archwilio, er mwyn cael sicrwydd ynghylch systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Yn ystod 2019, roedd y Pwyllgor wedi:

- trafod ystod eang o risgiau strategol er mwyn cynnig cefndir pwysig i'w ddealltwriaeth o'r sialensiau a'r cyfleoedd y mae CMC yn eu hwynebu a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar

²⁹Gweler tudalen 49.

draws y sefydliad i leihau bygythiadau a gwella cyfleoedd gymaint ag y bo modd

- herio'r gofrestr cyfleoedd corfforaethol a risg yn ystod pob cyfarfod
- cynnal seminar ynghylch risg ar gyfer y Cyngor, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd lle'r oedd llywodraethu, systemau rheoli ac arferion ariannol gwael wedi arwain at fethiant sefydliadol mewn cyd-destunau eraill.
- parhau i roi cymorth parhaus ar gyfer aeddfedrwydd risg yn unol ag egwyddorion rheoli risg mewn ffordd effeithiol, a nodir yn y safon canllawiau rhyngwladol (ISO 31000:2009)
- goruchwyllo darpariaeth rhaglen archwilio mewnol 2019
- craffu'r holl ganfyddiadau archwilio er mwy teimlo'n fodlon bod y camau gweithredu a gynigiwyd yn briodol, a monitro gweithrediad argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol gan uwch reolwyr
- cymeradwyo llythyr ymgysylltu yr archwiliad allanol, craffu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018 ac adolygu canlyniad gwaith yr archwilydd allanol am y datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol
- comisiynu prawf annibynnol o drefniadau rheoli diogelwch seiber CMC ac adolygiad annibynnol o drefniadau CMC er mwyn cydymffurfio gyda BS 10008 – y safon ar gyfer Derbynioldeb Cyfreithiol a Phwysau Tystiolaethol Gwybodaeth Electronig – y daeth CMC yn hollol achrededig iddo yn 2016
- adolygu'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd o waith a gynhaliwyd mewn perthynas â digwyddiadau niweidiol arwyddocaol.

Rheoli risg

Prif amcan CMC yw cadw'r cyhoedd yn ddiogel ac rydym yn gweithio gyda meddygon i wneud hyn. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithredu mewn tirlun gofal iechyd a rheoliadol cymhleth. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i ni weithio gydag eraill fel ein bod yn rheoli risgiau a goblygiadau digwyddiadau allanol a gweithgareddau mewnol mewn ffordd sensitif.

Ond gyda risg, daw cyfle: cyfrannu i drafodaeth allanol gyda phartneriaid a'r Llywodraeth, ac i wella'r ffordd yr ydym yn cynnal ein gweithgareddau yn gyson, fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn effeithlon ac yn canolbwyntio ar ein nodau cyffredinol.

Mae meddwl ynghylch risg yn rhan annatod o'n trafodaethau a'n gweithrediadau ar bob lefel yn y busnes. Mae nodi, monitro a rheoli risgiau prosiect a risgiau gweithredol lleol mewn ffordd weithredol trwy gyfrwng cofrestrau risg ac uwchgyfeirio i'r Bwrdd Gweithredol am weithredu yn ôl yr angen, yn cynorthwyo ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau sy'n codi mewn amgylchedd allanol anodd.

Cyhoeddir ein cofrestr risg a chyfleoedd gorfforaethol ar ein gwefan yn rheolaidd, trwy gyfrwng adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cyngor³⁰.

Rheoli risg yn ystod 2019

Trwy gydol 2019, roeddem wedi parhau i reoli risgiau a chyfleoedd parhaus, yn ogystal ag ymateb i'r rhai a ddaeth i'r amlwg trwy gydol y flwyddyn.

Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau

Yn 2019, cwblhawyd tri adolygiad annibynnol mawr a gomisiynwyd gennym fel rhan o raglen *Cynorthwyo proffesiwn dan bwysau*. Gallwch ddarllen mwy am yr adolygiadau hyn o dudalen 14, gan gynnwys sut y maent wedi gwella ein dealltwriaeth o'r amgylcheddau y mae meddygon yn gweithio ynddynt, a'r hyn yr ydym yn ei wneud i roi sylw i'r prif faterion a godwyd.

Lansiom y rhaglen waith bwysig hon yn 2018 fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn rheolydd mwy rhagweithiol. Ac mae'r adolygiadau hyn yn cyd-fynd â thair ffrwd waith arall sy'n rhan o'r rhaglen hon, gan gynnwys:

- gweithio gyda phartneriaid ar draws y gwasanaethau iechyd i sicrhau bod meddygon yn ystod pob cam o'u gyrfa yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a gweithredu yn eu cylch
- ehangu a gwella'r cymorth ymsefydlu a dychwelyd i'r gwaith ar gyfer meddygon a hyfforddeion, megis gweithdai *Croeso i Arfer yn y DU*³¹
- cyflwyno rhaglen o hyfforddiant ffactorau dynol ar gyfer ein harchwilwyr achos addasrwydd i wneud gwaith meddygol, a'r arbenigwyr meddygol a ddefnyddir yn ein prosesau addasrwydd i wneud gwaith meddygol³².

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ragwelwyd trwy'r rhaglen waith hon, ni allwn weithio ar ein pen ein hunain. Yn ystod rhan olaf 2019, dechreuom gydweithio'n agos gydag eraill yn y system, ar draws pedair gwlad y DU, i archwilio'r cyfleoedd er mwyn sicrhau newid parhaol i gleifion a meddygon. Byddwn yn parhau i roi ffocws allweddol ar hyn yn ein gwaith yn 2020.

Monitro a rheoli effaith Brexit

Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cael effaith sylweddol ar y gwaith o reoleiddio meddygon, eu symudiadau a'u haddysg, a bydd goblygiadau ar gyfer gweithlu meddygol y DU hefyd.

Mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit wedi bod yn her fawr i ni. Trwy gydol 2019,

³⁰Gweler www.gmc-uk.org/about/how-we-work/governance/council/council-papers.

³¹ Gweler tudalen 19.

³² Gweler tudalen 19.

parhaom i fonitro a rheoli'r risg hwn trwy gynllunio ar gyfer amrediad o sefyllfaoedd.

Un her ymarferol fu'r cynnydd amlwg parhaus yn nifer y graddedigion meddygol rhyngwladol sy'n ceisio ymuno â chofrestr feddygol y DU. Felly roeddem wrth ein bodd o gael agor ein Canolfan Asesu Clinigol newydd ym mis Awst er mwyn ymateb i'r galw cynyddol hwn³³.

Fel y disgrifir ar dudalen 31, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried sut y gall deddfwriaeth fwy hyblyg helpu'r system a'r prosesau lle y gall meddygon rhyngwladol ymuno â chofrestr feddygol y DU mewn ffordd fwy effeithlon ac ymatebol.

Gweithio tuag at gyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol³⁴

Mae'r gwaith er mwyn cyflwyno Asesiad Trwyddedu Meddygol (ATM) wedi parhau trwy gydol 2019, ac erbyn hyn, mae gennym lasbrint ar gyfer y prawf gwybodaeth gymhwysol. Rydym wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Arbenigwyr hefyd, yr ydym yn cydweithio'n agos gydag ef, a gyda rhanddeiliaid allweddol, i roi sylw i'r risgiau a'r cyfleoedd wrth ddatblygu manylion ATM. Mae'r cydweithio hwn yn hollbwysig i ni er mwyn i ni gyflawni ein huchelgais o gael mwy o sicrwydd bod meddygon sy'n ymuno â'r gofrestr yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i wneud gwaith meddygol ac i ddarparu gofal diogel yn y DU.

Archwilio cymwysterau meddygon sy'n dilyn llwybr y Gymanwlad

Mae rheoli risg mewn ffordd effeithiol yn cynnwys gallu sefydliad i adfer pan fydd problem yn codi.

Ar ddiwedd 2018, canfuom bod unigolyn (Zholia Alemi) wedi gallu ymuno â'r gofrestr pan ddefnyddiodd ddogfennau twyllodrus ym 1995.

Ymatebom i'r achos hwn yn syth, gan wneud gwaith rhagweithiol gyda phartneriaid ar draws pedair gwlad y DU, a sefydlu llinell gymorth i gleifion neu aelodau'r cyhoedd yr oeddent yn dymuno cael gwybodaeth, cyngor neu gymorth.

Yna, cynhaliom adolygiad o gymwysterau 3,117 o feddygon trwyddedig, yr oeddent, fel Alemi, wedi ymuno â'r gofrestr gan ddefnyddio 'llwybr y Gymanwlad', y mae bellach wedi cael ei ddiddymu. Gan weithio mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn Addysgol ar gyfer Graddedigion Meddygol Tramor, archwiliom gymwysterau'r holl feddygon trwyddedig yr oeddent wedi cofrestru trwy ddilyn y llwybr hwn. Canfuom bod eu holl brif raddau meddygol yn ddilys.

Rydym yn hyderus bod ein trefniadau presennol, gan gynnwys ein trefniadau i ddilysu cymwysterau meddygol yn ôl eu prif ffynhonnell, yn gadarn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni barhau i fod yn wylidwrs fel bod ein gweithgareddau, ein prosesau a'n gweithgarwch ymgysylltu yn sicrhau diogelwch y cyhoedd a hyder y cyhoedd mewn tirlun gofal iechyd cymhleth ac sy'n newid drwy'r amser.

³³ Gweler tudalen 39 am ragor o wybodaeth.

³⁴ Gweler tudalen 21 am ragor o wybodaeth.

Ymateb i ymchwiliadau cyhoeddus

Mae ymchwiliadau ac adolygiadau yn ein helpu i fyfyrio am ein systemau a'n harfer, gan nodi gwrs i ni ac i'r system gyfan.

Yn ystod 2019, ymatebom i nifer o ymchwiliadau cyhoeddus pwysig, gan gynnwys:

- datgelu deunydd a datganiad tystion i'r Ymchwiliad Gwaed Heintiedig
- ymgysylltu'n agos gyda'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon a rhanddeiliaid perthnasol ynghylch gweithrediad arfaethedig dyletswydd gonestrwydd gyda chosb droseddol yng Ngogledd Iwerddon yn dilyn yr Ymchwiliad i Farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â Hyponatraemia
- paratoi adroddiad adolygiad dysg ar gyfer yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant yn yr Alban
- darparu deunydd i Ymchwiliad Paterson, a fu'n adolygu'r amgylchiadau ynghylch camymddygiad Ian Paterson.

Fel sefydliad sy'n gwrando ac sy'n dysgu, byddwn yn parhau i gynorthwyo ymchwiliadau ac adolygiadau yn y gwaith y maent yn ei wneud, gan ddarparu cymaint o gymorth a gwybodaeth ag y bo modd.

Y tu hwnt i 2019

Wrth i ni fwrw golwg ymlaen i'n strategaeth gorfforaethol nesaf yn 2021, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gallu rhannu ein llais yn yr amgylchedd gofal iechyd ehangach mewn ffordd hyderus, gan weithio gyda phartneriaid o fewn system gyfan y DU i ddylanwadu ar a dwyn newid go iawn i gleifion a meddygon.

Rydym yn gweithredu mewn byd allanol dynamig ac sy'n gynyddol gymhleth, felly mae'n hanfodol i ni fod yn hyblyg ac yn ystwyth yn ein dull wrth ddelio gyda risgiau. Ac er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i sicrhau gofal o ansawdd uchel i gleifion, rhaid i ni barhau i ragweld newid, gwrando a dysgu, a herio ein hunain i fanteisio ar bob cyfle.

Mae'r pandemig cyfredol wedi dangos yn glir bod angen i'n strategaeth a'n gweithgareddau gweithredol fod yn hyblyg ac yn sionc. Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld yr hyn a oedd yn ymddangos yn risg annhebygol iawn yn digwydd mewn ffordd nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, ac mae'r effaith wedi newid bywydau cymdeithasol, teuluol a gweithio y tu hwnt i adnabyddiaeth.

Wrth ymateb i COVID-19, rydym wedi dangos ein bod yn rheolydd cydnerth, yn gallu ymateb yn gyflym i anghenion ein pobl, y meddygon yr ydym yn eu rheoleiddio a'r cleifion yr ydym yn eu gwasanaethu. Yn y byd allanol hwn sy'n gynyddol ansicr, cymhleth a dynamig, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fod yn wiliadwrus o risgiau parhaus ac sy'n dod i'r amlwg. Ac er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i ofal o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, rhaid i ni barhau i ragweld newid, gwrandao a dysgu, a herio ein hunain i fanteisio ar bob cyfle.

Cymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr [ar 8 Gorffennaf 2020](#) ac fe'u llofnodir ar eu rhan gan:



Bonesig Clare Marx

Cadeirydd y Cyngor

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn cynnig darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r elusen rhiant ar 31 Rhagfyr 2019 ac o adnoddau'r grŵp sy'n dod i mewn a gweithrediad ei adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno;
- wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005 a Rheoliadau 6 ac 8 Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 (diwygiwyd).

Sail dros y farn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Rhoddir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moesegol FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn bod y dystiolaeth archwilio a sicrhawyd gennym yn ddigonol ac yn briodol er mwyn cynnig sail dros ein barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'r ISAs (DU) yn mynnu ein bod yn adrodd i chi yn eu cylch:

- pan na fydd defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail gyfrifyddu fel busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau yn briodol; neu
- pan na fydd yr ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a nodwyd ac y gallent godi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r grŵp neu'r elusen rhiant i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n ymddangos yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd amdanynt. Nid yw'n barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n cynnig sicrwydd amdanynt.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall, a thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol mewn ffordd o bwys neu ei bod yn ymddangos bod ein gwybodaeth ni a sicrhawyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi cael ei chamfynegi mewn ffordd o bwys. Os byddwn yn nodi anghysondebau o bwys o'r fath neu gamfynegiadau o bwys amlwg, mae gofyn i ni benderfynu a oes camfynegi o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamfynegi o bwys yn y wybodaeth arall. Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gennym, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camfynegi o bwys o ran y wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn am faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a gynhaliwyd yn ystod ein harchwiliad

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwyswyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae gofyn i ni adrodd amdanynt trwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr a gynhwysir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle y mae Deddf Cwmnïau 2006 a Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 yn mynnu ein bod yn adrodd i chi:

- os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol a chywir yn ein barn ni; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno gyda'r adroddiadau a'r cofnodion cyfrifyddu yn ein barn ni; neu
- os na wneir datgeliadau penodol am dâl ymddiriedolwyr yn ein barn ni, y mae'r gyfraith yn nodi bod gofyn iddynt gael eu gwneud; neu
- os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 64, mae'r ymddiriedolwyr (y maent yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau hefyd) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am deimlo'n fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn galluogi gweithgarwch i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu y grŵp a'r elusen rhiant i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, pan fo hynny'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu dirwyn yr elusen i ben neu orffen gweithrediadau, neu os nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilydd dan adran 44(1)(c) Charities and Trustee Investment (Scotland) Act 2005 a than Ddeddf Cwmnïau 2006 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a rheoliadau perthnasol a wnaethpwyd oddi tanynt neu sy'n cael effaith oddi tanynt.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd rhag camfynegi o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o ran sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (DU) wastad yn canfod camfynegi o bwys pan fydd yn bodoli. Gall achosion o gamfynegi ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn achosion o bwys pe byddai'n rhesymol disgwyl y byddent, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, yn dylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae modd gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad ein harchwilydd.

Defnydd o'n hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006, ac i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rheoliad 10 Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i aelodau ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a hynny heb fod am unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r cwmni elusennol, aelodau'r cwmni elusennol fel corff ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, dros ein gwaith archwilio, dros yr adroddiad hwn, neu'r barnau yr ydym wedi'u ffurfio.

Naziar Hashemi
Archwilydd Statudol Uwch
Dros ac ar ran
Crowe U.K. LLP
Archwilydd Statudol
St Bride's House
10 Salisbury Square
Llundain
EC4Y 8EH

Cyfrifon 2019

Datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol

	Nodyn	Cyfanswm 2019 £'000	Cyfanswm 2018 £'000
Incwm			
O weithgareddau elusenol			
Cofrestru	2	103,258	103,966
Cofrestriadau arbenigol a Meddygon Teulu	2	3,828	3,531
Ailddilysu	2	173	172
Gweithgareddau masnachu eraill	3	264	142
Gweithrediadau masnachu masnachol	3	494	198
Buddsoddiadau	3	5,722	1,166
Cyllid gan yr Adran Iechyd - MAPS *	3	220	-
Arall	3	400	707
Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn		114,359	109,882
Gwariant			
Codi arian			
Gweithrediadau masnachu masnachol	5	473	535
Costau rheoli buddsoddiadau	5	142	30
		615	565
Gweithgareddau elusenol			
Addasrwydd i wneud gwaith meddygol		43,918	43,480
Cofrestru ac ailddilysu		28,127	22,781
Perthnasoedd allanol		16,435	14,629
Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol		12,971	12,146
Addysg		10,392	9,177
Safonau		1,880	1,878
Cyllid gan yr Adran Iechyd - MAPS		220	-
Cyfanswm y gwariant	5	114,558	104,656
(Colled Net)/Incwm net		(199)	5,226

Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill

Ennill/(colled) actiwaraid ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	16	(24,826)	14,432
Symud net mewn cronfeydd		(25,025)	19,658
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen		97,606	77,948
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		72,581	97,606

Corfforodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol is-gwmni masnachol yn ei lwyr berchnogaeth ar 16 Rhagfyr 2016, gyda'r diben o ddarparu gwasanaethau masnachol gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant ac achredu. Mae'r Elusen wedi manteisio ar eithriad rhag cyflwyno'i chyfrif elw a cholled anghyfunol. Y symudiad cronfeydd ar gyfer yr elusen yn ystod y flwyddyn yw £25,025,000.

* Darparodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) gyllid yn ystod 2019 ar gyfer astudiaeth gwmpasu i ddatblygu fframwaith er mwyn rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia. Roedd natur y cyllid yn gyfyngedig, ac fe'i wariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn, felly yr effaith net ar gronfeydd wrth gefn CMC yw dim. Mae holl gronfeydd wrth gefn CMC ar ddiwedd y flwyddyn yn anghyfyngedig.

Mantolen

		2019		2018
	Nodyn	Grŵp £'000	Elusen £'000	Grŵp £'000
Asedau sefydlog				
Asedau anniriaethol sefydlog	7	9,744	9,744	9,252
Asedau diriaethol sefydlog	8	9,254	9,254	5,113
Buddsoddiadau	9	65,049	65,273	60,758
		84,047	84,271	75,123
Asedau cyfredol				
Dyledwyr a rhagdaliadau	10	21,149	21,045	19,296
Balansau banc ac arian		30,667	30,350	40,963
		51,816	51,395	60,259
Rhwymedigaethau				
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn	11	(71,394)	(71,197)	(67,514)
Rhwymedigaethau cyfredol net		(19,578)	(19,802)	(7,255)
Cyfanswm yr asedau yn llai rhwymedigaethau cyfredol		64,469	64,469	67,868
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	12	(1,279)	(1,279)	(1,569)
Asedau net heb gynnwys ased y cynllun pensiwn		63,190	63,190	66,299
Ased cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	16	9,391	9,391	31,307
Cyfanswm yr asedau net		72,581	72,581	97,606
Cronfeydd incwm anghyfyngedig		63,190	63,190	66,299
Cronfa wrth gefn pensiynau		9,391	9,391	31,307
Cyfanswm y cronfeydd	13	72,581	72,581	97,606

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr ymddiriedolwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 8 Gorffennaf 2020.

Fe'u llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr gan:



Bonesig Clare Marx
Cadeirydd y Cyngor

Datganiad llif arian cyfunol

	2019 £'000	2018 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredol:		
Arian net a ddarparwyd gan/(defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol (nodyn i isod)	1,335	
Llif arian o weithgareddau buddsoddi:		
Difidendau, llog a rhenti gan fuddsoddiadau	443	735
Prynu eiddo, cyfarpar, offer ac eitemau annirweddol	(12,074)	(7,220)
Arian net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi	(11,631)	
Newid mewn arian a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod	(10,296)	
Nodyn (i)		
Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Adnoddau net sy'n dod i mewn/(mynd allan)	(199)	
Incwm buddsoddi a llog	(1,394)	
Symud buddsoddi net	(4,291)	
Eitemau anariannol – dibrisiant ac amorteiddio	7,415	
Eitemau anariannol – asedau a ddilëwyd	26	
Cost a byrhad pensiwn am y gwasanaeth a roddwyd	-	
Cost gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn	-	
Cyfraniad i'r cynllun pensiwn	(1,959)	
Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr	(1,853)	
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau	3,590	
Arian net a ddarparwyd gan (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol	1,335	
Nodyn (ii)		
Arian a chyfwerthoedd		
	Blaendaliadau tymor byr £'000	Arian yn y banc ac mewn llaw £'000
Balansau ar 1 Ionawr 2019	0	40,963
Gostyngiad net mewn arian a chyfwerthoedd arian	0	(10,296)
Balansau ar 31 Rhagfyr 2019	0	30,667

Nodiadau i'r cyfrifon

Datgelir y ffurf gyfreithiol a swyddfa gofrestredig CMC ar dudalen gyfeirio a gweinyddu Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

1. Prif bolisiau cyfrifyddu

i. Confensiwn cyfrifyddu

- Paratowyd y datganiadau ariannol er mwyn cynnig darlun 'cywir a theg' ac maent wedi gwyro o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol er mwyn darparu darlun 'cywir a theg'. Mae'r gwyriad hwn wedi cynnwys dilyn y SORP Elusennau (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014, yn hytrach na Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir a oedd mewn grym o 1 Ebrill 2005 ac y mae bellach wedi cael ei dynnu'n ôl.
 - Paratowyd ein datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac yn unol â'r Datganiad Elusennau o'r Arfer a Argymhellir (FRS 102), sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, Deddf Elusennau 2011, Charities and Trustee Investment (Scotland) 2005, Charities Accounts (Scotland) Regulations 2006 a'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU sy'n berthnasol o 1 Ionawr 2015. Mae CMC yn bodloni diffiniad 'endid er budd y cyhoedd' dan FRS 102.
 - Adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, mae feirws COVID19 yn parhau i ddatblygu ac mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi ei ddynodi yn bandemig byd-eang. Daw mwyafrif ein hincwm o'r ffioedd cofrestru a delir gan feddygon. Rhaid i bob meddyg gofrestru gyda ni er mwyn gwneud gwaith meddygol yn y DU, felly mae'n hincwm yn gymharol sicr. Er gwaethaf yr amgylchiadau presennol, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i fod o'r farn bod CMC yn fusnes gweithredol hyd y gellir rhagweld, ac ni cheir unrhyw ansicrwydd o bwys ynghylch gallu yr elusen i barhau fel busnes gweithredol.
- ii. Ar 16 Rhagfyr 2016, corfforodd CMC is-gwmni masnachol, Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd, rhif cwmni 10530157, sy'n eiddo i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn llwyr ar ffurf cyfalaf cyfrannau.
- iii. Isod, nodir manylion y prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a weithredwyd mewn ffordd gyson.

Adnoddau sy'n dod i mewn

Caiff incwm ei gynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol:

- Hawl – rheolaeth dros yr hawliau neu fynediad arall er budd economaidd wedi'i drosglwyddo i CMC

- Tebygolrwydd – mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd y buddion economaidd yn llifo i CMC
- Mesur – mae modd mesur y gwerth mewn ffordd ddibynadwy

Mae'r polisiau penodol canlynol yn berthnasol.

- Mae taliadau cadw blynyddol yn ymwneud â gwasanaethau i'w darparu dros gyfnod o 12 mis. Caiff incwm ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r incwm yn ymwneud ag ef.
- Caiff ffioedd cofrestru, gan gynnwys ffioedd cofrestru amodol, eu cydnabod pan ddyfarnir cofrestriad.
- Caiff ffioedd y Bwrdd Asesiadau Ieithyddol a Phroffesiynol (PLAB) eu cydnabod pan fydd arholiadau'n cael eu sefyll.
- Caiff incwm gan fuddsoddiadau a chronfeydd a gedwir ar adnau ei gydnabod pan fydd yn dderbyniadwy ac mae modd mesur y swm yn fanwl.

Cydnabyddir yr holl incwm fel incwm gros.

Y sail ar gyfer cydnabod rhwymedigaethau

Mae gwariant yn cynnwys costau staffio, costau swyddfa, costau pwyllgor, costau cyfreithiol, costau llety, prynu asedau a chostau ariannol, actiwaraidd a phroffesiynol.

Caiff adnoddau a ddefnyddiwyd eu cynnwys yn y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail gronadol. Cydnabyddir yr holl rwymedigaethau cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol yn ymrwmo'r elusen i'r gwariant.

Y sail ar gyfer neilltuo adnoddau i'w defnyddio

Caiff mwyafrif ein hadnoddau eu gwario yn uniongyrchol wrth ganlyn ein nodau elusennol, ac fe'u nodir felly yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Caiff costau llety, costau llywodraethu a chostau cymorth eraill eu dosbarthu i weithgareddau elusennol ar sail cyfrifiad o'r staff ar draws y sefydliad.

TAW anadferadwy

Caiff unrhyw TAW anadferadwy ei godi ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol fel rhan o eitem berthnasol y gwariant, neu caiff ei gyfalafu fel rhan o gost yr ased cysylltiedig pan fo hynny'n briodol.

Treth

Gallwn fanteisio ar yr eithriadau rhag treth ar incwm ac enillion sydd ar gael i elusennau, felly ni chaiff unrhyw dreth ei thalu ar yr adnoddau net sy'n dod i mewn.

Dyledwyr

Fel arfer, caiff dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill eu cydnabod yn unol â'r swm setlo sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ostyngiad masnachu a gynigir. Fel arfer, caiff rhagdaliadau eu prisio yn unol â'r swm a ragdalwyd sy'n net o unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

Credydwyr a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rhwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Fe'u cydnabyddir pan fydd hi'n debygol y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Fel arfer, caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod yn unol â'u swm setlo ar ôl ystyried unrhyw ostyngiadau masnach sy'n ddyledus.

Barnau cyfrifyddu allweddol a ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif

Mae ffynonellau allweddol ansicrwydd wrth amcangyfrif sy'n cael effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn:

Adolygir yr holl hawliadau am gostau cyfreithiol a wneir yn erbyn CMC, ac nad ydynt wedi cael eu setlo, fesul achos ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff darpariaethau eu seilio ar brofiad hanesyddol ac asesiad manwl o fanylion penodol achosion cyfredol. Mae setliad terfynol achosion yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, felly mae cywirdeb y ddarpariaeth yn destun swm sylweddol o ansicrwydd.

Caiff darpariaethau ar gyfer costau adfeilio eiddo eu hasesu fesul achos, yn agos at y dyddiad pan fydd y brydles yn dod i ben a phan fydd modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r costau.

Mae darpariaethau ar gyfer tâl gwyliau yn seiliedig ar lefel go iawn y diwrnodau cronedig a chyflogau pob aelod o staff.

Asedau diriaethol sefydlog

Caiff asedau diriaethol sefydlog eu datgan yn ôl y gost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

Asedau anniriaethol sefydlog

Mae asedau anniriaethol sefydlog yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol. Fe'u nodir yn ôl eu cost, net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond pan fo cost yr ased neu grŵp yr asedau a gaffaelwyd yn uwch na £5,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

Dibrisiant

Darparir dibrisiant er mwyn dileu cost, yn llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, yr asedau mewn ffordd gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Yn achos asedau dan brydles, caiff y gost ei dileu dros gyfnod y brydles. Pennir cyfnod y brydles fel y cyfnod nes y cymal terfynu cyntaf, oni bai nad ydym yn bwriadu arfer y terfynu.

Mae'r oes ddefnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

- Adeiladau lesddaliadol a gwelliannau lesddaliadol – cyfnod y brydles neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased.
- Dodrefn, ffitiadau a gosodiadau swyddfa – pum mlynedd neu gyfnod y brydles sy'n weddill, pa un bynnag yw'r lleiaf.
- Offer Technoleg Gwybodaeth (TG) a meddalwedd – tair blynedd.
- Asedau anniriaethol: (meddalwedd TG) – tair blynedd.
- Offer swyddfa arall – tair blynedd ar gyfer eitemau sy'n gysylltiedig â TG a phum mlynedd ar gyfer yr holl eitemau eraill.

Adolygir cyfraddau dibrisiant yn rheolaidd, gan gymharu hyd oes go iawn asedau gyda'r cyfraddau yn y polisi cyfrifyddu.

Prydlesi gweithredol

Codir y rhent sy'n daladwy dan brydlesi gweithredol ar y datganiad o'r gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Offerynnau ariannol

Mae gan yr elusen asedau a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n eu gwneud yn gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn ôl eu gwerth trafod yn y lle cyntaf a'u mesur yn ôl y gost wedi'u hamorteiddio wedi hyn. Mae asedau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian a balansau yn y banc, adneuon tymor byr, buddsoddiadau sy'n cael eu dal mewn adneuon arian gyda masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl y gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys masnach a chredydwyr eraill, credydwyr nawdd cymdeithasol a threth a chroniadau.

Buddsoddiadau

Mae'n polisi buddsoddi yn rhannu ein cronfeydd yn bedwar categori: y rhai sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd; y rhai y byddwn yn eu buddsoddi dan reolaeth; y rhai y byddwn yn penderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachol efallai; a'r balans ariannol sy'n weddill sy'n amrywio yn ystod y flwyddyn.

Dangosir cronfeydd sy'n cael eu dal fel arian ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i

ddydd ym mantolen CMC o fewn yr asedau cyfredol, a dangosir cronfeydd sy'n cael eu dal ar gyfer y tymor hwy fel buddsoddiadau.

Pensiynau

Mae gennym gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer cyflogaion parhaol. Caewyd y cynllun i aelodau newydd ar 30 Mehefin 2013, ac ar gyfer cronïadau yn y dyfodol i aelodau presennol ar 31 Mawrth 2018, ac fe'i ddisodlwyd gan gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff gwarged neu ddiffyg y cynllun â buddion wedi'u diffinio ei gydnabod ar y fantolen. Caiff newidiadau i asedau a rhwymedigaethau'r cynllun eu datgelu a'u neilltuo fel a ganlyn:

- Caiff taliadau sy'n ymwneud â chostau gwasanaeth cyfredol neu yn y gorffennol, ac enillion a cholledion ar setliadau a chwtogiadau, eu cynnwys yn y costau staff ac fe'u codir ar y datganiad o weithgareddau ariannol.
- Dangosir llog ar rhwymedigaeth/ased buddion wedi'u diffinio net fel swm net o gostau cyllid eraill neu fel adnodd sy'n dod i mewn law yn llaw gydag incwm a llog buddsoddi. Caiff enillion a cholledion actiwaraid eu cydnabod ar unwaith mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill ar fuddsoddiadau.
- Caiff yr asedau, y rhwymedigaethau a'r symudiadau yng ngwarged neu ddiffyg y cynllun eu cyfrifo gan actiwarïaid annibynnol cymwys fel diweddariad i'r prisiad actiwaraid llawn diweddaraf. Dangosir manylion asedau, rhwymedigaethau a phrif dybiaethau'r cynllun â buddion wedi'u diffinio yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Sefydlwyd ein cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio ar 1 Gorffennaf 2013. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y datganiad gweithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn y maent yn daladwy i'r cynllun.

Mae nifer fach o staff a drosglwyddodd i CMC wrth uno â'r Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol Ôl-raddedig (PMETB) yn cyfrannu at gynllun aml-gyflogwr GIG a chofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y datganiad gweithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn y maent yn daladwy i'r cynllun.

Cronfeydd a chronfeydd wrth gefn

Mae'n cronfeydd yn anghyfyngedig, ac mae modd eu gwario yn unol â disgrisiwn yr ymddiriedolwyr, er mwyn canlyn ein nodau elusennol.

Taliadau terfynu

Rhoddir cyfrif am daliadau terfynu cyn gynted ag y bydd y sefydliad yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth i dalu'r taliad.

2. Incwm gan weithgareddau elusennol

	Cyfanswm 2019 £'000	Cyfanswm 2018 £'000
Cofrestru		
Ffioedd cadw blynyddol	88,179	93,718
Ffioedd cofrestru	4,198	3,441
Ffioedd cofrestru amodol	418	403
Ffioedd PLAB	10,357	6,300
Ffioedd eraill	106	104
	103,258	103,966
Cofrestriadau Meddygon Teulu ac Arbenigol		
Ffioedd tystysgrifau Cwblhau Hyfforddiant	2,680	2,524
Tystysgrif Cymhwysra ar gyfer Cofrestriad Arbenigol/Tystysgrif Cymhwysra ar gyfer ffioedd Cofrestru Meddygon Teulu	1,104	969
Ffioedd eraill	44	38
	3,828	3,531
Ailddilysu		
Datganiad blynyddol ailddilysu	116	114
Asesiad ailddilysu	57	58
	173	172

3. Incwm gan gronfeydd a gynhyrchir

	2019 £'000	2018 £'000
Gweithgareddau er mwyn cynhyrchu cronfeydd		
Gweithgareddau masnachu eraill*	264	
Gweithrediadau masnachu masnachol **	494	
Arall:		
Ffioedd trafodiadau	150	550
Ad-dalu ffioedd cyfreithiol	250	157
	400	
	1,158	
Incwm buddsoddi		
Incwm cyllid arall – cynllun pensiwn (nodyn 16)	951	
Llog banc	443	
Incwm buddsoddi ***	4,328	
	5,722	

Cyllid gan yr Adran Iechyd

Cyllid er mwyn talu'r gwariant ar reoleiddio Gweithwyr Proffesiynol sy'n Gymdeithion Meddygol **** 220

* Mae gweithgareddau masnachu eraill yn cynnwys gwerthu'r gofrestr feddygol, llogi'r Ganolfan Asesu Clinigol yn allanol, ad-dalu costau ymweld ag ysgolion meddygol tramor ac ad-dalu costau staff wedi'u secondio i gyrff allanol.

** Mae incwm o weithrediadau masnachu masnachol yn deillio o Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd, is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr CMC, sy'n darparu gwasanaethau masnachol gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, hyfforddiant ac achredu.

*** Cododd ffioedd rheoli buddsoddi o £142,373 er mwyn sicrhau'r elw o £4,328,000 ar yr incwm buddsoddi.

**** Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi darparu cyllid i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gynnal ymarfer cwmpasu er mwyn deall y gwaith dan sylw a'r costau sydd ynghlwm â rheoleiddio Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anesthesia. Adroddwyd canlyniad yr ymarfer cwmpasu i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mawrth 2020.

4. Offerynnau Ariannol

	Cyfanswm 2019 £'000	Cyfanswm 2018 £'000
Asedau ariannol a fesurir yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio	58,121	96,831
Rhwymedigaethau ariannol a fesurir yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio	14,008	13,312
Offerynnau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl eu gwerth teg	54,765	20,578
Isod, rhoddir crynodeb o incwm, treuliau, enillion a cholledion yr endid mewn perthynas ag offerynnau ariannol:		
Cyfanswm yr incwm ar ffurf llog ar gyfer asesiadau ariannol sy'n cael eu dal yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio	443	735

5. Cyfanswm y gwariant

	Costau staffio uniongyrchol £'000	Costau uniongyrchol £'000	Costau Dynodedig £'000	Cyfanswm 2019 £'000	Cyfanswm 2018 £'000
Gwariant ar:					
Gweithrediadau masnachu masnachol	397	76	-	473	535
Costau rheoli buddsoddiad	-	142	-	142	30
Cyllid gan yr Adran Gyllid - MAPS	175	45	-	220	-
Cyfanswm y gwariant	572	263	-	835	565
Addasrwydd i wneud gwaith meddygol	18,704	7,315	17,899	43,918	43,480
Cofrestru ac ailddilysu	9,683	7,688	10,756	28,127	22,781
Perthnasoedd allanol*	9,137	881	6,417	16,435	14,629
Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	3,911	5,164	3,896	12,971	12,146
Addysg	5,949	414	4,029	10,392	9,177
Safonau	1,069	10	801	1,880	1,878
Cyfanswm y gwariant elusennol	48,453	21,472	43,798	113,723	104,091
Cyfanswm y gwariant grŵp	49,025	21,735	43,798	114,568	104,656

Nodiadau

* Mae perthnasoedd allanol yn cynnwys y gwaith a wneir gan ein Gwasanaeth Cyswllt Rhanbarthol, perthnasoedd strategol, ein swyddfeydd datganoledig, a'n gweithgareddau datblygu rhyngwladol ac Ewropeaidd.

Costau cymorth sy'n cael eu neilltuo i weithgareddau elusennol								
	Rheoli £'000	TG £'000	Adnoddau Dynol £'000	Cyllid £'000	Caffael £'000	Cyfleusterau £'000	Llywodraethu £'000	Cyfanswm 2019 £'000
Addasrwydd i wneud gwaith meddygol	3,469	5,252	2,172	644	184	4,616	1,562	17,899
Cofrestru ac ailddilysu	2,084	3,156	1,305	387	111	2,774	939	10,756
Perthnasoedd allanol*	1,243	1,883	779	231	66	1,655	560	6,417
Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	755	1,143	473	140	40	1,005	340	3,896
Addysg	781	1,182	489	145	41	1,039	352	4,029
Safonau	155	235	97	29	8	207	70	801
Cyfanswm y gwariant elusennol	8,487	12,851	5,315	1,576	450	11,296	3,823	43,798

Nodiadau

Caiff costau cymorth eu neilltuo i weithgareddau elusennol ar sail nifer y staff ar draws y sefydliad.

Gwariant grŵp fesul math:

	Gweithgareddau elusennol	Gwariant ar godi cronfeydd	Cyllid gan yr Adran Iechyd - MAPS	Cyfanswm	Gweithgareddau elusennol	Gwariant ar godi cronfeydd	Cyfanswm
	2019	2019	2020	2019	2018	2018	2018
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau staffio	68,494	397	175	69,066	63,306	299	63,605
Costau swyddfa	2,422	68	45	2,535	2,394	75	2,469
Costau'r cyngor a phwyllgorau	401	1		402	515	3	518
Costau panel ac asesu	16,227			16,227	14,123		14,123
Costau cyfreithiol	4,145			4,145	4,597		4,597
Costau llety	7,267			7,267	5,626		5,626
Costau ariannol, actiwaraid a phroffesiynol	3,952	149		4,101	3,509	188	3,697
Prynu asedau – fe'i codir ar reffeniw	3,374			3,374	2,972		2,972
Asedau a ddilëwyd	26			26	118		118
Dibrisiant	2,337			2,337	2,114		2,114
Amorteiddio	5,078			5,078	4,817		4,817
	113,723	615	220	114,558	104,091	565	104,656

Mae cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn cynnwys:

	2019	2018
Costau prydlesi gweithredol: offer ac eiddo lesddaliadol	3,873	2,847
Ffioedd archwilio	42	48

6. Staff

	2019 £'000	2018 £'000
Cyfanswm y costau ar gyfer yr holl staff		
Cyflogau	52,297	47,501
Costau nawdd cymdeithasol	5,438	4,830
Costau pensiwn – cynllun â buddion wedi'u diffinio	-	1,548
Costau pensiwn – cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio	7,256	5,637
Costau dileu swydd	85	-
Costau staffio eraill	3,990	4,089
	69,066	63,605

Yn ystod y flwyddyn, talodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol daliadau terfynu o £87,000 (2018: £0), ac roedd £0 heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn (2018: £31,000).

	2019	2018
Niferoedd cyfartalog y staff yn ystod y flwyddyn fesul categori		
Addasrwydd i wneud gwaith meddygol	417	403
Cofrestru ac ailddilysu	251	223
Perthnasoedd allanol	149	130
Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	91	81
Addysg	94	83
Safonau	19	18
Llywodraethu a Rheoli	135	120
Adnoddau	197	175
	1,353	1,233
Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd	2	3
	1,355	1,236

Roedd nifer y staff yr oedd cyfanswm eu buddion fel cyflogeion (ac eithrio cyfraniadau i bensiwn cyflogwr) yn perthyn i fandiau cyflog uwch fel a ganlyn:

	2019	2018
CMC		
£60,000-£70,000	57	46
£70,001-£80,000	29	25
£80,001-£90,000	29	19
£90,001-£100,000	7	7
£100,001-£110,000	7	5
£110,001-£120,000	10	11
£120,001-£130,000	6	3
£130,001-£140,000	4	5
£140,001-£150,000	2	-
£150,001-£160,000	-	-
£160,001-£170,000	-	1
£170,001-£180,000	-	-
£180,001-£190,000	1	-
£190,001-£200,000	2	5
£200,001-£210,000	3	1
£210,001-£220,000	-	-
£220,001-£230,000	-	-
£230,001-£240,000	-	-
£240,001-£250,000	1	1
£280,001-£290,000*	1	-
	159	129
MPTS		
£60,000-£70,000	3	2
£70,001-£80,000	1	-
£80,001-£90,000	1	1
£90,001-£100,000	2	2
	7	5
Cyfanswm	166	134

* Mae hyn yn cynnwys taliadau cytundebol sy'n ymwneud â diwedd cyflogaeth.

Nifer y staff a gafodd eu cynnwys uchod, y mae buddion ymddeol yn cronni ar eu cyfer

	2019
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio CMC	-
Cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio CMC	163
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio GIG	1
Heb fod mewn cynllun	2
	166

Roedd y tîm rheoli uwch yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a chwe chyfarwyddwr yn 2019. Gadawodd y Prif Swyddog Gweithredol ar 13 Medi 2019 ac mae'r rôl wedi cael ei dynnu allan o strwythur y TRhU. Cyfanswm buddion cyflogaion (heb gynnwys cyfraniadau i bensiwn cyflogwr) y tîm rheoli uwch oedd £1,948,556 yn 2019. Y ffigwr cyfatebol yn ystod 2018 oedd £1,843,329.

Nid oedd unrhyw drafodion parti cysylltiedig yn ystod y flwyddyn, y mae gofyn eu datgelu, ac eithrio'r taliadau a wnaethpwyd i ymddiriedolwyr fel y datgelwyd yn nodiadau 17 ac 18.

O fis Tachwedd 2018, roedd y Pwyllgor Tâl wedi caniatáu'r hyblygrwydd i'r tîm rheoli uwch i gyfnewid cyfraniadau pensiwn cyflogwr am gyflog. Mae trefniant tebyg ar gael i'r holl staff. Mae cost y newid yn niwtral i CMC oherwydd y telir unrhyw godiad mewn rhwymedigaeth YG cyflogwr gan y cyflogai fel didyniad o'u cyflog.

7. Asedau anniriaethol sefydlog

Grŵp ac elusen

**Meddalwedd
gyfrifiadurol a
datblygiad
systemau
£'000**

Cost

Balans ar 1 Ionawr 2019	43,261
Ychwanegiadau	5,570
Gwarediadau	(21,401)
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	27,430

Amorteiddio

Balans ar 1 Ionawr 2019	34,009
Tâl amorteiddio am y flwyddyn	5,078
Gwarediadau	(21,401)
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	17,686

Gwerth llyfr net ar 1 Ionawr 2019	9,252
Gwerth llyfr net ar 31 Rhagfyr 2019	9,744

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys yr holl gostau datblygu meddalwedd TG gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, ddatblygiad ein cymwysiadau strategol, Livelink ac Agresso, datblygiad systemau diogelwch TG, systemau rheoli cyfleusterau a'r wefan. Mae asedau anniriaethol yn cynnwys y systemau er mwyn cynorthwyo gweithio gartref a chymwysiadau symudol hefyd.

8. Asedau diriaethol sefydlog

Grŵp ac elusen

	Adeiladau £'000	Gosodiadau, dodrefn ac offer £'000	Offer TG £'000	Cyfanswm £'000
Cost				
Balans ar 1 Ionawr 2019	2,171	9,370	8,356	19,897
Ychwanegiadau	282	4,178	2,044	6,504
Gwarediadau	(181)	(334)	(1,927)	(2,442)
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	2,272	13,214	8,473	23,959
Dibrisiant				
Balans ar 1 Ionawr 2019	1,976	5,587	7,221	14,784
Tâl dibrisiant ar gyfer y flwyddyn	41	1,385	911	2,337
Gwarediadau	(181)	(308)	(1,927)	(2,416)
Balans ar 31 Rhagfyr 2019	1,836	6,664	6,205	14,705
Llyfr gwerth net ar 1 Ionawr 2019	195	3,783	1,135	5,113
Llyfr gwerth net ar 31 Rhagfyr 2019	436	6,550	2,268	9,254

9. Buddsoddiadau

Cronfeydd a reolir

	Grŵp			Elusen		
	Arian a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian £'000	Buddsoddiadau Rhestredig £'000	Cyfanswm £'000	Arian a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian £'000	Buddsoddiadau Rhestredig £'000	Buddsoddiad Ecwiti mewn Ymgymeriadau Grŵp £'000
Roedd y prisiad ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys:						
Ar 1 Ionawr 2019	40,180	20,578	60,758	40,180	20,578	203
Ychwanegiadau		30,000	30,000		30,000	
Gwarediadau	(29,896)		(29,896)	(29,896)		
Enillion ar fuddsoddiadau		4,187	4,187		4,187	
Dadwneud amhariad*			-			21
Ar 31 Rhagfyr 2019	10,284	54,765	65,049	10,284	54,765	224

* Corfforodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol is-gwmni masnachol yn ei lwyr berchnogaeth ar 16 Rhagfyr 2016. Ar ôl dioddef amhariad o £397,000 yn flaenorol o ganlyniad i golledion masnachu, cydnabuwyd swm o £21,000 ar ddiwedd 2019, a oedd yn dadwneud yr amhariad, o ganlyniad i'r elw a sicrhawyd gan y cwmni, gan gynyddu ei asedau net.

Rheolir buddsoddiadau rhestredig gan CCLA Investment Management Ltd.

10. Dyledwyr

	2019 Grŵp £'000	Elusen £'000	2018 Grŵp £'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn			
Dyledwyr cofrestru	15,952	15,952	14,800
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	4,835	4,835	4,100
Dyledwyr eraill	362	258	396
	21,149	21,045	19,296

11. Credydwyr

	2019		2018
	Grŵp	Elusen	Grŵp
	£'000	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn			
Credydwyr masnachol	1,379	1,374	895
Treth a nawdd cymdeithasol	1,601	1,580	1,502
Tâl gwyliau	922	922	855
Croniadau	11,707	11,552	11,563
Incwm gohiriedig	55,785	55,769	52,699
	71,394	71,197	67,514

Incwm elusennol gohiriedig

Caiff incwm gan ffioedd cadw blynyddol ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r incwm yn ymwneud ag ef. Caiff yr holl incwm gohiriedig sy'n cael ei ddwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol ei ryddhau yn awtomatig i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn ddilynol.

Incwm gohiriedig yr is-gwmni masnachol

Caiff incwm o gontractau nawdd a blaendaliadau am logi'r Ganolfan Asesu Clinigol ei ohirio a'i gyfateb â'r cyfnod perthnasol.

	Ffioedd cadw blynyddol £'000	Ffioedd PLAB £'000	Ffioedd cofrestru arbenigol a meddygon teulu £'000	Ffioedd asesu aillddilysu £'000	Taliadau trafodion £'000	Incwm gohiriedig is- gwmni masnachol £'000	Cyfanswm £'000
Incwm gohiriedig ar 1 Ionawr 2019	49,049	3,576	6	63	5	-	52,699
Adnoddau a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn	51,864	3,819	21	65	-	16	55,785
Symiau a ryddhawyd o flynyddoedd blaenorol	(49,049)	(3,576)	(6)	(63)	(5)		(52,699)
Incwm gohiriedig ar 31 Rhagfyr 2019	51,864	3,819	21	65	-	16	55,785

12. Darpariaethau

Grŵp ac elusen

	2019 £'000	2018 £'000
Dadfeiliadau	1,109	1,208
Hawliadau cyfreithiol	170	330
Rhaglen Newid	-	31
	1,279	1,569

Dadfeiliadau – bob blwyddyn, byddwn yn adolygu ein prydles eiddo ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau, lle y mae modd amcangyfrif y gost mewn ffordd resymol.

Hawliadau cyfreithiol – bob blwyddyn, byddwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer costau posibl sy'n gysylltiedig gydag achosion cyfreithiol sy'n mynd rhagddynt.

Rhaglen Newid – Ar 10 Rhagfyr 2015, penderfynom gychwyn ar Raglen Newid fawr er mwyn lleihau costau a chynyddu incwm dros y tymor canolig. Crëwyd darpariaeth yn 2018 ar gyfer y costau ailstrwythuro sy'n weddill ac sy'n gysylltiedig gyda'r Rhaglen Newid hon.

	Dadfeiliadau £'000	Hawliadau Cyfreithiol £'000	Rhaglen Newid £'000	Cyfanswm £'000
Darpariaethau ar 1 Ionawr 2019	1,208	330	31	1,569
Darpariaethau a grëwyd yn ystod y flwyddyn	15	170	-	185
Symiau a ryddhawyd o flynyddoedd blaenorol	(114)	(330)	(31)	(475)
Darpariaethau ar 31 Rhagfyr 2019	1,109	170	-	1,279

13. Symudiadau cronfa grŵp yn ystod y flwyddyn

Grŵp ac elusen

	Cronfeydd anghyfyngedig * £'000	Cronfa bensiwn £'000	Cyfanswm 2019 £'000
Ar 1 Ionawr 2019	66,299	31,307	97,606
Adnoddau net sy'n mynd allan	(3,109)	(21,916)	(25,025)
Ar 31 Rhagfyr 2019	63,190	9,391	72,581

*Mae'r cronfeydd anghyfyngedig yn cynnwys £3,305 ar ffurf cyllid grant, a ddefnyddir yn ystod 2020.
(2018: £5,000)

	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfa bensiwn £'000	Cyfanswm 2018 £'000
Ar 1 Ionawr 2018	65,247	12,701	77,948
Adnoddau net sy'n dod i mewn/(mynd allan)	1,052	18,606	19,658
Ar 31 Rhagfyr 2018	66,299	31,307	97,606

14. Ymrwymïadau cyfalaf

Cyfanswm y gwariant cyfalaf a gontractiwyd ond heb ei wario ar 31 Rhagfyr 2019 oedd £63,518. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer 2018 oedd £152,442.

15. Ymrwymïadau prydlesi gweithredol

	Tir ac adeiladau		Offer
	2019 £'000	2018 £'000	2019 £'000
Dyddiad dod i ben			
Cyn pen blwyddyn	3,598	3,549	97
Ym mlynnyddoedd dwy i bump	14,211	13,754	48
Ar ôl mwy na phum mlynedd	3,673	4,637	-
	21,482	21,940	145

Caiff taliadau prydlesi eu cydnabod fel traul yn ystod y flwyddyn a chaiff ymrwymïadau prydlesi eu paratoi ar y sail ariannol a'r dybiaeth y caiff dewisiadau torri prydles eu cychwyn.

16. Cynlluniau pensiwn

Mae gan CC dri chynllun pensiwn i'r staff:

Cynllun Pensiwn Personol Grŵp CMC

Mae hwn yn gynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio, a sefydlwyd ar 1 Gorffennaf 2013. Cychwynnom ar drefniant cofrestru awtomatig ar 1 Tachwedd 2013. Ar ddiwedd 2019 roedd 1,383 aelod o staff yn cyfrannu at y cynllun hwn. Mae'n bodloni gofynion y llywodraeth ar ôl cyflwyno'r trefniadau cofrestru awtomatig. Gall unigolion ddewis gwneud cyfraniadau ychwanegol trwy ddiwyddu symiau o'u cyflog i'r cynllun. Dan amodau FRS102, rhoddir cyfrif o gyfraniadau fel cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio ar sail cyfraniadau go iawn a dalwyd trwy gydol y flwyddyn.

Cynllun Aml-Gyflogwr GIG

Mae gennym 2 aelod o staff sy'n cyfrannu at gynllun aml-gyflogwr GIG, sy'n gynllun â buddion wedi'u diffinio. Trosglwyddodd yr unigolion hyn i CMC ar ôl i ni uno gyda PMETB. Mae'r cynllun yn gweithredu fel trefniant cyfun, a thelir cyfraniadau ar gyfradd sy'n cael ei chytuno yn ganolog. Ni all yr ymddiriedolwyr gadarnhau cyfran CMC o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol cynllun GIG, felly, dan amodau FRS 102, rhoddir cyfrif am gyfraniadau fel pe bai'r cynllun yn gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio ar sail cyfraniadau go iawn a delir trwy gydol y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Staff CMC

Mae hwn yn gynllun a ariannir o fath cynlluniau â buddion wedi'u diffinio, sy'n darparu buddion ymddeol ar sail y cyflog terfynol. Mae'r trefniant taliadau atodol yn gynllun nas ariannir.

Caewyd y cynllun hwn i aelodau newydd ar 30 Mehefin 2013 ac fe'i ddisodlwyd gan Gynllun Pensiwn Personol Grŵp CMC. Caewyd y cynllun i groniadau yn y dyfodol i aelodau presennol ar 31 Mawrth 2018, felly ar ddiwedd 2018, nid oedd unrhyw aelodau o staff yn cyfrannu i'r cynllun hwn.

Seiliwyd y prisiad FRS 102 ar asesiad llawn o'r rhwymedigaethau ar gyfer y Cynllun ar 31 Rhagfyr 2018. Mesurwyd gwerthoedd presennol y rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio, cost gysylltiedig y gwasanaeth cyfredol ac unrhyw gostau gwasanaeth blaenorol gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol.

Mae enillion a cholledion actiwaraidd wedi cael eu cydnabod yn ystod y cyfnod y maent yn digwydd ynddo (ond y tu allan i'r cyfrif elw a cholled) trwy'r Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI).

Mae CMC yn cydnabod gwargedion yn unol â gofynion Adran 18 FRS 102. Nid oes gan ymddiriedolwyr y cynllun yr hawl unochrog i gychwyn ar y broses o ddirwyn y cynllun i ben. Felly, mae CMC yn cymryd y bydd y cynllun yn parhau i fodoli nes y telir y taliadau budd olaf i aelodau, ac ar yr adeg honno, caiff unrhyw asedau gweddilliol eu dychwelyd i CMC yn unol â rheolau'r Cynllun.

Gwnaeth CMC daliad atodol ychwanegol o £1.9m i'r cynllun yn 2019, a bydd yn cyfrannu taliad atodol i'r cynllun o £1.3m bob blwyddyn rhwng 2020 a 2025.

Ymddiriedolwyr y pensiwn sy'n gyfrifol am fuddsoddi asedau'r cynllun pensiwn. Mae Deddf Pensiynau 1995 yn mynnu bod ymddiriedolwyr yn paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, gan nodi strategaeth fuddsoddi'r cynllun. Mae gofyn i ymddiriedolwyr pensiwn ymgynghori â'r cyflogwr (CMC) pan fyddant yn llunio'r strategaeth, ond nid oes gofyn iddynt gael cytundeb ffurfiol y cyflogwr. Ar ôl ymgynghori gyda CMC, yn 2014, mabwysiadodd ymddiriedolwyr y pensiwn ddull gweithredu rheoli ymddiriedol tuag at fuddsoddi asedau'r cynllun

Isod, nodir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwys annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaethau dan FRS 102.

Prif dybiaethau ariannol

	31 Rhagfyr 2019	31 Rhagfyr 2018
	%yf	%yf
Chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu	3.1	3.4
Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr	2.2	2.5
Cyfradd y cynnydd hirdymor cyffredinol mewn cyflogau	3.2	4.9
Cynnydd mewn pensiwn (tâl-dros-ben dros y pensiwn isaf gwarantedig)	2.2	2.5
Cyfradd y gostyngiad ar gyfer rhwymedigaethau cynllun	2	2.9

Tybiaethau marwoldeb

Seilir y tybiaethau marwoldeb ar dablau marwoldeb safonol gyda lwfans ar gyfer gwelliannau o ran marwoldeb yn y dyfodol. Y tybiaethau yw y bydd aelod sy'n 65 oed ar hyn o bryd yn byw ar gyfartaledd am 22.6 mlynedd arall (2018 22.8 mlynedd) os ydynt yn ddyn ac am 24.4 mlynedd arall (2018 25.2) os ydynt yn fenyw.

I aelod sy'n ymddeol yn 2038 yn 65 oed, y tybiaethau yw y byddant yn byw ar gyfartaledd am 24.5 mlynedd arall ar ôl ymddeol os ydynt yn ddyn a 26.8 mlynedd arall ar ôl ymddeol os ydynt yn fenyw.

Neilltuo asedau'r cynllun

	31 Rhagfyr 2019		31 Rhagfyr 2018	
	£'000	%	£'000	%
Gwasanaethau ymgynghori dirprwyedig	256,418	99%	228,233	99%
Arall	1,725	1%	1,969	1%
Cyfanswm	258,143	100%	230,202	100%

Mae'r Gwasanaeth Ymgynghori Dirprwyedig (DCS) yn ddatrysiaid rheoli ymddiriedol sy'n buddsoddi mewn ystod eang o asedau sylfaenol er mwyn bodloni amcanion buddsoddi penodol y Cynllun. Mae neilltuad yr asedau sylfaenol yn newid gydag amser, ar sail safbwyntiau'r rheolwr ymddiriedol o fewn y terfynau cyffredinol a bennwyd gan yr ymddiriedolwyr. Dan y dull gweithredu hwn, buddsoddir y rhan fwyaf o asedau'r cynllun mewn cronfeydd cyfun. Mae gofyn i reolwyr y cronfeydd cyfun feddu ar bolisi ynghylch ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol. Ni chaiff unrhyw rai o asedau'r Cynllun eu buddsoddi yn offerynnau ariannol y Cwmni neu mewn eiddo y mae CMC yn ei ddefnyddio neu mewn asedau eraill a ddefnyddir gan CMC.

Cysoni statws wedi'i ariannu i'r fantolen

	31 Rhagfyr 2019	
	£'000	£'000
Gwerth teg asedau	258,143	230,202
Gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio a ariannwyd	(247,603)	(197,783)
Statws ariannu	10,540	32,419
Gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio heb ei ariannu	(1,149)	(1,112)
Ased/(rhwymedigaeth) sy'n cael ei gydnabod ar y fantolen	9,391	31,307

Symiau a gydnabuwyd yn y datganiad incwm

	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2019 £'000	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2018 £'000
Cost gweithredol:		
Cost gwasanaeth cyfredol	-	1,845
Cost gwasanaeth blaenorol	-	57
Cost ariannu:		
Llog ar rwymedigaeth/(ased) budd wedi'i ddiffinio net	(951)	(389)
Traul pensiwn a gydnabuwyd yn elw a cholled	(951)	1,513

Symiau a gydnabuwyd mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)

	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2019 £'000	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2018 £'000
Enillion/(colledion) asedau a gododd yn ystod y flwyddyn	21,588	(12,619)
Enillion/(colledion) rhwymedigaeth a gododd yn ystod y flwyddyn	(46,414)	27,051
Enillion/(colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	(24,826)	14,432

Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth budd wedi'i ddiffinio yn ystod y flwyddyn

	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2019 £'000	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2018 £'000
Rhwymedigaeth budd wedi'i ddiffinio (DBO) agoriadol	198,895	220,612
Cost y gwasanaeth cyfredol	-	1,845
Traul llog ar DBO	5,735	5,490
Enillion/(colledion) actiwaraidd ar rwymedigaethau	46,414	(27,051)
Buddion net a dalwyd	(2,292)	(2,058)
Cost gwasanaeth blaenorol	-	57
Rhwymedigaeth budd wedi'i ddiffinio wrth gloi	248,752	198,895

Newidiadau i werth teg asedau'r Cynllun yn ystod y flwyddyn

	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2019 £'000
Gwerth teg agoriadol asedau'r Cynllun	230,202
Incwm ar ffurf llog ar asedau'r Cynllun	6,686
Ennill/(colled) ar asedau'r Cynllun	21,588
Cyfraniadau gan y Cwmni	1,959
Buddion net a dalwyd	(2,292)
Gwerth teg asedau'r Cynllun wrth gloi	258,143

Elw go iawn ar asedau'r Cynllun

	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2019 £'000	Y flwyddyn yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2018 £'000
Incwm ar ffurf llog ar asedau'r Cynllun	6,686	5,879
Ennill/(colled) ar asedau'r Cynllun	21,588	(12,619)
Elw go iawn ar asedau'r Cynllun	28,274	(6,740)

17. Honoraria

Ymddiriedolwyr	2019 £	2018 £
Bonesig Clare Marx (Cadeirydd) *	110,000	-
Athro Terence Stephenson (Cadeirydd) **	-	110,000
Mr Steve Burnett	18,000	18,000
Dr Shree Datta***	16,500	18,000
Arglwyddes Christine Eames	18,000	18,000
Dr Anthony Harnden	18,000	18,000
Barwnes Helene Hayman****	-	18,000
Arglwydd Philip Hunt*****	18,000	-
Athro Deirdre Kelly	18,000	18,000
Athro Paul Knight	18,000	18,000
Bonesig Suzi Leather	18,000	18,000
Dr Michael Marsh*****	4,500	-
Bonesig Denise Platt	18,000	18,000
Miss Amerdeep Somal	18,000	18,000

* Penodwyd Bonesig Clare Marx yn Gadeirydd y Cyngor ar 1 Ionawr 2019.

** Ymddiswyddodd Athro Terence Stephenson fel Cadeirydd y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2018.

*** Ymddiswyddodd Dr Shree Datta fel Aelod o'r Cyngor ar 30 Tachwedd 2019.

**** Ymddiswyddodd Barwnes Helene Hayman fel Aelod o'r Cyngor ar 31 Rhagfyr 2018.

***** Penodwyd Arglwydd Philip Hunt yn Aelod o'r Cyngor ar 1 Ionawr 2019.

***** Penodwyd Dr Michael Marsh yn Aelod o'r Cyngor ar 1 Ionawr 2019 ac ymddiswyddodd ar 31 Mawrth 2019.

Caniateir taliadau honoraria gan ddogfen lywodraethu y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Deddf Meddygol 1983, paragraff 17, atodlen 1.

	2019	2018
Aelodau pwyllgor cynghori y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	£	£
Bonesig Caroline Swift (Cadeirydd)	94,255	91,479
Mrs Joy Hamilton	3,720	3,668
Athro Jacky Hayden	6,200	3,720
Dr Patricia Moultrie	3,720	3,720
Mrs Judith Worthington	3,720	3,720

	2019	2018
Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Risg ac Archwilio	£	£
Ms Elizabeth Butler	2,985	2,790
Mr Kenneth Gill*	2,465	-
Mr John Morley **	1,085	1,705

* Penodwyd Mr Kenneth Gill yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ar 12 Medi 2019.

** Ymddiswyddodd Mr John Morley fel aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ar 18 Gorffennaf 2019.

	2019	2018
Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Buddsoddi	£	£
Mr Keith Mackay	1,240	1,550
Mr Tim Scholefield	1,550	2,170
Mr David Stewart*	620	-

* Penodwyd Mr David Stewart yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Buddsoddi ar 4 Medi 2018.

	2019	2018
Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd	£	£
Dr Andrew McCulloch	930	1,860
Athro Vikas Shah *	-	-

* Penodwyd Athro Vikas Shah yn gyfarwyddwr GMCSI ar 1 Mehefin 2017 ond nid yw wedi hawlio ffioedd na threuliau eto.

18. Treuliau teithio a chynhaliaeth a hawliwyd yn ystod 2019

	2019	2018
	£	£
Ymddiriedolwyr		
Bonesig Clare Marx (Cadeirydd)*	6,008	-
Athro Terence Stephenson (Cadeirydd)**	-	14,436
Mr Steve Burnett	2,670	2,960
Dr Shree Datta***	461	932
Arglwyddes Christine Eames	6,157	6,956
Dr Anthony Harnden	1,904	1,502
Barwnes Helene Hayman****	-	382
Arglwydd Philip Hunt*****	1,095	-
Athro Deirdre Kelly	3,639	5,104
Athro Paul Knight	3,777	4,800
Bonesig Suzi Leather	2,659	3,761
Dr Michael Marsh*****	165	-
Bonesig Denise Platt	2,485	2,395
Miss Amerdeep Somal	6,131	5,780
Cyfanswm	37,151	49,008

* Penodwyd Bonesig Clare Marx yn Gadeirydd y Cyngor ar 1 Ionawr 2019.

** Ymddiswyddodd Athro Terence Stephenson fel Cadeirydd y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2018.

*** Ymddiswyddodd Dr Shree Datta fel Aelod o'r Cyngor ar 30 Tachwedd 2019.

**** Ymddiswyddodd Barwnes Helene Hayman fel Aelod o'r Cyngor ar 31 Rhagfyr 2018.

***** Penodwyd Arglwydd Philip Hunt yn Aelod o'r Cyngor ar 1 Ionawr 2019.

***** Penodwyd Dr Michael Marsh yn Aelod o'r Cyngor ar 1 Ionawr 2019 ac ymddiswyddodd ar 31 Mawrth 2019.

	2019	2018
	£	£
Aelodau pwyllgor cyngori y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol		
Bonesig Caroline Swift (Cadeirydd)	1,910	2,174
Mrs Joy Hamilton	329	532
Athro Jacky Hayden	341	153
Dr Patricia Moultrie	543	981
Mrs Judith Worthington	754	856

	2019	2018
	£	£
Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Risg ac Archwilio		
Ms Elizabeth Butler	512	652
Mr Kenneth Gill*	777	-
Mr John Morley	595	1,070

* Penodwyd Mr Kenneth Gill yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ar 12 Medi 2019.

** Ymddiswyddodd Mr John Morley fel aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ar 18 Gorffennaf 2019.

	2019	2018
	£	£
Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Buddsoddi		
Mr Keith Mackay	77	155
Mr Tim Scholefield	-	-
Mr David Stewart*	64	-

* Penodwyd Mr David Stewart yn aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Buddsoddi ar 4 Medi 2018.

	2019	2018
	£	£
Gwasanaethau Rhyngwladol CMC Ltd		
Dr Andrew McCulloch	195	104
Athro Vikas Shah *	-	-

* Penodwyd Athro Vikas Shah yn gyfarwyddwr GMCSI ar 1 Mehefin 2017 ond nid yw wedi hawlio ffioedd na threuliau eto.

	2019	2018
	£	£
Tîm rheoli uwch		
Mr Charlie Massey (Prif Weithredwr)	9,884	10,426
Ms Susan Goldsmith* (Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr)	19,760	12,487
Mr Paul Buckley – Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi	6,742	7,720
Ms Una Lane – Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu	13,318	8,407
Athro Colin Melville – Cyfarwyddwr Addysg a Safonau	18,270	31,025
Mr Anthony Omo – Cyfarwyddwr Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol	9,744	12,197
Mr Paul Reynolds – Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Strategol	26,354	14,990
Mr Neil Roberts – Cyfarwyddwr Adnoddau	14,161	15,177

* Gadawodd Susan Goldsmith ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr ar 13 Medi 2019.

Mae'r amrywiadau o ran y treuliau yn adlewyrchu'r ffaith bod yr ymddiriedolwyr, aelodau'r pwyllgorau a'r tîm Rheoli Uwch yn byw mewn gwahanol rannau o'r DU ac mae gofyn iddynt deithio o gwmpas y DU yn cyflawni gwaith CMC, gan gynnwys i'n swyddfeydd yn Llundain, Manceinion, Caeredin, Belfast a Chaerdydd, a thu allan i'r DU o bryd i'w gilydd.

Yn ogystal, gwneir addasiadau ar gyfer y rhai sydd ag anableddau, a allai olygu bod treuliau ychwanegol yn codi ar gyfer teithio a llety yn unol ag anghenion penodol.

19. Digwyddiadau sydd wedi codi ar ôl y fantolen

Adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, mae lledaeniad feirws COVID-19 yn parhau i effeithio ar farchnadoedd ariannol byd-eang. Nid yw'r effaith hirdymor ar werthoedd buddsoddi, buddsoddiadau elusenol a buddsoddiadau cynlluniau pensiwn yn hysbys ar hyn o bryd. Bydd ymddiriedolwyr yr Elusen yn parhau i fonitro'r sefyllfa a'r effaith ar brisiadau buddsoddiadau.

Gwybodaeth weinyddol a chyfeirio

Rydym yn annibynnol ar lywodraeth y DU a'r proffesiwn meddygol ac yn atebol i'r Senedd. Rhoddir ein pwerau i ni gan y Senedd trwy gyfrwng *Deddf Meddygol 1983*.

Rydym wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (1089278), a gyda Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban (SC037750). Nid oes gofyn i ni gofrestru ar wahân gyda Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

Ein prif fannau busnes yw 3 Hardman Street, Manceinion M3 3AW a Regent's Place, 350 Euston Road, Llundain NW1 3JN. Yn ogystal, mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast; canolfan wrandawiadau, lle y lleolir MPTS, yn St James's Buildings, 79 Oxford Street, Manceinion M1 6FQ; a Chanolfan Asesu Clinigol, yn 3 Hardman Square, Manceinion M3 3EB

Mae gan ein hymddiriedolwyr ddyletswydd i weithredu mewn ffordd ddiduedd a gwrthrychol, a chymryd camau i osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sy'n deillio o'u haelodaeth o unrhyw sefydliad arall neu eu cyswllt ag unrhyw sefydliad neu unigolion eraill. Fel ymddiriedolwyr, mae gan aelodau ddyletswydd i osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â'u ddyletswydd i weithredu er budd yr elusen, oni bai y cânt eu hawdurdodi i wneud hynny. Er mwyn sicrhau bod hyn yn hollol dryloyw, rydym yn cyhoeddi cofrestr o fuddiannau aelodau ar ein gwefan.

Caiff y cyfrifoldeb dros reolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, Charlie Massey. Gallwch ddarllen mwy am ein trefniadau llywodraethu a rheoli o dudalen 44.

Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), corff annibynnol sy'n atebol i'r Senedd ac sy'n craffu ac yn goruchwyllo ein gwaith, ynghyd â chyrff rheoliadol iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn y DU.

Ceisiadau am wybodaeth

Yn 2019, cawsom 471 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth dan y *Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)*. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 21.1% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2018. Nifer y ceisiadau am wybodaeth a gawsom dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn 2019 oedd 626. Roedd hwn yn ostyngiad o 2.1% o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2018.

Llwyddom i sicrhau 86.6% yn erbyn ein targed o ymateb i 80% o geisiadau gwrthrych am wybodaeth o fewn yr amserlen statudol.

Llwyddom i sicrhau 89.8% yn erbyn ein targed o ymateb i 90% o geisiadau rhyddid gwybodaeth cyn pen 20 diwrnod gwaith.

Talu am nwyddau a gwasanaethau

Talom 97% o anfonebau dilys a diamheuol cyn pen 30 diwrnod ac ni wnaethom dalu unrhyw log i gyflenwyr oherwydd ein bod wedi bod dros 30 diwrnod yn hwyr yn talu.

Cynghorwyr proffesiynol

Bancwyr	Royal Bank of Scotland 250 Bishopsgate London EC2M 4AA
Cyfreithwyr	Cyflawnir rhan fwyaf ein gwaith cyfreithiol gan ein tîm cyfreithiol mewnol.
Archwilwyr	Crowe U.K. LLP St Bride's House 10 Salisbury Square London EC4Y 8EH
Cynghorydd cynllun pensiwn ac actiwari	Aon Parkside House, Ashley Road Epsom Surrey KT18 5BS